Y
Comisiwn
Etholiadol

# Llawlyfr i staff gorsafoedd pleidleisio

Cefnogi etholiad Senedd
y DU ym Mhrydain Fawr

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Llawlyfr i staff gorsafoedd pleidleisio

Cod archeb: UKPE24G001E
© Y Comisiwn Etholiadol 2024

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**

**2. Yr etholiad a thîm yr orsaf bleidleisio** **2**
Etholiadau Senedd y DU 2
Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio 2

**3. Cyn y diwrnod pleidleisio** **5**
Hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio 5
Lleoliad yr orsaf bleidleisio 5
Safonau ymddangosiad 5
Cysylltu ag aelodau eraill o'r tîm 6
Dosbarthu neu gasglu'r blwch pleidleisio 6

**4. Y diwrnod pleidleisio: cyn i'r bleidlais agor** **7**
Cyrraedd yr orsaf bleidleisio 7
Beth fydd yn digwydd os na fydd deiliad yr allwedd yn bresennol? 7
Gwirio cyflenwadau a deunyddiau 7
Cynllun yr orsaf bleidleisio 8
Arwyddion a hysbysiadau 11
Cyfarpar 11
Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio? 11
Gwiriadau terfynol o waith papur 14
Selio'r blwch pleidleisio 15

**5. Y diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y bleidlais** **16**
Agor yr orsaf bleidleisio 16
Neilltuo rolau yn yr orsaf bleidleisio 16
Crynodeb o'r drefn bleidleisio 16
Cam un – cadarnhau pwy yw'r pleidleisiwr 17
Cam dau – gwirio ID ffotograffig y pleidleisiwr 19
Cam tri – marcio'r gofrestr a chwblhau gwaith papur ynghylch ID y pleidleisiwr 21
Cam pedwar – rhoi'r papur pleidleisio 21
Cam pump – pleidleisio 22

**6 Diwedd y cyfnod pleidleisio** **26**
Gweithdrefnau 26
Cwblhau'r gwaith papur 27
Pacio deunyddiau yn yr orsaf bleidleisio 29
Cludo deunyddiau etholiad i'r ganolfan dilysu a chyfrif 29

**Atodiad 1 – Cymorth i bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr anabl** **30**
Ymwybyddiaeth o hygyrchedd 30
Cyfarpar a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio i gefnogi pleidleiswyr anabl 31
Cymorth i etholwyr sy'n methu mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio 32
Pleidleiswyr anabl sy'n gofyn am gymorth 33
Cynorthwyo pleidleiswyr dall neu rannol ddall i farcio eu papur pleidleisio 33
Cynorthwyo pleidleiswyr byddar yn yr orsaf bleidleisio 34

**Atodiad 2a – Delio â phroblemau ar y gofrestr etholwyr** **35**
Oedran – hawl i bleidleisio 35
Enwau wedi'u camsillafu a phleidleiswyr sydd wedi newid eu henw 35
Etholwyr eraill 35
Person nad yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr 35
Gwallau clercol ar y gofrestr 35
Unrhyw berson arall nad yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr 36

**Atodiad 2b – Delio â phroblemau sy'n codi yn sgil gwirio ID ffotograffig** **37**

**Atodiad 3a – Y drefn ar gyfer pleidleiswyr post** **40**
Pleidleiswyr post 40

**Atodiad 3b – Y drefn ar gyfer pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy** **46**
Pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy 46

**Atodiad 4 – Etholwyr â chofnod dienw ar y gofrestr** **49**
Gweithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwyr â chofnod dienw 49
Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb gerdyn pleidleisio? 49
Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb Ddogfen Etholwr? 49
Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn gofyn am i'w ID gael ei wirio'n breifat? 50

**Atodiad 5a – Y cwestiynau rhagnodedig** 51
Y wybodaeth ofynnol y mae angen ei rhoi i berson cyn gofyn y cwestiynau rhagnodedig ym mhob senario 52
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel etholwr 52
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy (ond nid ar ran etholwr â chofnod dienw) 52
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr â chofnod dienw 53
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio yn bersonol pan fo'n ymddangos ar y gofrestr fel pleidleisiwr post 54
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy pan fo cofnod yn dangos ei fod wedi cael papur pleidleisio drwy'r post ar gyfer dirprwy 55

**Atodiad 5b – Papurau pleidleisio a gyflwynwyd** 56
Amgylchiadau pan ddylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd 56
Y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd 56
Rhesymau dros gwblhau papur pleidleisio a gyflwynwyd 57

**Atodiad 6 – Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio** 58
Cadw trefn 58
Aflonyddwch neu ddigwyddiadau difrifol a gohirio'r bleidlais 58
Delio â sefyllfaoedd anodd 59

**Atodiad 7 – Y drefn ar gyfer delio â chambersonadu** 60
Beth sy'n digwydd os bydd staff gorsaf bleidleisio yn amau bod rhywun yn cambersonadu etholwr neu ddirprwy? 60
Beth sy'n digwydd os bydd asiant etholiad, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr? 60
Beth sy'n digwydd os bydd yn ymddangos bod rhywun arall (heblaw am ddirprwy) wedi pleidleisio ar ran y pleidleisiwr? 60

**Atodiad 8 – Canllawiau ar rifwyr, y cyfryngau ac arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio** 62
Rhifwyr 62
Y cyfryngau 63
Arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio 63

**Atodiad 9 – Iechyd a diogelwch** 64
Iechyd a diogelwch staff yr orsaf bleidleisio ac etholwyr 64
Codi gwrthrychau trwm 64

**Atodiad 10 – Cwestiynau cyffredin a ofynnir i staff gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio** 65

**Atodiad 11 – Rhestr wirio ar gyfer gosod yr orsaf bleidleisio** 68
Y tu allan i'r orsaf bleidleisio 68
Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio 69

**Atodiad 12 – Enghreifftiau cyffredin o ID ffotograffig a dderbynnir** 72

**Atodiad 13 – Gwledydd yr AEE, gwledydd y Gymanwlad a Thiriogaethau Tramor Prydeinig** 77
Tiriogaethau Tramor Prydeinig (pasbortau) 77
Gwledydd y Gymanwlad (pasbortau)* 78
Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (trwyddedau gyrru, pasbortau ac ID cenedlaethol) 79

# 1. Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr hwn yw helpu staff gorsafoedd pleidleisio sy'n gweithio yn etholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Mae'n disgrifio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn a sut i ddelio ag unrhyw beth a allai ddigwydd.

Mae'r testun yn cwmpasu'r holl ofynion yn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU.

Fel staff gorsafoedd pleidleisio, rydych yn chwarae rhan ganolog yn yr etholiad. Mae eich rôl yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan bleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid hyder yn y broses etholiadol.

Cewch hyfforddiant ar eich rôl, ond dylech ddarllen y llawlyfr hwn yn ofalus cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau a ddisgrifir ynddo.

Cyfeirir at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drwy'r llawlyfr hwn gan mai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trefniadau ar gyfer cynnal y bleidlais.

Fodd bynnag, yn ymarferol, y gweinyddwr etholiadau sy'n gyfrifol am y gwaith beunyddiol o redeg etholiadau. Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn cael manylion cyswllt lleol cyn y diwrnod pleidleisio ac mae'n debygol mai'r swyddfa etholiadau fydd y pwynt cyswllt cyntaf.

# 2. Yr etholiad a thîm yr orsaf bleidleisio

## Etholiadau Senedd y DU

Defnyddir system etholiadol y cyntaf i'r felin ar gyfer etholiadau i Senedd y DU.

Dylai pleidleiswyr farcio eu papur pleidleisio drwy roi un 'X' yn y blwch ar y dde i enw'r ymgeisydd y maent am bleidleisio drosto. Os byddant yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd, ni chaiff eu papur pleidleisio ei gyfrif. Yr ymgeisydd sy'n cael y nifer mwyaf o bleidleisiau a gaiff ei ethol.

## Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio

Rôl staff yr orsaf bleidleisio yw sicrhau y gall pleidleiswyr fwrw eu pleidlais yn annibynnol, yn gyfrinachol, heb ddod o dan ddylanwad ac mewn awyrgylch digyffro.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi penderfynu sawl aelod o staff fydd ei angen yn yr orsaf bleidleisio.

Dylai'r Swyddog Llywyddu a'r Clercod Pleidleisio allu cyflawni dyletswyddau ei gilydd yn ôl yr angen. Fodd bynnag, Swyddogion Llywyddu sy'n bennaf cyfrifol am yr orsaf bleidleisio ac mae ganddynt rôl oruchwylio ychwanegol i'w chwarae. Hefyd, yn gyfreithiol, mae nifer o ddyletswyddau na allant gael eu cyflawni gan neb arall heblaw am Swyddogion Llywyddu, sef:

- gofyn i swyddog heddlu hebrwng rhywun o orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 6)
- cyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig sy'n bresennol ar unrhyw adeg (gweler Pennod 4)
- penderfynu gwrthod rhoi papur pleidleisio i etholwr os bydd ei ID ffotograffig yn peri amheuaeth resymol o ran ai'r pleidleisiwr yw'r etholwr y mae'n honni bod neu os bydd amheuaeth resymol bod yr ID yn un ffug (gweler Atodiad 2b)
- penderfynu gwrthod rhoi papur pleidleisio i etholwr nad yw wedi ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a)

### Dyletswyddau'r Swyddog Llywyddu

Swyddogion Llywyddu sy'n gyfrifol am gynnal y bleidlais yn yr orsaf bleidleisio a dylai fod ganddynt wybodaeth gadarn am y trefniadau pleidleisio.

Prif ddyletswyddau Swyddogion Llywyddu yw:

- cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)
- cysylltu â deiliad allwedd y man pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio, os bydd angen (gweler Pennod 3)
- trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio (gweler Pennod 4)
- agor a chau'r orsaf bleidleisio ar amser
- rhoi cyfarwyddyd i'r Clercod Pleidleisio a goruchwylio eu gwaith
- sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y bleidlais
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio ag etholwyr, ymgeiswyr ac asiantiaid, ac eraill y mae hawl ganddynt i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio
- gweithio mewn ffordd ddiduedd bob amser
- cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio
- sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn ddiogel, gan gynnwys drwy wneud yn siŵr bod cyngor iechyd y cyhoedd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cael ei ddilyn drwy gydol y diwrnod
- rhoi cyfrif am yr holl bapurau pleidleisio, gwaith papur a'r blwch/blychau pleidleisio a bod yn gyfrifol amdanynt
- sicrhau, pan fyddan nhw, neu eu Clerc Pleidleisio, yn rhoi papur pleidleisio, bod y

marc swyddogol ar y papur hwnnw a'i fod yn cael ei roi'n gywir i etholwyr cymwys

- sicrhau bod y drefn bleidleisio briodol yn cael ei dilyn, gan sicrhau y caiff y rhestr rhifau cyfatebol ei marcio'n gywir
- cadw cofnodion cywir o etholwyr sy'n mynd i'r orsaf bleidleisio heb fath o ID ffotograffig a dderbynnir (gweler Pennod 5)
- darparu cymorth priodol i gynorthwyo pleidleiswyr anabl
- sicrhau bod yr holl gyfarpar ar gyfer pleidleiswyr anabl yn cael ei arddangos ac yn barod i'w ddefnyddio
- sicrhau mai dim ond plant, neu gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau sydd wedi cwblhau'r datganiad angenrheidiol, all fynd gyda phleidleisiwr i'r bwth pleidleisio
- gofyn y cwestiynau rhagnodedig i bleidleiswyr pan fo angen, gan gynnwys pan fydd ymgeiswyr neu asiantiaid yn gofyn iddynt wneud hynny neu cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd (gweler Atodiad 5a)
- delio â threfniadau pleidleisio arbennig fel y bo angen
- derbyn neu wrthod unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio a chwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post yn gywir
- rheoli presenoldeb y sawl y mae hawl ganddynt i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio, e.e. ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig, a sicrhau nad ydynt yn ymyrryd â'r broses bleidleisio
- cynnwys cofnod yn yr orsaf bleidleisio o'r holl bobl hynny sy'n bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio at ddiben arsylwi ar weithrediadau
- monitro gweithgareddau rhifwyr y tu allan i fannau pleidleisio a sicrhau nad ydynt yn ymyrryd â'r broses bleidleisio
- sicrhau bod yr holl arwyddion a hysbysiadau yn glir, yn weladwy ac yn aros yn eu lle drwy'r dydd
- cadw'r orsaf bleidleisio yn lân ac yn daclus

Os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio mewn adeilad, caiff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu staff etholiadol benodi un o'r Swyddogion Llywyddu i fod yn bennaf cyfrifol am y man pleidleisio.

## Dyletswyddau'r Clerc Pleidleisio

Nid oes gan Glercod Pleidleisio yr un cyfrifoldebau â'r Swyddog Llywyddu, ond dylent fod yn ymwybodol o'r holl drefniadau pleidleisio a sut i ddelio ag unrhyw broblemau.

Prif ddyletswyddau Clercod Pleidleisio yw:

- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog Llywyddu
- helpu i drefnu'r orsaf bleidleisio a pharatoi i agor y bleidlais
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio â phleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig
- gweithio mewn ffordd ddiduedd bob amser
- sicrhau bod etholwyr yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad ac yn yr orsaf bleidleisio hon
- cadarnhau bod etholwyr yn cyflwyno math o ID ffotograffig a dderbynnir
- gwirio ID ffotograffig etholwr yn breifat os bydd etholwr yn gofyn iddynt wneud hynny
- uwchgyfeirio materion i'r Swyddog Llywyddu os bydd ID ffotograffig etholwr yn peri amheuaeth resymol o ran ai'r pleidleisiwr yw'r etholwr y mae'n honni bod neu os bydd amheuaeth resymol bod yr ID yn un ffug
- cadw'r cofnodion rhagnodedig sy'n ymwneud â gwirio ID ffotograffig
- cadw cyfrif ar daflen nodiadau'r Ffurflen Gwerthuso Prawf Adnabod Pleidleiswyr (VIDEF) o'r achosion pan fydd pleidleisiwr yn darparu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr neu Ddogfen Etholwr fel ei fath o ID a dderbynnir
- cadarnhau a marcio rhifau etholwyr pleidleiswyr ar y gofrestr etholwyr

- ar y rhestr rhifau cyfatebol, ysgrifennu rhif etholwr y pleidleisiwr wrth ymyl rhif y papur pleidleisio a roddwyd iddo
- rhoi papurau pleidleisio i bleidleiswyr, gan sicrhau bod y marc swyddogol arnynt
- gofyn y cwestiynau rhagnodedig yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Llywyddu (gweler Atodiad 5a)
- sicrhau bod pleidleiswyr yn bwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol
- cadw cyfrinachedd y bleidlais bob amser
- ateb cwestiynau pleidleiswyr, lle bo hynny'n briodol, mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol
- cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu i gwblhau'r trefniadau angenrheidiol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio
- helpu gydag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â'r orsaf bleidleisio yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Llywyddu

Mewn rhai mannau pleidleisio, gellir defnyddio un Clerc Pleidleisio neu fwy fel cyfarchwyr i gyfarfod etholwyr wrth iddynt ddod i mewn. Gall cyfarchwyr helpu pleidleiswyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, gan gynnwys drwy esbonio'r gofynion o ran ID ffotograffig ac, os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio ar y safle, drwy gyfeirio etholwyr at yr orsaf bleidleisio gywir.

Ni ddylai cyfarchwyr wirio ID ffotograffig pleidleisiwr; rhaid gwneud hyn y tu mewn i'r orsaf bleidleisio fel rhan o'r broses o roi'r papur pleidleisio.

# 3. Cyn y diwrnod pleidleisio

## Hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio

Bydd angen i staff gorsafoedd pleidleisio gael eu briffio'n llawn am yr etholiad ac ni allant ddibynnu ar brofiad blaenorol yn unig. Ni ddylai staff gorsafoedd pleidleisio ddibynnu'n gyfan gwbl ar y llawlyfr hwn chwaith. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) fod wedi trefnu hyfforddiant neu sesiynau briffio cyn yr etholiad a byddant yn disgwyl i staff gorsafoedd pleidleisio fod yn bresennol.

## Lleoliad yr orsaf bleidleisio

Caiff Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) eu penodi i gynnal yr etholiad o fewn pob ardal etholaeth a nhw sy'n penderfynu faint o orsafoedd pleidleisio sydd eu hangen, ble y dylent fod a faint o Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio sydd eu hangen i'w staffio.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd gorsaf bleidleisio yn yr un man ag y bu ar gyfer etholiadau neu refferenda blaenorol. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybodaeth am leoliad yr orsaf bleidleisio pan gaiff penodiadau eu gwneud. Dylai pob aelod o dîm yr orsaf bleidleisio wybod ble mae'r orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio.

Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gofyn i Swyddogion Llywyddu ymweld â'r orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio. Os felly, dylent drefnu amser sy'n gyfleus iddyn nhw a deiliad yr allwedd.

Dim ond ar ôl cael caniatâd deiliad yr allwedd y dylid cael mynediad i orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio. Byddwch yn ymwybodol o'r sensitifrwydd sy'n gysylltiedig ag ymweld â safleoedd awdurdodau lleol yn ystod oriau gwaith (yn enwedig sefydliadau addysgol a gofal cymdeithasol). Os yw'n bosibl, gall fod yn ddefnyddiol cyfarfod ag aelodau eraill o'r tîm yn yr orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn gweld pa gyfleusterau sydd ar gael a thrafod pa gyflenwadau a lluniaeth a all fod eu hangen.

Gall rhai safleoedd gynnwys dwy orsaf bleidleisio neu fwy. Os felly, dylai Swyddogion Llywyddu, ar gais y tîm etholiadau, gydlynu unrhyw ymweliad â'r safle cyn y diwrnod pleidleisio â'r Swyddogion Llywyddu eraill. Bydd deiliad yr allwedd yn gwerthfawrogi hyn a bydd yn galluogi cydweithwyr i drafod mynedfa, allanfa a chynllun pob un o'r gorsafoedd pleidleisio.

Dylai deiliad yr allwedd agor yr adeilad yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac erbyn 6.30am ar y diwrnod pleidleisio fan bellaf. Os na fydd y person priodol ar gael i agor yr adeilad, gall staff y swyddfa etholiadau ofyn i'r Swyddog Llywyddu gasglu'r allweddi cyn y diwrnod pleidleisio. Os bydd hyn yn digwydd, dylai Swyddogion Llywyddu sicrhau bod ganddynt yr holl allweddi perthnasol, gan gynnwys allweddi i unrhyw gatiau, a manylion unrhyw larymau, a sicrhau bod rhif ffôn a chyfeiriad deiliad yr allwedd wrth law pe bai rhywbeth yn mynd o le.

Dylai staff gorsafoedd pleidleisio ystyried faint o amser y bydd yn ei gymryd iddynt fynd i'r orsaf bleidleisio ar fore'r etholiad a chadw hyn mewn cof pan fyddant yn trefnu eu diwrnod. Drwy gyrraedd mewn da bryd, gall staff sicrhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i gosod yn briodol cyn i'r bleidlais agor am 7am.

Dylai staff gorsafoedd pleidleisio sicrhau bod ganddynt ddigon o fwyd a diod ar gyfer y diwrnod pleidleisio cyfan, gan na fyddant yn gallu gadael y man pleidleisio yn ystod y cyfnod pleidleisio.

## Safonau ymddangosiad

Dylai awyrgylch yr orsaf bleidleisio fod yn gyfeillgar a phroffesiynol, a dylai staff yr orsaf bleidleisio wisgo'n unol â hynny. Fodd bynnag, bydd y staff yn yr orsaf bleidleisio drwy'r dydd a dylent ystyried eu cysur personol hefyd.

Cofiwch fod staff gorsafoedd pleidleisio yn cynrychioli'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac y dylent ymddwyn yn ddiduedd bob amser. Ni ddylid gwisgo unrhyw fathodynnau, sloganau na lliwiau a allai godi amheuaeth ynglŷn â didueddrwydd staff yr orsaf bleidleisio.

## Cysylltu ag aelodau eraill o'r tîm

Gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) roi manylion cyswllt unrhyw Glerc(od) Pleidleisio sydd ar ddyletswydd yn yr un orsaf bleidleisio i'r Swyddog Llywyddu. Os byddant yn gwneud hynny, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Clerc(od) Pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn sicrhau ei fod/eu bod yn gwybod ble mae'r orsaf bleidleisio a pha amser y mae angen iddo/iddynt gyrraedd.

## Dosbarthu neu gasglu'r blwch pleidleisio

Oni bai bod y blwch pleidleisio yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn hysbysu'r Swyddogion Llywyddu am y trefniadau ar gyfer casglu'r blwch pleidleisio ynghyd â holl ddeunyddiau perthnasol yr etholiad. Os bydd y Swyddog Llywyddu yn casglu'r blwch pleidleisio a deunyddiau eraill yr etholiad ac yn eu cadw yng nghartref y Swyddog Llywyddu, **rhaid cymryd pob gofal i'w cadw'n ddiogel bob amser**. Yn benodol, ni ddylid byth gadael unrhyw ddeunyddiau etholiad mewn car gwag.

# 4. Y diwrnod pleidleisio: cyn i'r bleidlais agor

Rhaid i'r orsaf bleidleisio agor am 7am. Peidiwch â bod yn hwyr. Rhaid i chi hysbysu'r swyddfa etholiadau cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw broblemau'n codi a allai eich atal rhag agor am 7am.

## Cyrraedd yr orsaf bleidleisio

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod i chi faint o'r gloch y dylech gyrraedd yr orsaf bleidleisio. Ni ddylai fod yn hwyrach na 6.30am.

Bydd angen i chi sicrhau bod digon o amser gennych i osod yr orsaf bleidleisio os na fydd hyn wedi'i wneud y noson cynt.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser i gyrraedd yr orsaf bleidleisio – peidiwch â bod yn hwyr. Rhaid i unrhyw aelodau o staff gorsafoedd pleidleisio sy'n hwyr am resymau na allant eu hosgoi neu staff na allant fynd i'r orsaf bleidleisio gysylltu â'r swyddfa etholiadau ar unwaith.

Rhaid i Swyddogion Llywyddu wneud yn siŵr bod pob oriawr neu gloc yn gywir er mwyn sicrhau bod yr orsaf bleidleisio ar agor ar amser.

Dylai Swyddogion Llywyddu, pan fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi gofyn iddynt wneud hynny, gasglu hysbysiad penodi'r Clercod Pleidleisio.

Dylai Swyddogion Llywyddu hefyd sicrhau bod Clercod Pleidleisio yn ymwybodol o'r gofynion o ran cyfrinachedd.

## Beth fydd yn digwydd os na fydd deiliad yr allwedd yn bresennol?

Yn gyntaf, ceisiwch gysylltu ag ef, naill ai dros y ffôn neu drwy anfon aelod o dîm yr orsaf bleidleisio i'w gartref. Os na ellir agor yr orsaf, cysylltwch â'r swyddfa etholiadau i roi gwybod am y sefyllfa a gofyn am ragor o gyfarwyddiadau. Os bydd angen, sefydlwch orsaf bleidleisio dros dro. Efallai y bydd digon o le wrth fynedfa'r adeilad, neu hyd yn oed y tu allan i'r adeilad. Mewn rhai achosion, mae Swyddogion Llywyddu wedi defnyddio cefn car. **Beth bynnag fo'r sefyllfa, rhaid i bleidleiswyr allu pleidleisio'n gyfrinachol o 7am ymlaen.**

Hysbyswch y swyddfa etholiadau ac unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol am unrhyw drefniadau a wnewch.

## Gwirio cyflenwadau a deunyddiau

Oni bai bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn eu cyflenwi'n uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, y Swyddog Llywyddu fydd yn gyfrifol am gludo'r blwch pleidleisio, deunyddiau'r etholiad ac unrhyw eitemau eraill i'r orsaf. Fel arfer, bydd yr eitemau mwy, fel bythau pleidleisio neu unrhyw sgriniau preifatrwydd, wedi'u dosbarthu i'r safle ymlaen llaw. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn hysbysu Swyddogion Llywyddu am y trefniadau.

Caiff rhestr wirio o gyflenwadau gorsafoedd pleidleisio ei darparu gyda'r blwch pleidleisio ac unrhyw ddeunyddiau eraill ar gyfer gorsafoedd pleidleisio. Wrth wirio'r cynnwys, os gwelwch fod unrhyw eitemau o gyfarpar neu ddeunyddiau a restrir ar goll, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith. Dylid gwirio deunyddiau wrth iddynt gyrraedd. Byddwch yn ofalus wrth godi'r deunyddiau neu'r cyfarpar; gallant fod yn drwm (gweler Atodiad 9 am wybodaeth am iechyd a diogelwch).

Dylai'r Swyddog Llywyddu gadarnhau ei fod wedi cael y gofrestr gywir ar gyfer ei orsaf

bleidleisio a'i bod yn cynnwys y nifer disgwyliedig o etholwyr a ddyrannwyd i'w orsaf bleidleisio.

Dylai'r Swyddog Llywyddu sicrhau bod y papurau pleidleisio yn dilyn trefn rifol, ac mai dyma'r papurau cywir ar gyfer yr orsaf bleidleisio ac nad oes unrhyw wallau amlwg o ran rhifau'r papurau.

Dylid gwirio'r rhifau ar gefn y papurau pleidleisio yn erbyn rhifau'r papurau pleidleisio sydd wedi'u hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Dylid gwneud hyn cyn i'r bleidlais agor. Dylid rhoi'r papurau pleidleisio yn yr un drefn â'r hyn sydd wedi'i hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Os na fydd y rhifau'n cyfateb, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith.

Dylai'r Swyddog Llywyddu gadarnhau hefyd fod y marc adnabod unigryw ar y papurau pleidleisio a bod y marc swyddogol wedi'i ragargraffu arnynt hefyd.

Os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu'r Datganiad ynghylch y Personau a Enwebwyd, dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd wneud yn siŵr bod manylion yr ymgeiswyr ar y papurau pleidleisio yn cyfateb i'r rhai ar y datganiad hwnnw.

Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio sy'n cynnwys gwallau neu brint aneglur.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r cyfarpar y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'i ddarparu i gefnogi pleidleiswyr anabl – er enghraifft, dyfais bleidleisio gyffyrddadwy, chwyddwydr(au) a darnau gafael ar gyfer pensiliau – a dylai sicrhau bod yr holl staff yn gyfforddus o ran sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Ceir rhestr lawn o'r cyfarpar a ddylai gael ei ddarparu yn Atodiad 11.

## Cynllun yr orsaf bleidleisio

Y dasg gyntaf ar ôl cyrraedd fydd gosod yr orsaf bleidleisio, oni bai bod rhywun eisoes wedi gwneud hyn ar eich rhan y noson gynt.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi penderfynu pa drefniadau sydd eu hangen er mwyn helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn lleoedd diogel i bleidleisio a gweithio ynddynt. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod am unrhyw fesurau arbennig a fydd ar waith yn eich gorsaf bleidleisio.

Mae cynllun yr ystafell yn bwysig. Gallai cynllun gwael beri dryswch diangen a phroblemau mynediad. Mae Atodiad 11 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer gosod yr orsaf bleidleisio ac arddangos hysbysiadau. Hyd yn oed os yw'r orsaf bleidleisio wedi'i gosod ar eich rhan, dylech sicrhau o hyd ei bod wedi'i gosod yn briodol gan ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 11.

Efallai fod gofalwyr wedi trefnu'r ystafell yn barod, yn enwedig os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu'r Swyddog Llywyddu wedi rhoi cyfarwyddiadau iddynt ynglŷn â chynllun yr orsaf bleidleisio ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff yr orsaf bleidleisio osod yr ystafell neu symud y dodrefn. Gall bythau pleidleisio a sgriniau preifatrwydd fod yn drwm; byddwch yn ofalus wrth eu gosod neu eu symud (gweler Atodiad 9 am gyngor ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Ceir enghreifftiau o gynlluniau ar gyfer trefniadau gwahanol ar dudalen 10. Canllaw yw'r rhain ac efallai y bydd angen eu haddasu yn unol ag amgylchiadau lleol.

Rhaid i'r cynllun fod yn addas i'r pleidleisiwr a helpu i sicrhau bod yr orsaf bleidleisio yn rhedeg yn hwylus. Yn benodol, rhaid ystyried anghenion pleidleiswyr anabl â chyflyrau neu amhariadau gwahanol.

Er enghraifft:

- A yw'r blwch pleidleisio yn hygyrch i bob pleidleisiwr?
- A all defnyddiwr cadair olwyn fynd o gwmpas yr orsaf bleidleisio a'r ardal gyfagos yn ddidrafferth?

- A yw'r holl fythau pleidleisio wedi'u gosod mewn ffordd sy'n parchu preifatrwydd pleidleisio pob pleidleisiwr?
- A yw'r bwth pleidleisio lefel isel yn y safle mwyaf priodol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, gyda digon o le i gadair olwyn symud o gwmpas yn gyfforddus?
- A yw'r hysbysiadau wedi'u gosod fel y gall pob pleidleisiwr eu darllen, gan gynnwys pobl ag amhariad ar y golwg a'r rhai mewn cadeiriau olwyn?
- A yw'r bythau pleidleisio wedi'u lleoli er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r golau sydd ar gael?
- A oes digon o olau i chi allu gweld wyneb pleidleisiwr yn glir ynghyd â'r manylion ar yr ID ffotograffig?
- A yw'r asiantiaid pleidleisio a'r arsylwyr wedi'u lleoli fel nad ydynt yn ymyrryd â'r gweithrediadau ond eu bod yn dal yn gallu eu gweld?
- A oes seddi ar gael yn yr orsaf bleidleisio i etholwyr na allant sefyll am gyfnodau hir?
- A yw'n hawdd cael gafael ar y cyfarpar a ddarparwyd i gefnogi pleidleiswyr anabl?

Ym mhob achos:

- Defnyddiwch y rhestr wirio yn Atodiad 11 wrth osod yr orsaf bleidleisio neu wrth sicrhau ei bod wedi'i gosod yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r bythau pleidleisio wedi'u lleoli mewn mannau lle y gall pobl y tu allan weld sut mae pleidleiswyr yn marcio eu papur pleidleisio.
- Gwnewch yn siŵr bod y cynllun yn cefnogi llif etholwyr drwy'r orsaf bleidleisio ac yn atal mannau prysur neu ardaloedd lle gall pleidleiswyr grynhoi, yn enwedig o gwmpas bythau pleidleisio, er mwyn helpu i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.
- Trefnwch y blwch pleidleisio a'r bythau pleidleisio fel eu bod yn hygyrch i bob pleidleisiwr, ond eto i gyd yn weladwy i staff yr orsaf bleidleisio.
- Gosodwch y bwrdd rhoi papurau a'r blwch pleidleisio mewn ffordd sy'n atal unrhyw bleidleisiwr rhag gadael yr orsaf bleidleisio heb basio heibio i chi a'r blwch pleidleisio ac sy'n golygu y gallwch gadarnhau nad yw'n gadael yr orsaf bleidleisio gyda'i bapur pleidleisio.
- Ystyriwch pa drefniadau y byddai angen i chi eu gwneud er mwyn gallu derbyn pleidleiswyr yn ystod cyfnodau prysur a delio â nhw.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych fanylion cyswllt y swyddfa etholiadau a dilynwch unrhyw weithdrefnau uwchgyfeirio yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) os bydd unrhyw faterion yn codi yn ystod y diwrnod pleidleisio.


Mewn ystafell â mwy nag un orsaf bleidleisio, cofiwch fod yn rhaid cadw'r blychau pleidleisio ar wahân. Fel arall, gallai pleidleiswyr o un orsaf bleidleisio roi eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio anghywir mewn camgymeriad ac ni fydd cyfrifon papurau pleidleisio'r ddwy orsaf bleidleisio yn cyfateb.

Hyd yn oed os bydd y blychau pleidleisio yn cael eu cadw ar wahân, dylai staff fod yn wyliadwrus o hyd oherwydd gallai pleidleiswyr ddrysu ynghylch pa flwch pleidleisio y dylent ei ddefnyddio.


Gall fod achosion pan fydd etholwr yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi asesu pob gorsaf bleidleisio er mwyn penderfynu sut y dylid cynnal gwiriadau o'r fath yn ddiogel a bydd wedi'ch cynghori'n briodol cyn y diwrnod pleidleisio. Gellid cynnal y gwiriadau mewn ystafell ar wahân yn y man pleidleisio, neu efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi sgrin breifatrwydd i chi y gellir ei gosod yn yr orsaf bleidleisio at y diben hwn.

Os bydd sgrin breifatrwydd wedi cael ei darparu, gwnewch yn siŵr ei bod yn cael ei gosod mewn ffordd sy'n hygyrch i etholwyr anabl ac mewn lleoliad sy'n golygu na all unrhyw berson arall sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio weld y gwiriad yn mynd rhagddo.


Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio unigol sydd ag un fynedfa/allanfa:




Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio unigol sydd â mynedfa ac allanfa ar wahân:




Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio ddwbl:



## Arwyddion a hysbysiadau

Meddyliwch am ddiben pob arwydd a hysbysiad wrth ei osod i fyny. Cerddwch y llwybr y mae disgwyl i'r pleidleisiwr ei ddilyn, gan wirio pob arwydd a hysbysiad. Mae rhai arwyddion a hysbysiadau yn gyfeiriol tra bo eraill yn rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr. Sicrhewch eu bod wedi'u gosod fel y gall pob pleidleisiwr eu darllen, gan gynnwys y rhai hynny mewn cadeiriau olwyn a phobl ag amhariad ar eu golwg.

Rhaid arddangos yr hysbysiad ‘Sut i bleidleisio yn yr etholiad hwn’ y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio. Os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu'r fath hysbysiadau mewn Braille, mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg a Saesneg, ac ar ffurf darluniau, dylai'r rhain hefyd gael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio.

Rhaid arddangos hysbysiad mawr y tu mewn i'r orsaf bleidleisio sy'n cynnwys manylion y mathau o ID ffotograffig a dderbynnir y bydd angen i bleidleisiwr ei ddarparu cyn iddo gael papur pleidleisio.

Yr **unig** hysbysiad y dylid ei arddangos ym mhob bwth pleidleisio yw'r un sy'n rhoi gwybodaeth am sut i farcio'r papur pleidleisio yn yr etholiad hwn. Os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu unrhyw hysbysiadau o'r fath mewn ieithoedd a fformatau eraill, e.e. mewn Braille, mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg a Saesneg, neu ar ffurf darluniau, dylai'r rhain hefyd gael eu harddangos y tu mewn i'r bythau bleidleisio. Ni ddylid arddangos unrhyw hysbysiadau eraill yn y bythau pleidleisio.

Rhaid arddangos copi sampl mawr o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio hefyd, yn ddelfrydol mewn man â digon o olau lle y gall pleidleiswyr ei weld yn hawdd cyn cael eu papur pleidleisio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd yn darparu copi llaw mwy o faint o'r papur pleidleisio. Gall pleidleiswyr sy'n rhannol ddall fynd â hwn gyda nhw i'r bwth pleidleisio er mwyn cyfeirio ato wrth farcio eu papur pleidleisio, neu gellir ei roi i unrhyw bleidleiswyr eraill ar gais os byddai'n ddefnyddiol iddynt.

Gwnewch yn siŵr nad arddangosir unrhyw ddeunydd y gellir dehongli ei fod yn cefnogi safbwyntiau unrhyw blaid neu ymgeisydd sy'n cymryd rhan yn yr etholiad yn y safle neu ar y safle. Os gwelir unrhyw ddeunyddiau o'r fath, rhaid eu tynnu i lawr neu'u gorchuddio.

## Cyfarpar

Darperir cyfarpar gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i helpu pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

Wrth osod yr orsaf bleidleisio, sicrhewch fod y cyfarpar yn cael ei osod mewn ffordd i helpu i sicrhau bod etholwyr yn gwybod beth sydd ar gael. Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o dîm yr orsaf bleidleisio yn gwybod pa gyfarpar sydd ar gael, a sut mae pob eitem yn gweithio.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfarpar hwn a'ch rôl o ran cefnogi pleidleiswyr anabl yn Atodiad 1.

Gall pleidleiswyr ddod â'u pin ysgrifennu neu eu pensil eu hunain i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, bydd angen i binnau ysgrifennu/pensiliau fod ar gael o hyd a bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod sut y caiff eu defnydd ei reoli yn yr orsaf bleidleisio.

## Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith yn rhoi hawl benodol i unigolion arbennig fod yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio (yn ogystal â staff etholiadau a phleidleiswyr), sef:

- ymgeiswyr
- asiantiaid etholiad
- asiantiaid pleidleisio
- swyddogion yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio (yng Nghymru a Lloegr, mae hyn yn cynnwys swyddogion

cymorth cymunedol yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio)

- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- y rhai dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr
- pobl 18 oed a throsodd sy'n cyflwyno pleidleisiau post
- cymdeithion pleidleiswyr anabl

Gall asiant etholiad mewn etholaeth sirol benodi is-asiantiaid i fynd i'r orsaf bleidleisio ar ei ran. Drwy gydol y llawlyfr hwn, mae unrhyw gyfeiriad at yr asiant etholiad yn cynnwys unrhyw is-asiantiaid sy'n gweithredu ar ei ran mewn etholaeth sirol. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gallu dweud wrthych a yw'r etholaeth yn etholaeth sirol.

## Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a staff

Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff ymweld â'r orsaf yn ystod y dydd, er enghraifft, er mwyn cyflawni dyletswyddau fel cyflenwi mwy o gyfarpar, archwilio'r orsaf bleidleisio, neu gasglu papurau pleidleisio drwy'r post a gyflwynwyd gan bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio.

## Ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid pleidleisio

Mae gan bob ymgeisydd sy'n ymladd yr etholiad a'r asiantiaid etholiad yr hawl i fynd i mewn i orsaf bleidleisio ac aros yno, ond rhaid iddynt beidio ag ymyrryd â'r pleidleisio na cheisio canfasio pleidleiswyr.

Gall asiantiaid pleidleisio gael eu penodi i weithio ar ran ymgeiswyr ar y diwrnod pleidleisio. Caiff asiantiaid pleidleisio fynd i mewn i orsaf bleidleisio ac aros yno, ac arsylwi ar y broses bleidleisio. Y prif reswm dros benodi asiantiaid pleidleisio yw canfod achosion o gambersonadu – hynny yw, pobl yn pleidleisio'n anghyfreithlon yn enw pleidleisiwr arall. Ni chaiff mwy nag un asiant pleidleisio fynd i mewn i orsaf bleidleisio ar yr un pryd ar ran yr un ymgeisydd. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi hysbysu'r Swyddog Llywyddu ymlaen llaw os bydd unrhyw asiantiaid pleidleisio wedi'u penodi i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio.

Efallai yr hoffai asiantiaid pleidleisio nodi pwy sydd wedi pleidleisio ar eu copi eu hunain o'r gofrestr etholwyr, ond ni allant fynd â'r copi hwn o'r gofrestr allan o'r orsaf bleidleisio nes bod y pleidleisio wedi dod i ben. Rhaid iddynt beidio ag ymyrryd â'r broses bleidleisio ac ni chânt ofyn am gael gweld ID ffotograffig pleidleisiwr.

Rhaid iddynt beidio ag ymgyrchu na chanfasio pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os byddant yn gwisgo roséd neu fathodyn, dylai fod yn blaen ond gall ddangos enw ymgeisydd, plaid a/neu arwyddlun. Cânt arsylwi ar y broses o baratoi, agor a chau'r orsaf bleidleisio a gallant ychwanegu eu sêl at y blwch pleidleisio ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio (ond nid pan agorir y bleidlais). Yn ystod oriau pleidleisio, dylai'r asiantiaid pleidleisio sy'n bresennol gael eu gosod wrth fwrdd ar wahân sy'n ddigon agos iddynt arsylwi a chlywed yr hyn sy'n digwydd ond nad yw'n amharu ar gyfrinachedd y bleidlais.

## Swyddogion yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio

Gall swyddogion yr heddlu (a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru a Lloegr) sydd ar ddyletswydd fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg, er mai dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 6 am wybodaeth am ddiogelwch yn yr orsaf bleidleisio).

## Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig

Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac unigolion eraill sydd wedi'u hachredu drwy gynllun arsylwyr swyddogol y Comisiwn fod yn bresennol yn holl weithrediadau gorsafoedd pleidleisio. Nid oes angen iddynt roi gwybod ymlaen llaw ble y maent yn bwriadu arsylwi, ond rhaid i bob arsylwr gario prawf adnabod

ffotograffig ac ni ddylid caniatáu iddo arsylwi heb y prawf hwn (gweler enghreifftiau isod).

Enghraifft o ID a roddir i gynrychiolwyr y Comisiwn (pinc):

The
Electoral
Commission



**Joy Smith**

**Electoral Commission representative**

Y
Comisiwn
Etholiadol

The
Electoral
Commission



**Joy Smith**

**Cynrychiolydd y Comisiwn Etholiadol**
**Electoral Commission representative**

Enghraifft o ID a roddir i arsylwyr achredededig (arian):

**Accredited**
**Electoral**
**Observer**



**Lauren Brown**

Valid from 01/01/2022 to 31/12/2024
000002

Arsyllwr
Etholiadol
Achrededig

Accredited
Electoral
Observer



**Lauren Brown**

Yn ddilys 01/01/2022 i 31/12/2024
00001

Gellir cysylltu â'r swyddfa etholiadau bob amser i gadarnhau statws unigolion sy'n ceisio mynd i mewn i orsafoedd pleidleisio fel arsylwyr.

Mae cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig yn cytuno i lynu wrth God ymddygiad, sy'n cynnwys cytundeb na fyddant yn ymyrryd ag unrhyw weithrediadau. Gall Swyddogion Llywyddu ofyn i arsylwyr (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) adael yr orsaf bleidleisio, ond dim ond os byddant yn gwneud y canlynol:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro’r broses bleidleisio yn fwriadol
- holi pleidleiswyr am eu dewisiadau pleidleisio

Os caiff arsylwr ei anfon o'r orsaf bleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi nodyn i'r arsylwr yn nodi'r rhesymau pam y cafodd ei anfon o'r orsaf.

Dylai Swyddogion Llywyddu hefyd gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o'r fath a hysbysu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn gynted â phosibl.

Ni chaiff unrhyw arsylwr a gafodd ei anfon o'r orsaf dan yr amgylchiadau uchod, ddod yn ôl i mewn i'r orsaf bleidleisio am weddill y bleidlais.

Er mwyn sicrhau y caiff y bleidlais ei chynnal yn ddiogel ac yn effeithiol, caiff Swyddogion Llywyddu gyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio am gyfnod penodedig – er enghraifft, am hanner awr neu awr. Os bydd amgylchiadau'n codi lle,

oherwydd nifer yr etholwyr sy'n aros i bleidleisio neu nifer yr arsylwyr sydd eisoes yn bresennol, mae risg na fydd modd cynnal y gweithrediadau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, efallai y bydd angen i chi gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a/neu faint o amser y gall arsylwyr aros yn yr orsaf bleidleisio dros dro, er mwyn sicrhau bod modd cynnal y bleidlais yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na chaiff unrhyw swyddog wahardd pob arsylwr o'r broses gyfan, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Pan gymerir y fath gamau, dylid cofnodi hyn mewn cofnod gorsaf bleidleisio.

Dylai Swyddogion Llywyddu gofnodi manylion unrhyw arsylwyr achrededig neu gynrychiolwyr y Comisiwn a fydd yn bresennol yn eu gorsaf bleidleisio.

Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol a dylid gofalu na chaiff arsylwyr eu rhwystro na'u hatal rhag arsylwi.

### Y rhai dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr

Caiff pobl ifanc dan 18 oed fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio gyda phleidleiswyr er mwyn arsylwi ar y drefn bleidleisio. Gall Swyddogion Llywyddu gyfyngu ar nifer y rhai dan 18 oed a all fod yn yr orsaf bleidleisio ar yr un pryd os credant fod eu presenoldeb yn amharu ar y gweithrediadau mewn unrhyw ffordd.

### Cymdeithion pleidleiswyr anabl

Er y bydd llawer o bleidleiswyr anabl yn gallu pleidleisio heb gymorth, ni fydd pob un ohonynt, a gall y rhai hynny ddod â rhywun gyda nhw i fwrw eu pleidlais. Wrth gyfathrebu â phleidleiswyr anabl sydd angen cymorth gan gydymaith, gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad yn uniongyrchol â'r pleidleisiwr ac yn ymateb iddo, ac nid dim ond y cydymaith.

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion, gan gynnwys pa gymorth y gall y Swyddog Llywyddu ei gynnig.

## Gwiriadau terfynol o waith papur

Dylai'r Swyddog Llywyddu wneud yn siŵr bod y gofrestr etholwyr, y rhestr rhifau cyfatebol, y papurau pleidleisio a'r ffurflenni sy'n ymwneud ag ID ffotograffig yn barod ar gyfer yr amser pan fydd yr orsaf bleidleisio yn agor.

Dylai papurau pleidleisio nad ydynt yn cael eu defnyddio, y papurau pleidleisio a gyflwynwyd a dogfennaeth swyddogol arall i gael ei chwblhau gan y Swyddog Llywyddu gael ei chadw'n ddiogel allan o gyrraedd pleidleiswyr.

### ID Pleidleiswyr

Mae dwy ffurflen sy'n ymwneud ag ID ffotograffig y bydd angen eu cwblhau yn ystod y diwrnod – y Rhestr o Bapurau Pleidleisio a Wrthodwyd (BPRL) a thaflen nodiadau'r Ffurflen Gwerthuso ID Pleidleiswyr (VIDEF).

Mae'r Rhestr o Bapurau Pleidleisio a Wrthodwyd yn darparu trywydd archwilio o benderfyniadau'r Swyddog Llywyddu pan fydd yn gwrthod rhoi papur pleidleisio.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r rhestr drwy gydol y dydd gan nodi manylion yr holl etholwyr (neu ddirprwyon) y gwrthodir papur pleidleisio iddynt am y rhesymau canlynol:

- nid oedd yn debyg i'r llun
- roedd y Swyddog Llywyddu o'r farn mai ID ffotograffig ffug oedd gan yr unigolyn
- ni lwyddodd yr etholwr i ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol

Hefyd, bydd angen diweddaru'r rhestr os bydd etholwr yn dychwelyd yn ddiweddarach gyda math o ID ffotograffig a dderbynnir, sy'n debyg iddo, a rhoddir papur pleidleisio iddo.

Caiff taflen nodiadau'r Ffurflen Gwerthuso ID Pleidleiswyr ei defnyddio i gasglu data a gaiff eu defnyddio i greu cofnod o faterion penodol yn ymwneud â gwirio ID ffotograffig. Bydd hyn yn helpu i werthuso sut mae'r gofynion ID yn gweithio'n ymarferol.

Ceir gwybodaeth bellach am y wybodaeth y dylid ei chofnodi ym Mhennod 5. Dylid cwblhau taflen nodiadau'r VIDEF drwy gydol y dydd, ac yna dylid defnyddio'r cyfansymiau i gwblhau'r VIDEF ei hun ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio (gweler Pennod 6).

### Papurau Pleidleisio

Ni chaiff papurau pleidleisio eu darparu ar ffurf dalennau rhydd, yn hytrach mae'n debygol y cânt eu cyflenwi mewn llyfrau y gellir eu tynnu allan ohonynt wrth eu rhoi. Gwnewch yn siŵr bod y papurau pleidleisio yn dilyn y drefn rifol gywir a bod y rhifau yn cyfateb i'r rhai sydd wedi'u rhagargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn barod i roi'r papurau pleidleisio, gan ddechrau gyda'r papur pleidleisio sydd â'r rhif isaf. Bydd hyn yn arbed problemau cyfrifo ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod i chi am liwiau'r holl bapurau pleidleisio a ddefnyddir ar gyfer yr etholiadau hyn. Gwnewch yn siŵr bod y marc adnabod unigryw i'w weld ar gefn y papurau pleidleisio a bod y marc swyddogol i'w weld hefyd.

Dylai papurau pleidleisio a gyflwynwyd gael eu cadw ar wahân er mwyn sicrhau na chânt eu rhoi i neb mewn camgymeriad. Mae'n hawdd adnabod papurau pleidleisio a gyflwynwyd gan fod eu lliw yn wahanol i'r papurau pleidleisio cyffredin.

Mae Atodiad 5b yn cynnwys gwybodaeth am bryd y dylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

## Selio'r blwch pleidleisio

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gau a selio'r blwch pleidleisio ychydig funudau cyn 7am, ar ôl dangos i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol ei fod yn wag. Mewn rhai achosion, er enghraifft oherwydd nifer yr etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio, efallai y bydd mwy nag un blwch pleidleisio wedi'i roi i'r Swyddog Llywyddu. Mewn achos o'r fath, rhaid i bob blwch pleidleisio gael ei selio cyn i'r cyfnod pleidleisio ddechrau. Fodd bynnag, dim ond un blwch pleidleisio ddylai gael ei ddefnyddio ar y tro, a dylid storio blychau ychwanegol yn ddiogel o'r golwg nes y bydd eu hangen.

Mae dyluniad blychau pleidleisio, yn ogystal â sut i'w selio, yn amrywio. Pa bynnag ddull selio a ddefnyddir, gwnewch yn siŵr bod y blwch pleidleisio wedi'i selio'n gywir. Ar y cam hwn, ni ddylid caniatáu i ymgeiswyr, asiantiaid etholiad nac asiantiaid pleidleisio osod eu seliau ar y blwch pleidleisio: dim ond ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio y gallant osod eu seliau.

# 5. Y diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y bleidlais

Mae'r bleidlais ar agor rhwng 7am a 10pm.

## Agor yr orsaf bleidleisio

Efallai y bydd nifer o etholwyr yn aros i'r orsaf bleidleisio agor. Cyfarchwch nhw a gwahoddwch nhw i ddod i mewn am 7am. **Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio i neb cyn 7am.**

## Neilltuo rolau yn yr orsaf bleidleisio

Mae'r gofyniad a gyflwynwyd yn ddiweddar i staff gorsafoedd pleidleisio wirio ID ffotograffig etholwr cyn rhoi papur pleidleisio i'r unigolyn wedi newid y prosesau a gaiff eu dilyn yn yr orsaf bleidleisio, y bydd angen i staff fod yn ymwybodol ohonynt a gallu eu dilyn. Nodir y rhain yng ngham dau a cham tri y drefn bleidleisio.

Argymhellir y dylai un person fod yn gyfrifol am y gofrestr etholwyr a'r papurau pleidleisio ac y dylai person arall fod yn gyfrifol am sicrhau bod y rhif etholwr yn cael ei gofnodi'n gywir ar y rhestr rhifau cyfatebol. Hefyd, bydd angen i un aelod o'r tîm wirio ID ffotograffig yr etholwr a chwblhau'r gwaith papur perthnasol ynghylch ID pleidleiswyr.

Dylai staff fod yn barod i weithio'n hyblyg yn yr orsaf bleidleisio. Er enghraifft, mewn rhai gorsafoedd pleidleisio, neu pan fydd sawl gorsaf bleidleisio yn yr un lleoliad, gallai aelod o staff gael ei osod wrth fynedfa'r orsaf bleidleisio, er mwyn rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr am y broses bleidleisio. Gall staff sy'n ymgymryd â'r rôl hon atgoffa etholwyr am y gofynion o ran ID pleidleiswyr ond ni ddylent wirio ID ffotograffig etholwr oherwydd rhaid gwneud hyn wrth y ddesg ar gyfer rhoi papurau pleidleisio.

Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi cyfarwyddiadau i chi ar sut y dylid neilltuo gwaith, a dylech ddilyn y rhain.

## Crynodeb o'r drefn bleidleisio

I'r rhan fwyaf o bleidleiswyr a fydd yn dod i'r orsaf bleidleisio, bydd y broses bleidleisio yn syml. Ceir trosolwg o'r trefniadau i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn isod. Ceir esboniad manylach o bob cam yn nes ymlaen yn y bennod.

### Cam un – cadarnhau pwy yw'r pleidleisiwr

- Cyfarch yr etholwr.
- Gofyn iddo gadarnhau ei enw a'i gyfeiriad.
- Dod o hyd i'r etholwr ar y gofrestr a gwneud yn siŵr ei fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad.

### Cam dau – gwirio ID ffotograffig yr etholwr

- Gofyn i'r etholwr am ei ID ffotograffig.
- Gwirio a yw'r ID a ddarperir wedi'i gynnwys ar y rhestr o ID ffotograffig a dderbynnir.
- Gwirio a yw'r ID a ddarperir yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr.
- Gwirio a yw'r enw sydd wedi'i gynnwys ar yr ID ffotograffig yn cyfateb i gofnod yr etholwr ar y gofrestr.
- Gwirio a yw'r ID ffotograffig a ddarperir yn ymddangos yn ddilys, a heb fod yn ffug.
- Dychwelyd yr ID ffotograffig i'r etholwr.

### Cam tri – marcio'r gofrestr a chwblhau gwaith papur ynghylch ID y pleidleisiwr

- Marciwch y gofrestr etholwyr yn erbyn rhif etholwr yr etholwr (ond nid drwyddo) drwy osod llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.

- Marciwch daflen nodiadau'r VIDEF os bydd etholwr yn darparu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr (neu yn achos etholwr dienw, Dogfen Etholwr) fel ei fath o ID ffotograffig.
- Gwirio a wrthodwyd papur pleidleisio yn flaenorol i'r etholwr oherwydd problemau gyda'i ID a diweddaru taflen nodiadau'r VIDEF a/neu waith papur y BPRL fel sy'n ofynnol.

### Cam pedwar – rhoi'r papur pleidleisio

- Ysgrifennwch y rhif etholwr (gan gynnwys llythyren/llythrennau cyfeirio'r dosbarth etholiadol os nad yw wedi'i ragargraffu/nad ydynt wedi'u rhagargraffu) ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl rhif y papur pleidleisio y byddwch yn ei roi.
- Gwnewch yn siŵr bod y papur pleidleisio yn cynnwys marc swyddogol sydd wedi'i ragargraffu (e.e. cod bar neu ddyfrnod). Os nad yw, dilynwch y drefn a nodir o dan 'beth sy'n digwydd os nad yw'r papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol?' ar dudalen 22.
- Plygwch y papur pleidleisio a'i roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu fel y gall weld yr holl ymgeiswyr ar y papur.

### Cam pump – pleidleisio

- Sicrhewch fod pleidleiswyr yn mynd i'r bythau pleidleisio yn unigol er mwyn gwarchod eu hawl i bleidlais gyfrinachol. Ni ddylai neb arall fynd gyda phleidleisiwr i fwth pleidleisio oni bai bod pleidleisiwr anabl neu bleidleisiwr sy'n methu darllen wedi gofyn am gymorth i bleidleisio (gweler Atodiad 1 i gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio gyda chymorth cydymaith) neu os bydd plentyn yn mynd gyda phleidleisiwr. Os byddwch yn gweld rhywun yn ceisio mynd gyda phleidleisiwr i'r bwth pleidleisio nad yw wedi'i benodi'n gydymaith iddo, rhaid i chi fynd at yr unigolyn a dweud wrtho am beidio â gwneud hyn.
- Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
- Cyn i'r pleidleisiwr roi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, dylai blygu'r papur pleidleisio a dylai ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu.
- Dywedwch 'hwyl fawr' a diolch wrth y pleidleisiwr wrth iddo adael yr orsaf bleidleisio.

Mae'r atodiadau yn y llawlyfr hwn yn dangos beth i'w wneud pan fydd rhywbeth anarferol yn digwydd, e.e. sefydlu hawl i bleidleisio, gwirio ID ffotograffig a delio â phleidleiswyr dienw, pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy a phleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng. Dylai Swyddogion Llywyddu ddarllen yr adrannau hyn cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn bod yn barod.

Cofiwch ddilyn pob cam o'r broses yn ofalus neu efallai y byddwch yn difreinio'r pleidleisiwr drwy amryfusedd.

## Cam un – cadarnhau pwy yw'r pleidleisiwr

Dylid cyfarch etholwyr wrth iddynt ddod at y bwrdd. Os bydd dwy orsaf bleidleisio yn yr ystafell, gwnewch yn siŵr bod yr etholwyr yn mynd at y bwrdd cywir. Dylai fod arwyddion i'w gweld sy'n rhestru'r strydoedd neu'r cyfeiriadau ar gyfer pob gorsaf a dylai staff yr orsaf bleidleisio fod wrth law i helpu etholwyr.

Mae'r rhan fwyaf o etholwyr yn dod â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i'w ddangos i'r Clerc Pleidleisio er nad yw hyn yn ofynnol i'r rhan fwyaf o bleidleiswyr. Cynigiwch roi'r cerdyn pleidleisio hwn yn ôl i'r etholwr: bydd yn ei helpu i roi gwybodaeth i rifwyr y tu allan os yw'n dymuno gwneud hynny. Os bydd yr etholwr yn gwrthod y cerdyn pleidleisio, dylai'r Clerc Pleidleisio waredu'r cerdyn yn ddiogel.

Oni bai fod gan yr etholwr gofnod dienw, rhaid i'r Clerc Pleidleisio gadarnhau enw a chyfeiriad yr etholwr a gwneud yn siŵr ei fod ar y gofrestr etholwyr a'i fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad.

**Dim ond etholwyr â chofnodion dienw ar y gofrestr, a'u dirprwyon, sy'n gorfod cyflwyno eu cerdyn pleidleisio, neu gerdyn pleidleisio dirprwy, er mwyn pleidleisio.**

Y rheswm dros hyn yw bod etholwyr â chofnod dienw yn cael eu cofrestru heb eu henw na'u cyfeiriad er mwyn eu diogelu rhag niwed. Dychwelwch y cerdyn pleidleisio i unrhyw etholwyr o'r fath ar ôl i chi farcio eu cofnod ar y gofrestr. Am eglurhad o'r drefn bleidleisio ar gyfer etholwyr dienw, gweler Atodiad 4.

## Enwau pwy sydd ar y gofrestr etholwyr?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys enwau'r holl etholwyr a neilltuwyd i'r orsaf bleidleisio. Efallai y bydd rhai etholwyr wedi cofrestru'n ddienw a byddant yn ymddangos heb eu henw na'u cyfeiriad. Bydd cofnodion y bobl hyn ar y gofrestr yn cynnwys eu rhif etholwr a'r llythyren '**N**', a byddant yn ymddangos ar ddiwedd y gofrestr o dan yr adran 'etholwyr eraill'.

Ynghyd â'u henw, mae cofnodion y rhan fwyaf o etholwyr ond yn cynnwys eu rhif etholwr a'u cyfeiriad. Mae'r etholwyr hyn yn gymwys i bleidleisio mewn unrhyw etholiad. Bydd gan rai etholwyr lythyren neu ddyddiad o flaen eu henw hefyd. Mae'r llythrennau hyn yn dangos eu bod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau penodol ac mae'r dyddiad yn nodi pryd y byddant yn cyrraedd oedran pleidleisio.

## Pwy all bleidleisio yn etholiad Senedd y DU?

- Etholwyr heb lythrennau na dyddiadau o flaen eu henw.
- Etholwyr â chofnod dienw sydd heb lythyren wrth ymyl eu cofnod heblaw am y llythyren **'N'**.
- Etholwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn (oni bai bod ganddynt hefyd lythyren wrth ymyl eu cofnod sy'n dangos eu bod yn anghymwys) – mae'r ffigurau sy'n ymddangos cyn cofnod etholwr yn dangos ar ba ddyddiad y bydd yr etholwr hwnnw yn troi'n 18 oed.
- Etholwyr ag **'F'** o flaen eu henw* – etholwyr tramor yw'r rhain a all bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU yn unig.

* Ar gyfer etholwr sydd wedi'i gofrestru'n ddienw, byddai unrhyw lythrennau yn ymddangos cyn y llythyren 'N', gan na chaiff enwau'r etholwyr hyn eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr.

## Pwy na all bleidleisio yn etholiad Senedd y DU?

- Etholwyr â dyddiad geni wrth ymyl eu henw sy'n dangos na fyddant yn 18 oed tan ar ôl y diwrnod pleidleisio.
- Etholwyr ag **'A'** o flaen eu henw* – etholwyr yw'r rhain sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post ac felly ni allant bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio.
- Etholwyr gyda **'B'** o flaen eu henw* – dyma ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) (heblaw am Weriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) sy'n gallu pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr ac mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.
- Etholwyr gyda '**G**' o flaen eu henw* – dyma ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) (heblaw am Weriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) sy'n gallu pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru.
- Etholwyr ag **'L'** o flaen eu henw* – etholwyr yw'r rhain a all eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac etholiadau i sefydliadau datganoledig.
- Etholwyr ag **'M'** o flaen eu henw* – yng Nghymru, dinasyddion tramor cymwys yw'r rhain, ac yn yr Alban maent yn wladolion tramor cymwys neu'n garcharorion sydd â dedfryd o 12 mis neu lai. Gallant bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac mewn etholiadau i sefydliadau datganoledig.

* Ar gyfer etholwr sydd wedi'i gofrestru'n ddienw, byddai unrhyw lythrennau yn ymddangos cyn y llythyren 'N', gan na chaiff enwau'r etholwyr hyn eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr.

### Beth sy'n digwydd os bydd y gofrestr etholwyr yn nodi na all yr etholwr bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

Os bydd y gofrestr etholwyr yn nodi na all yr etholwr bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, dylech gyfeirio'r etholwyr hyn at y Swyddog Llywyddu. O dan rai amgylchiadau, bydd y Swyddog Llywyddu yn gofyn y cwestiynau rhagnodedig iddynt (gweler Atodiad 5a).

## Cam dau – gwirio ID ffotograffig y pleidleisiwr

Ar ôl gwirio'r gofrestr, gofynnwch i'r etholwr am ei ID ffotograffig.

Mae'n rhaid i chi wirio:

- bod yr ID ffotograffig a ddarperir wedi'i gynnwys ar y rhestr o fathau o ID ffotograffig a dderbynnir
- bod yr ID yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr
- bod yr enw sydd wedi'i gynnwys ar yr ID ffotograffig yn cyfateb i gofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr
- bod yr ID ffotograffig a ddarperir yn ymddangos yn ddilys, a heb fod yn ffug

Ar ôl i chi wirio'r ID ffotograffig, dylech ei roi yn ôl i'r etholwr.

### Pa fathau o ID ffotograffig a dderbynnir?

Mae'r mathau o ID ffotograffig a dderbynnir fel a ganlyn:

- pasbort a gyflwynwyd gan y DU, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, Tiriogaeth Dramor Brydeinig, gwladwriaeth AEE, neu un o wledydd y Gymanwlad (gan gynnwys Cerdyn Pasbort Iwerddon)
- trwydded yrru a gyflwynwyd gan y DU, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu wladwriaeth AEE
- dogfen mewnfudo fiometrig
- cerdyn adnabod sydd â hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (cerdyn PASS)
- ffurflen 90 y Weinyddiaeth Amddiffyn (Cerdyn Adnabod Amddiffyn)
- Bathodyn Glas
- cerdyn adnabod cenedlaethol a gyflwynwyd gan wladwriaeth AEE
- Pàs Bws Person Hŷn a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig
- Pàs Bws Person Anabl a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig
- Cerdyn Oyster 60+ a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig
- Pàs Freedom
- Cerdyn Hawliad Cenedlaethol yr Alban at ddiben teithio rhatach
- Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl 60 oed a throsodd
- Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl anabl
- SmartPass i Bobl Hŷn a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- SmartPass i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu SmartPass i bobl ddall a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- SmartPass Anabledd Rhyfel a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- SmartPass 60+ a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- SmartPass Hanner Pris a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- Cerdyn Adnabod Etholiadol a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon
- Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr
- Dogfen Etholwr a gyflwynwyd i etholwr dienw

Gellir defnyddio dogfennau sydd wedi dod i ben fel ID ffotograffig a dderbynnir yn yr orsaf

bleidleisio, cyhyd â bod y llun yn dal i fod yn debyg i'r etholwr.

**Mae'n rhaid i etholwyr â chofnodion dienw ar y gofrestr ddarparu eu Dogfen Etholwr fel eu math o ID ffotograffig er mwyn pleidleisio.**

Y rheswm dros hyn yw bod etholwyr â chofnod dienw yn cael eu cofrestru heb eu henw na'u cyfeiriad er mwyn eu diogelu rhag niwed. Am eglurhad o'r drefn bleidleisio ar gyfer etholwyr dienw, gweler Atodiad 4.

## Am beth y dylech chwilio wrth wirio ID ffotograffig etholwr?

Dylech wirio a yw'r ID ffotograffig wedi'i gynnwys ar y rhestr o ID ffotograffig a dderbynnir a ddangosir ar y dudalen hon. Mae Atodiad 13 yn nodi Tiriogaethau Tramor Prydeinig, gwladwriaethau AAE a gwledydd y Gymanwlad sy'n gymwys.

Dylech wirio a yw'r ID ffotograffig yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr:

- A oes gan y person unrhyw nodweddion arbennig, e.e. mannau geni, creithiau ac ati?
- Cymharwch siâp yr wyneb ac edrychwch ar leoliad y prif nodweddion (e.e. llygaid, clustiau, trwyn, ceg) mewn perthynas â gweddill yr wyneb.

Dylech hefyd wirio bod enw'r deiliad, fel y mae'n ymddangos ar yr ID ffotograffig, yn cyfateb i gofnod yr etholwr ar y gofrestr etholiadol.

Ni ddylech gyfeirio at unrhyw farcwyr eraill ar yr ID ffotograffig (er enghraifft, cyfeiriad, cenedligrwydd, oedran na rhywedd).

Dylech wirio bod yr ID ffotograffig yn ymddangos yn ddilys, a heb fod yn ffug:

- A yw'r ID yn debyg i'r math o ddogfen y mae'n honni bod? (Mae Atodiad 12 yn cynnwys delweddau enghreifftiol o amrywiaeth o'r mathau o ID ffotograffig a dderbynnir).
- A yw'r ID ffotograffig yn fersiwn wreiddiol, nid sgan, llun na chopi o'r ddogfen?
- A oes unrhyw ddifrod neu arwyddion bod rhywun wedi ymyrryd â'r ddogfen, yn enwedig o gwmpas y llun neu'r enw (heb gynnwys pasbortau wedi'u canslo sydd wedi cael eu dychwelyd â'r corneli wedi'u torri er mwyn dangos na ellir eu defnyddio fel dogfen deithio swyddogol mwyach)?

Os bydd gennych bryderon am yr ID ffotograffig, dylech eu cyfeirio at y Swyddog Llywyddu. Mae Atodiad 2b yn nodi'r hyn y dylai'r Swyddog Llywyddu ei wneud o dan yr amgylchiadau hyn.

## Beth sy'n digwydd os bydd etholwr yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat?

Gall fod achosion pan fydd etholwr yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat. Gallai hyn fod am amrywiaeth o resymau. Efallai na fydd rhai etholwyr yn teimlo'n gyfforddus gyda rhywun yn gwirio eu ID ffotograffig yn gyhoeddus, er enghraifft, os bydd angen iddynt dynnu gorchudd wyneb a gaiff ei wisgo am resymau crefyddol neu os bydd yr etholwr wedi newid ei rywedd.

Dylech wneud yn siŵr bod unrhyw gais i ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat yn cael ei drin mewn ffordd ddiffwdan a chwrtais. Nid yw'n ofynnol i'r etholwr roi rheswm am y cais hwn, ac ni ddylech ofyn iddo esbonio pam mae am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat.

Os bydd etholwr yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat, dylech drefnu iddo fynd i'r ardal breifat a osodwyd at y diben hwn.

Os bydd etholwr yn gofyn i fenyw gyflawni'r gwiriad, dylid gofyn i aelod benywaidd o staff yr orsaf bleidleisio wneud hyn.

Lle y bo'n bosibl, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn sicrhau bod gan dimau gorsafoedd pleidleisio aelodau benywaidd o staff. Os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio mewn adeilad, bydd staff yn gallu gweithio'n hyblyg er mwyn ceisio helpu i sicrhau y gall aelod benywaidd o staff fod ar gael.

Bydd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynlluniau wrth gefn os na fu hyn yn bosibl. Er enghraifft, efallai y bydd gan y Swyddog Llywyddu fanylion cyswllt aelodau benywaidd o staff, megis Arolygwyr Gorsafoedd Pleidleisio, a fydd wedi'u hawdurdodi i wirio ID ffotograffig, ac a fydd ar alwad i fynd i orsafoedd pleidleisio ar fyr rybudd. Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn y sefyllfa hon.

Dylech esbonio'r trefniadau i'r etholwr, a gofyn iddo aros neu ddychwelyd yn ddiweddarach os byddai'n well ganddo.

Nid oes hawl gan unrhyw bobl eraill i arsylwi ar broses i wirio ID yn breifat, gan gynnwys y rhai sydd â hawl i fod yn yr orsaf bleidleisio, megis asiant pleidleisio neu arsylwr swyddogol.

Os bydd yn ofynnol i'r etholwr dynnu gorchudd wyneb er mwyn cynnal y gwiriad yn breifat, dylech gynnig drych i'r unigolyn fel y gall wneud yn siŵr bod y gorchudd wyneb yn ei le cyn gadael yr ardal breifat.

Dylech gadw cyfrif yn adran berthnasol taflen nodiadau'r VIDEF bob tro y bydd etholwr yn gofyn am gael gwirio ei ID ffotograffig yn breifat.

### Beth sy'n digwydd os nad oes gan etholwr fath o ID a dderbynnir neu os bydd yn gwrthod dangos ID?

Os nad oes gan etholwr (neu ddirprwy) fath o ID ffotograffig a dderbynnir gydag ef neu os bydd yn gwrthod ei gyflwyno i chi, dylech esbonio ei fod yn angenrheidiol er mwyn pleidleisio a gofyn iddo ddychwelyd gyda math o ID ffotograffig a dderbynnir fel y gellir rhoi papur pleidleisio iddo.

Dylech hefyd fwrw golwg ar daflen nodiadau'r VIDEF er mwyn gweld a yw'r etholwr (neu'r dirprwy) wedi cael ei wrthod eisoes am na wnaeth ddarparu math o ID ffotograffig a dderbynnir:

- Os bydd yr unigolyn eisoes wedi'i farcio ar daflen nodiadau'r VIDEF, dylech ddiweddaru'r cofnod er mwyn dangos ei fod wedi dod yn ôl i'r orsaf bleidleisio.
- Os nad yw'r unigolyn eisoes wedi'i farcio ar daflen nodiadau'r VIDEF, dylech gofnodi ei rif etholwr (neu, os mai dirprwy ydyw, enw a chyfeiriad y dirprwy) ar daflen nodiadau'r VIDEF.

## Cam tri – marcio'r gofrestr a chwblhau gwaith papur ynghylch ID y pleidleisiwr

Ar ôl gwirio manylion ac ID ffotograffig yr etholwr:

- rhaid i'r Clerc Pleidleisio dynnu llinell syth yn erbyn (ond nid drwy) ei gofnod ar y gofrestr etholwyr
- dylai'r Clerc Pleidleisio ddarllen yn uchel enw'r etholwr, ei rif etholwr a chyfeirnod y dosbarth etholiadol o'r gofrestr etholwyr (er mwyn helpu i gwblhau'r rhestr rhifau cyfatebol)

Cyn rhoi'r papur pleidleisio, dylai staff gorsafoedd pleidleisio wirio'r BPRL a thaflen nodiadau'r VIDEF yn gyntaf er mwyn cadarnhau a yw'r etholwr (neu'r dirprwy) eisoes wedi'i gofnodi:

- Os bydd yr unigolyn wedi cael ei gofnodi'n flaenorol ar y BPRL neu daflen nodiadau'r VIDEF, dylid marcio'r adran berthnasol ar un o'r ffurflenni hyn, neu'r ddwy ffurflen, er mwyn dangos bod yr etholwr (neu'r dirprwy) wedi dychwelyd â math o ID ffotograffig a dderbynnir ac y bydd yn cael papur pleidleisio.

Dylech hefyd ychwanegu at y cyfrif yn adrannau perthnasol taflen nodiadau'r VIDEF er mwyn cofnodi pan fydd etholwr yn darparu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr neu Ddogfen Etholwr fel ei ID ffotograffig.

## Cam pedwar – rhoi'r papur pleidleisio

Mae papurau pleidleisio wedi'u rhifo a dylent gyfateb i'r rhifau sydd wedi'u rhagargraffu ar y

rhestr rhifau cyfatebol. Rhaid rhoi papurau pleidleisio yn ôl eu trefn rifol gan ddechrau â'r rhif isaf yn y swp. Fel arall, bydd problemau'n codi ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio wrth gwblhau cyfrif y papurau pleidleisio.

Os bydd y gofrestr etholwyr yn dangos bod yr etholwr yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad, wedi dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir a'i fod wedi, os oes angen, ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a am y cwestiynau rhagnodedig), yna rhaid rhoi papur pleidleisio i'r pleidleisiwr.

Rhaid i'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) â'r papurau pleidleisio wneud y canlynol:

- rhoi'r papur pleidleisio
- darllen rhif y papur pleidleisio yn uchel
- sicrhau bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc adnabod unigryw a'r marc swyddogol
- plygu'r papur pleidleisio, a'i roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu fel y gall weld yr holl ymgeiswyr ar y papur

Rhaid i'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) sydd â'r rhestr rhifau cyfatebol ysgrifennu rhif etholwr y pleidleisiwr yn erbyn rhif y papur pleidleisio sy'n cael ei roi, ar y rhestr rhifau cyfatebol.

Rhaid cofnodi'r rhif etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol bob amser. **Peidiwch ag ysgrifennu dim ar y papur pleidleisio ei hun.**

### Beth sy'n digwydd os nad yw'r papur pleidleisio yn cynnwys y marc adnabod unigryw?

**Rhaid** bod marc adnabod unigryw ar gefn pob papur pleidleisio. Gellir defnyddio mathau gwahanol o farciau, er enghraifft, cod bar wedi'i argraffu neu gyfres o lythrennau a rhifau. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu ei staff, hysbysu Swyddogion Llywyddu yn ystod y sesiwn hyfforddi pa fath o farc adnabod unigryw a ddefnyddir.

Os na fydd y marc adnabod unigryw ar unrhyw un o'r papurau pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu hysbysu'r swyddfa etholiadau ar unwaith. Os mai dim ond rhai papurau sydd heb y marc, dylai'r Swyddog Llywyddu ond roi'r papurau pleidleisio hynny sy'n cynnwys y marc adnabod unigryw, a dylai hefyd hysbysu'r swyddfa etholiadau am y sefyllfa.

### Beth sy'n digwydd os nad yw'r papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol?

Bydd y marc swyddogol yn cael ei ragargraffu ar y papur pleidleisio. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod beth fydd y marc swyddogol yn ystod y sesiwn hyfforddi. **Rhaid** bod marc swyddogol ar bob papur pleidleisio. Caiff unrhyw bapur pleidleisio nad yw'n cynnwys y marc swyddogol ei wrthod yn ystod y cyfrif.

Os nad yw'r papurau pleidleisio yn cynnwys marc swyddogol wedi'i ragargraffu fel y nodwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Efallai y gallwch greu marc swyddogol yn fyrfyfyr. Er enghraifft, defnyddio pin bawd i fandyllu'r papur pleidleisio sawl gwaith cyn ei roi. Dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r marc byrfyfyr a nodi rhifau'r papurau pleidleisio cyntaf ac olaf a gafodd eu rhoi a'u stampio yn y modd hwn. Dylid cyflwyno'r cofnod hwn gyda'r papurau pleidleisio yn y cyfrif.

## Cam pump – pleidleisio

Rhaid i bleidleiswyr farcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio ac yna ailblygu'r papur pleidleisio er mwyn atal pobl rhag gweld eu pleidlais. Dylai pleidleiswyr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio cyn iddynt ei roi yn y blwch pleidleisio.

### Beth yw'r drefn os bydd pleidleisiwr yn gwneud camgymeriad ac yn difetha papur pleidleisio?

**Peidiwch â rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.**

Weithiau, bydd etholwyr yn gwneud camgymeriadau, e.e. drwy roi marc yn erbyn yr ymgeisydd 'anghywir'. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu fynd â'r papur pleidleisio a ddifethwyd ac ysgrifennu 'wedi canslo' arno cyn ei roi yn yr amlen a ddarperir. **Peidiwch â rhoi'r papur pleidleisio a ddifethwyd yn y blwch pleidleisio.** Unwaith y bydd papur pleidleisio a ddifethwyd wedi'i roi yn y blwch pleidleisio, ni ellir rhoi papur pleidleisio arall yn ei le.

Rhowch bapur pleidleisio arall i'r pleidleisiwr. Cofiwch ysgrifennu'r rhif etholwr yn erbyn rhif y papur pleidleisio newydd ar y rhestr rhifau cyfatebol ac ysgrifennu 'wedi canslo' wrth ymyl y rhif etholwr ar gyfer y papur pleidleisio a ganslwyd. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd gofio sicrhau bod y papur pleidleisio newydd a roddir yn cynnwys y marc swyddogol.

Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu gyfrif ac yna gofnodi nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio.

### Beth i'w wneud os byddwch yn gweld rhywun yn ceisio mynd gyda phleidleisiwr i'r bwth pleidleisio nad yw wedi'i benodi'n gydymaith iddo?

Gallai rhywun sy'n mynd gyda phleidleisiwr i'r bwth pleidleisio fod yn euog o gael dylanwad gormodol os penderfynir ei fod yn gwneud hynny er mwyn:

- perswadio neu orfodi'r pleidleisiwr i bleidleisio mewn unrhyw ffordd benodol
- atal y pleidleisiwr rhag pleidleisio
- rhwystro neu atal y pleidleisiwr rhag gwneud ei ddewis ei hun am sut i fwrw ei bleidlais

Fel Clerc Pleidleisio: Rhaid i chi fynd at y person a dweud wrtho am beidio â gwneud hynny.

Os na fydd yn cydymffurfio, rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddog Llywyddu ar unwaith.

Fel Swyddog Llywyddu: Rhaid i chi fynd at y person a'i orchymyn i beidio â gwneud hynny.

Os na fydd yn cydymffurfio â'ch gorchymyn, mae'r pŵer gennych i orchymyn i'r unigolyn gael ei symud o'r orsaf bleidleisio gan swyddog yr heddlu neu gan berson a awdurdodwyd at y diben hwn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Os na fydd y person yn cydymffurfio â'r heddlu yn y sefyllfa hon, gall hyn fod yn gyfystyr â'r drosedd o rwystro cwnstabl.

Ym mhob achos, dylid gwneud cofnod yng nghofnodlyfr yr orsaf bleidleisio hefyd.

### Rhoi cymorth cyffredinol i bleidleiswyr

Mae dyletswydd ar staff pleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr yn ystod y broses bleidleisio. Cofiwch, cwsmeriaid yw pleidleiswyr: dylech eu cyfarch â gwên ac ystyried y ffaith nad yw pob anabledd yn weladwy. Dylech esbonio i bleidleiswyr pa staff yn yr orsaf bleidleisio y gallant ofyn iddynt am gymorth os bydd ei angen.

Peidiwch byth â bod yn swta, yn rhagfarnllyd nac yn nawddoglyd. Peidiwch â digio na chynhyrfu, hyd yn oed pan fyddwch dan bwysau.

Gwrandewch yn ofalus os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn i chi. Os na allwch ateb cwestiynau neu bryderon pleidleisiwr, cyfeiriwch hwy at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Wrth roi cymorth cyffredinol, rhaid i staff gorsafoedd pleidleisio ofalu nad ydynt yn arwain pleidleiswyr i fwrw eu pleidlais dros ymgeisydd penodol, na chynnig barn ar unrhyw ymgeisydd.

Mae nifer o gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gael i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Yn gyntaf, mae'r cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio ei hun. Hefyd, mae'r posteri ‘Sut i bleidleisio yn yr etholiad hwn’ a'r hysbysiad a arddangosir ym mhob bwth pleidleisio. Os bydd unrhyw bleidleisiwr yn gofyn am gymorth, o dan rai amgylchiadau, gallai fod yn ddefnyddiol darllen y cyfarwyddiadau hyn iddo neu gynnig gwybodaeth mewn fformat gwahanol os bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu hyn.

Efallai y bydd y cyfarwyddiadau yn aneglur o hyd i rai pleidleiswyr. Er enghraifft, efallai y byddant yn gofyn i chi ddangos eu hoff ymgeisydd iddynt neu'n gofyn ble y dylent osod eu marc ar y papur pleidleisio. Dylai'r Swyddog Llywyddu ddarllen yn uchel y cyfarwyddiadau sydd ar frig y papur pleidleisio a manylion yr ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Dylid sicrhau bod unrhyw gyfarpar neu adnoddau a ddarparwyd i'r orsaf bleidleisio gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gefnogi pleidleiswyr anabl yng ngolwg pawb ac wedi'u marcio'n glir fel y gall pleidleiswyr eu hadnabod a chael gafael arnynt yn hawdd.

Mae gweithdrefnau arbennig i'w dilyn wrth gynorthwyo pleidleiswyr anabl a disgrifir y rhain yn Atodiad 1.

Dylai'r iaith a ddefnyddir i helpu neu roi cyfarwyddiadau i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio fod yn Gymraeg neu'n Saesneg yng Nghymru, ac yn Saesneg yn Lloegr. Fodd bynnag, efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu cyfarwyddiadau neu ganllawiau mewn ieithoedd neu fformatau eraill yn dibynnu ar ofynion y gymuned. Dylai'r Swyddog Llywyddu wybod pa adnoddau sydd ar gael a'u darparu yn ôl yr angen.

Mewn rhai achosion eithriadol, efallai na fydd yr hysbysiadau wedi'u cyfieithu yn ddigonol nac yn briodol. Er enghraifft, gall fod gan bleidleisiwr lefelau isel o lythrennedd neu fod â chwestiwn sydd y tu allan i gwmpas yr hysbysiadau. O dan yr amgylchiadau hynny, os gall staff gorsafoedd pleidleisio ddarparu gwybodaeth mewn iaith a siaredir gan y pleidleisiwr, yna gellir rhoi cymorth mewn iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg. Lle rhoddir cymorth mewn iaith arall, dylai staff gorsafoedd pleidleisio egluro i staff eraill ac unrhyw asiantiaid pleidleisio neu arsylwyr sy'n bresennol pa gwestiwn a ofynnwyd a'r ateb a roddwyd.

## Tystysgrifau cyflogaeth

Efallai y bydd rhai aelodau o staff gorsafoedd pleidleisio wedi cael tystysgrif cyflogaeth. Caiff y tystysgrifau hyn eu llofnodi gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), gan alluogi staff i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio arall yn yr etholaeth seneddol, yn hytrach na'r un a bennwyd iddynt. Yn yr un modd, gall swyddog yr heddlu gyflwyno tystysgrif o'r fath, wedi'i llofnodi gan arolygydd (neu rywun ar lefel uwch). Yn yr achos hwn, bydd y Swyddog Llywyddu yn dilyn y drefn safonol o ran rhoi papur pleidleisio, gan gynnwys gwirio ID ffotograffig, ac yna'n canslo'r dystysgrif a'i rhoi yn yr amlen a ddarperir.

## Pleidleisiau post

Staff gorsafoedd pleidleisio sy'n gyfrifol am dderbyn neu wrthod unrhyw bleidleisiau post (neu unrhyw ran o bleidlais bost, h.y. papur pleidleisio drwy'r post neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post) a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio.

Mae terfyn ar nifer y pleidleisiau post y gall unigolyn eu cyflwyno a chyfyngiadau o ran pwy all eu cyflwyno. Mae'n rhaid i unigolion sy'n cyflwyno pleidleisiau post hefyd gwblhau ffurflen dychwelyd pleidleisiau post, y mae'n rhaid i staff yr orsaf bleidleisio ei dilysu. I gael rhagor o fanylion am y drefn pleidleisio drwy'r post, gweler Atodiad 3a.

## Cynnal a chadw'r man pleidleisio

Dylai'r Swyddog Llywyddu archwilio'r man pleidleisio yn rheolaidd, gan gynnwys cadw llygad am grwpiau mawr o etholwyr yn aros i bleidleisio, a sicrhau y gall pleidleiswyr fynd i mewn i'r orsaf yn ddirwystr bob amser:

- Archwiliwch arwyddion a hysbysiadau ac atgyweiriwch neu adnewyddwch unrhyw rai sydd wedi'u difetha neu eu difrodi.
- Sicrhewch nad oes rhwystr wrth y fynedfa i'r orsaf bleidleisio, gan gynnwys unrhyw rampiau.
- Os defnyddir rampiau dros dro, sicrhewch eu bod wedi'u gosod yn sownd ac nad ydynt yn dod yn rhydd yn ystod y dydd.
- Sicrhewch y gall pleidleiswyr weld unrhyw gyfarpar neu adnoddau a ddarperir i'r orsaf bleidleisio gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn glir a chael gafael arnynt. Os caiff unrhyw gyfarpar ei adael mewn bwth pleidleisio, sicrhewch ei fod yn cael ei ddychwelyd i'r ddesg.
- Cyfarwyddwch unrhyw un sy'n ymgyrchu yn yr orsaf bleidleisio neu gerllaw i roi'r gorau iddi.
- Gwaredwch unrhyw ddeunydd ymgyrchu y gellid bod wedi'i adael yn yr orsaf bleidleisio.
- Sicrhewch fod digon o olau i bleidleiswyr yn y bythau pleidleisio.
- Sicrhewch fod digon o olau i staff yr orsaf bleidleisio wirio'r ID ffotograffig.
- Sicrhewch fod y pinnau ysgrifennu/pensiliau yn y bythau o hyd a miniogwch bensiliau os bydd angen.
- Sicrhewch nad oes unrhyw beth wedi'i adael yn y bythau, gan gynnwys papurau pleidleisio neu wybodaeth am blaid neu ymgeisydd penodol.
- Gwiriwch seliau/clo'r blwch pleidleisio.
- Ysgwydwch y blwch pleidleisio neu defnyddiwch bren mesur neu grynodiadur blwch pleidleisio i wthio'r papurau pleidleisio i lawr os bydd y blwch yn edrych yn llawn.
- Cadwch yr orsaf bleidleisio, gan gynnwys unrhyw goridorau sy'n arwain at yr orsaf bleidleisio, yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon.
- Sicrhewch eich bod yn cynnal unrhyw fesurau iechyd a diogelwch ychwanegol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).
- Os sylwch ar unrhyw giwiau'n datblygu, dilynwch gyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar sut i ddelio â nhw.

# 6 Diwedd y cyfnod pleidleisio

Rhaid i'r pleidleisio ddod i ben am 10pm, ond os bydd unrhyw etholwyr cymwys yn eu gorsaf bleidleisio neu'n ciwio y tu allan i'r orsaf er mwyn pleidleisio am 10pm (p'un a yw'r ciw hwnnw y tu mewn neu'n parhau y tu allan i'r orsaf bleidleisio), rhaid caniatáu iddynt fwrw eu pleidlais.

Os bydd person yn yr orsaf bleidleisio neu'n ciwio y tu allan i'r orsaf bleidleisio erbyn 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost, gallant wneud hynny ar ôl 10pm.

## Gweithdrefnau

- Archwiliwch y man pleidleisio, nid dim ond yn union cyn diwedd y cyfnod pleidleisio ond yn rheolaidd tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio, a chymerwch gamau i sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, y bydd modd rhoi papur pleidleisio i bob etholwr sy'n aros erbyn 10pm. Os nad yw hynny'n bosibl, cymerwch gamau i sicrhau y bydd pob un ohonynt y tu mewn i'r orsaf bleidleisio neu'n ciwio y tu allan i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio erbyn yr amser hwnnw. Hysbyswch y swyddfa etholiadau ar unwaith os bydd ciw wedi ffurfio'n barod neu'n datblygu yn ystod y cyfnod cyn diwedd y pleidleisio.
- Os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr adeilad, sicrhewch fod pawb sy'n aros i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio gywir ar gyfer eu cyfeiriad.
- Gwnewch yn siŵr nad oes neb yn ymuno â'r ciw ar ôl 10pm.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ciw o etholwyr am 10pm. Gall hyn gynnwys:
  - rhoi tocynnau er mwyn nodi etholwyr yn y ciw
  - gofyn i etholwyr symud i mewn i'r orsaf bleidleisio fel y gall staff yr orsaf bleidleisio gau'r drysau y tu ôl i'r etholwyr olaf yn y ciw
  - gofyn i aelod o dîm yr orsaf bleidleisio ddynodi diwedd y ciw er enghraifft, drwy sefyll y tu ôl i'r etholwr olaf yn y ciw
- Eglurwch i unrhyw un sy'n cyrraedd ar ôl 10pm ac sy'n ceisio ymuno â'r ciw fod y cyfnod pleidleisio wedi dod i ben a'i bod yn anghyfreithlon rhoi papur pleidleisio iddo. Mae'n bosibl y caiff person sy'n dynodi diwedd y ciw neu staff y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ei/eu herio gan etholwr sydd am bleidleisio er iddo gyrraedd ar ôl 10pm. Ni ellir rhoi papur pleidleisio i etholwyr o'r fath o dan unrhyw amgylchiadau. Mae canllawiau cyffredinol i'ch helpu i sicrhau diogelwch yn yr orsaf bleidleisio ac o'i chwmpas ar gael yn Atodiad 6.
- Ni ddylid rhoi papur pleidleisio na derbyn pleidlais bost gan neb nad yw'n aros i bleidleisio naill ai yn yr orsaf bleidleisio ei hun, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, am 10pm.
- Rhaid caniatáu i bawb sydd wedi derbyn papur pleidleisio, fwrw eu pleidlais.

Yn ogystal â staff etholiadau, caniateir i'r canlynol fod yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio:

- yr ymgeiswyr
- asiantiaid etholiad
- asiantiaid pleidleisio
- swyddogion yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio (yng Nghymru a Lloegr, mae hyn yn cynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio)
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig

Ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau ac ar ôl i'r person olaf bleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio twll y blwch pleidleisio. Gall unrhyw ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio sy'n bresennol osod ei sêl arno hefyd.

Yn y cyfamser, dylai'r Clerc Pleidleisio dynnu'r holl arwyddion i lawr a thacluso'r ystafell. Os cânt gyfarwyddyd i wneud hynny, efallai y bydd angen i staff gorsafoedd pleidleisio ddatgysylltu dodrefn yr orsaf bleidleisio a gadael yr ystafell fel yr oedd yn wreiddiol. Byddwch yn ofalus wrth symud eitemau trwm (gweler Atodiad 9 am ganllawiau ar iechyd a diogelwch).

Caiff ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid pleidleisio fod yn bresennol hefyd wrth gwblhau'r gwaith papur ac wrth selio'r pecynnau dogfennau amrywiol fel y disgrifir isod. Mae ganddynt hawl hefyd i atodi eu seliau eu hunain i'r pecynnau hyn ar yr adeg hon.

## Cwblhau'r gwaith papur

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu lenwi'r holl ffurflenni swyddogol. **Byddwch yn ofalus wrth lenwi'r gwaith papur. Mae cywirdeb yn llawer pwysicach na chyflymder.**

Wrth gwblhau a dychwelyd y gwaith papur, dylech gyfeirio at unrhyw gyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Mae'n ddigon posibl na fyddai wedi bod angen defnyddio rhai o'r ffurflenni swyddogol yn ystod y dydd; efallai na roddwyd unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd ac efallai na chafodd unrhyw bapurau pleidleisio eu difetha.

Os felly, rhaid i chi lenwi'r ffurflenni o hyd, gan roi ‘nil’ lle bo angen.

### Rhestr wirio o'r ffurflenni swyddogol i'w llenwi gan y Swyddog Llywyddu

- y cyfrif papurau pleidleisio
- y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- y datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu
- y datganiad o nifer y pleidleisiau post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio
- y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd
- y Rhestr o Bapurau Pleidleisio a Wrthodwyd (BPRL)
- y Ffurflen Gwerthuso ID Pleidleiswyr (VIDEF)

Mae'n haws cwblhau'r gwaith papur os caiff yr holl ffurflenni swyddogol eu gosod allan yn barod gyda'u hamlenni cyfatebol.

Rhestrir y cynnwys ar flaen pob un o'r amlenni swyddogol. Llenwch gymaint o'r ffurflenni a'r amlenni ag sy'n bosibl yn ystod y dydd, ymhell cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Cofiwch gwblhau'r holl waith papur hyd yn oed os nad yw'n ymddangos bod unrhyw beth i'w gofnodi.

Ar adegau, er enghraifft, mae'n bosibl na fydd unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd wedi'u rhoi neu na fydd etholwyr wedi difetha unrhyw bapurau pleidleisio. Yn yr achosion hyn, dylai'r Swyddog Llywyddu lenwi adrannau perthnasol y cyfrif papurau pleidleisio o hyd.

### Rhestr wirio o becynnau ac amlenni swyddogol a'u cynnwys

- y cyfrif papurau pleidleisio – cadwch hwn gyda'r blwch pleidleisio
- y pecyn sy'n cynnwys y pleidleisiau post hynny a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio a dderbyniwyd – cadwch hwn gyda'r blwch pleidleisio
- y pecyn sy'n cynnwys y ffurflenni dychwelyd pleidleisiau post a gwblhawyd ar gyfer y pleidleisiau post hynny a dderbyniwyd
- y pecyn (neu'r pecynnau) o'r pleidleisiau post hynny a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio a wrthodwyd a'r ffurflenni dychwelyd pleidleisiau post cysylltiedig
- papurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio heb eu defnyddio (rhai cyffredin a rhai a gyflwynwyd) – os nad oes digon o le, lapiwch yr amlen o'u cwmpas a'u clymu'n dynn gyda llinyn neu fandiau elastig
- y papurau pleidleisio a gyflwynwyd
- y copi wedi'i farcio o'r gofrestr etholwyr (gan gynnwys unrhyw hysbysiadau wedi'u

marcio fel y disgrifir yn Atodiad 2a) a'r rhestr dirprwyon

- y rhestr rhifau cyfatebol cyflawn
- y BPRL
- taflen nodiadau'r VIDEF a'r VIDEF
- y tystysgrifau cyflogaeth
- y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd, y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion, y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu, y datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu, y rhestr o wallau a gywirwyd ar y diwrnod pleidleisio a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau

## Y cyfrif papurau pleidleisio

Y cyfrif papurau pleidleisio yw'r rhan bwysicaf o'r holl waith papur a dylid ei lenwi gyntaf a'i gwblhau'n ofalus. Mewn sawl achos, bydd rhan gyntaf y cyfrif papurau pleidleisio wedi'i chwblhau ymlaen llaw gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw cwblhau gweddill y ffurflen.

Mae'r cyfrif papurau pleidleisio yn cysoni nifer y papurau pleidleisio a ddosbarthwyd gan y Swyddog Llywyddu. Cofiwch gyfrif nifer y papurau pleidleisio a roddir yn unol â'r rhestr neu'r rhestrau rhifau cyfatebol a nodwch hyn ar y cyfrif papurau pleidleisio. Mae'r ffurflen yn dibynnu ar rifau cyfresol y papurau pleidleisio a dyna pam ei bod mor bwysig rhoi papurau pleidleisio yn eu trefn rifol fel sydd wedi'i rhagargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol.

Rhaid dosbarthu'r cyfrif papurau pleidleisio a'r pecyn sy'n cynnwys y pleidleisiau post gyda'r blwch pleidleisio a dogfennaeth arall i'r ganolfan dilysu a chyfrif yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) – peidiwch â'u colli na'u gosod mewn camgymeriad mewn amlen arall neu gyda deunyddiau eraill yr etholiad oherwydd gallai hyn beri problemau ac oedi yn ystod y gwaith cyfrif.

## Y Ffurflen Gwerthuso ID Pleidleiswyr (VIDEF)

Bydd y VIDEF yn cofnodi'r cyfansymiau ar gyfer nifer yr etholwyr (neu'r dirprwyon) yn yr orsaf bleidleisio a wnaeth y canlynol:

- darparu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr
- darparu Dogfen Etholwr, yn achos etholwr dienw
- gofyn am i'w ID gael ei wirio'n breifat

Hefyd, bydd angen cwblhau'r VIDEF er mwyn dangos y cyfansymiau ar gyfer nifer yr etholwyr na roddwyd papur pleidleisio iddynt am bob un o'r rhesymau canlynol, a'r nifer o'r rhain a ddychwelodd yn ddiweddarach ac y rhoddwyd papur pleidleisio iddynt:

O daflen nodiadau'r VIDEF

- cyfanswm nifer yr etholwyr na wnaethant ddangos unrhyw ID ffotograffig neu na wnaethant ddangos math o ID ffotograffig a dderbynnir

O'r BPRL

- Cyfanswm nifer yr achosion pan wrthododd y Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio am y rhesymau canlynol:
- penderfynodd y Swyddog Llywyddu fod yr ID ffotograffig yn peri amheuaeth resymol ynghylch hunaniaeth yr etholwr
- roedd y Swyddog Llywyddu yn amau'n rhesymol mai dogfen ffug oedd yr ID ffotograffig
- ni lwyddodd yr etholwr i ateb cwestiwn rhagnodedig yn foddhaol

Hefyd, bydd angen i chi nodi ar y VIDEF a gafodd aelod o staff ei leoli wrth fynedfa'r orsaf bleidleisio i esbonio'r gofynion o ran ID pleidleisiwr i etholwyr cyn iddynt ofyn am bapur pleidleisio.

## Gweddill y gwaith papur

Yna dylai Swyddogion Llywyddu droi at weddill y gwaith papur. Llenwch a llofnodwch y ffurflenni eraill ar y rhestr wirio (gweler y

dudalen flaenorol). Cofiwch roi 'nil' ar y ffurflenni hynny os na fu'n rhaid eu defnyddio yn ystod y dydd.

## Pacio deunyddiau yn yr orsaf bleidleisio

Yn eu trefn, paciwch y deunyddiau yn eu hamlenni a'u pecynnau swyddogol. Rhaid gosod y rhestr rhifau cyfatebol a'r papurau pleidleisio heb eu defnyddio ar wahân yn yr amlenni priodol. Dylai pleidleisiau post (neu rannau o bleidleisiau post) a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio gael eu cadw ar wahân hefyd oherwydd bydd angen y rhain yn fuan yn y ganolfan dilysu a chyfrif.

Byddwch wedi cael nifer o sachau, bagiau neu flychau i gludo'r gwaith papur a deunyddiau etholiad eraill yn ôl i'r ganolfan dilysu a chyfrif. Gwnewch yn siŵr bod yr eitemau yn cael eu gosod yn y cynhwysydd priodol.

## Cludo deunyddiau etholiad i'r ganolfan dilysu a chyfrif

Rhaid dosbarthu'r blwch pleidleisio, y cyfrif papurau pleidleisio, yr amlen pleidleisiau post, sachau neu fagiau sy'n cynnwys yr amlenni swyddogol, a phapurau a deunyddiau eraill yr etholiad i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi cyfarwyddiadau ar gludo'r blychau pleidleisio a deunyddiau'r orsaf bleidleisio i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

Os caiff yr eitemau eu dosbarthu gan y Swyddog Llywyddu, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi cyfarwyddiadau ar leoliad y ganolfan dilysu a chyfrif pleidleisiau a pha fynedfa i'w defnyddio. Efallai y bydd gofyn i un o'r Clercod Pleidleisio gynorthwyo'r Swyddog Llywyddu os bydd gormod o bethau i un person eu cario. **Ewch i'r ganolfan dilysu a chyfrif pleidleisiau yn syth, heb oedi.**

Dylai Swyddogion Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith os bydd unrhyw broblemau'n codi a allai beri iddynt gyrraedd y ganolfan dilysu a chyfrif yn hwyr.

Weithiau, efallai y gwneir trefniadau eraill i gludo'r blychau pleidleisio a deunyddiau'r etholiad i'r ganolfan dilysu a chyfrif. Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn trefnu bod y deunyddiau'n cael eu casglu o'r orsaf bleidleisio a'u cludo i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

**Peidiwch byth â gadael y blychau pleidleisio heb neb i ofalu amdanynt a sicrhewch mai dim ond i aelodau o staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) y trosglwyddir y blychau pleidleisio.**

Yn olaf, cyn gadael yr orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwaredu unrhyw wastraff yn briodol ac yn gadael y safle'n daclus. Sicrhewch fod unrhyw allweddi yn cael eu dychwelyd i'r person priodol.

# Atodiad 1 – Cymorth i bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr anabl

Nod y canllawiau canlynol yw helpu i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i bleidleisio. Maent yn cynnig gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â'r camau y gall staff gorsafoedd pleidleisio eu cymryd i ddileu rhai o'r rhwystrau a'r heriau a wynebir gan bleidleiswyr anabl pan fyddant yn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

## Ymwybyddiaeth o hygyrchedd

Dylai pob pleidleisiwr gael yr hawl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

Gwyddom fod pobl anabl yn wynebu rhwystrau i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys:

- peidio â chael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth bleidleisio
- rhwystrau corfforol, gweledol, seicolegol a rhwystrau o ran gwybodaeth wrth bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio

Mae pobl ddall a rhannol ddall yn wynebu rhwystrau ychwanegol gan mai ymarfer gweledol – sef rhoi croes mewn lleoliad penodol ar ddarn o bapur – yw'r dull o bleidleisio i bob pwrpas.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybodaeth am ymwybyddiaeth o hygyrchedd i chi fel rhan o'ch hyfforddiant. Bydd bod yn ymwybodol o'r rhwystrau i bleidleisio a'u deall yn eich helpu i roi cymorth i bleidleiswyr anabl yn yr orsaf bleidleisio.

Cofiwch:

- nid yw pob anabledd yn weladwy – er enghraifft, niwrowahaniaeth neu anableddau cudd fel cyflyrau iechyd meddwl
- gall fod gan rai pleidleiswyr fwy nag un amhariad – er enghraifft, amhariad ar eu golwg a dementia

Gall staff gorsafoedd pleidleisio gefnogi pleidleiswyr anabl drwy:

- ystyried anghenion y person, nid anabledd penodol yn unig
- cyfleu'r broses bleidleisio yn glir – er enghraifft, os bydd y pleidleisiwr yn gofyn cwestiwn am wybodaeth ar hysbysiad, rhowch esboniad yn hytrach na chyfarwyddo'r unigolyn i ddarllen yr hysbysiad
- rhoi gwybod bod cymorth ar gael os oes angen (gan gydnabod nad yw pob cyflwr neu amhariad yn weladwy)
- sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio unrhyw gyfarpar a ddarperir i helpu pleidleiswyr
- sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol y gallant ofyn am gymorth cydymaith ac y gall cydymaith fod yn unrhyw un sy'n 18 oed neu drosodd

Byddwch yn ymwybodol y gall pleidleiswyr anabl ddod â'u cyfarpar eu hunain neu anifail cymorth gyda nhw.

Gall pleidleiswyr â cholled golwg ddefnyddio apiau llais i destun ar eu ffonau symudol neu gario cyfarpar cymorth maint poced, fel chwyddwydr fideo, i'w helpu i ddarllen dogfennau yn y bwth pleidleisio neu ar y cyd â dyfais bleidleisio gyffyrddadwy.

Ni ddylid atal anifeiliaid cymorth rhag mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

Efallai y bydd gan bobl ddall fyddar ffon wen â bandiau coch neu harnais coch a gwyn ar gi tywys. Mae hyn yn dangos bod gan y person amhariad ar ei olwg ac amhariad ar ei glyw.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i bobl anabl, gan gynnwys y rhai ag amhariad ar eu synhwyrau a'u symudedd, beidio â chael cynnig gwasanaeth o safon is o

gymharu â phleidleiswyr eraill. Rhaid gwneud addasiadau rhesymol fel na chaiff pobl anabl eu rhoi dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Ni all staff gorsafoedd pleidleisio eithrio person sydd wedi'i gofrestru fel etholwr neu sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr dirprwyon rhag pleidleisio oherwydd anabledd neu alluedd meddyliol.

## Cyfarpar a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio i gefnogi pleidleiswyr anabl

Mae'n rhaid i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu i bob gorsaf bleidleisio y fath gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny.

Dylai'r cyfarpar canlynol fod ar gael i gefnogi pleidleiswyr anabl yn yr orsaf bleidleisio o leiaf:

- Cadeiriau/rhywle i eistedd – mae hyn yn cynnig lle i bleidleiswyr orffwys os na allant sefyll am gyfnodau hir ac i bleidleiswyr a hoffai dreulio ychydig o amser yn meddwl cyn mynd i mewn i'r bwth pleidleisio. Yn ddelfrydol, dylai fod cymysgedd o gadeiriau gyda breichiau a hebddynt.
- Chwyddwydrau – mae'r rhain yn cynyddu maint y testun ar ddogfen gan gynorthwyo pleidleiswyr sydd ag amhariad ar y golwg i bleidleisio'n annibynnol.
- Dyfais bleidleisio gyffyrddadwy – mae'r ddyfais hon yn helpu pleidleiswyr sydd ag amhariad ar eu golwg i farcio eu pleidlais ar y papur pleidleisio yn y lle cywir.
- Bwth pleidleisio ar lefel cadair olwyn – mae hwn yn galluogi pleidleiswyr sy'n defnyddio cadair olwyn i gyrraedd arwyneb ysgrifennu is fel y gallant fwrw eu pleidlais yn gyfrinachol.
- Bathodynnau ar gyfer adnabod staff gorsafoedd pleidleisio – mae'r rhain yn helpu pleidleiswyr i adnabod aelodau o staff yn haws fel y gallant ofyn iddynt am gymorth.
- Darn gafael ar gyfer pensil – gall y rhain helpu pleidleiswyr sydd ag amhariadau medrusrwydd afael mewn pensil yn haws a'i defnyddio'n annibynnol.
- Rampiau (ar gyfer adeiladau â grisiau) – mae'r rhain yn cefnogi mynediad i orsaf bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr sy'n defnyddio cadair olwyn neu sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio grisiau.
- Teclynnau tynnu sylw dros dro neu glychau drws dros dro ar gyfer unrhyw ddrysau y mae angen eu cadw ar gau yn ystod y dydd (er enghraifft, drysau tân) – mae'r rhain yn galluogi pleidleiswyr i roi gwybod i staff yr orsaf bleidleisio fod angen cymorth arnynt i agor y drws fel y gallant fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio. Nid oes angen i'r rhain fod wedi'u gosod yn barhaol na bod wedi'u gosod mewn adeilad a ddefnyddir fel gorsaf bleidleisio ond gellir eu gosod dros dro ar lefel hygyrch ar fwrdd neu gadair wrth unrhyw ddrysau y mae'n rhaid iddynt gael eu cadw ar gau.
- Goleuadau priodol – mae golau da mewn rhai gorsafoedd pleidleisio ond mae angen goleuadau ychwanegol wrth y ddesg mewn rhai eraill i sicrhau y gall pleidleiswyr weld wynebau'r staff yn glir, ac yn y bythau pleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr i ddarllen a chwblhau'r papur pleidleisio.
- Lleoedd parcio ar gyfer pleidleiswyr anabl (os bydd lleoedd parcio ar gael yn y lleoliad) – mae hyn yn sicrhau y gall pleidleiswyr anabl barcio mor agos i'r orsaf bleidleisio â phosibl.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cadarnhau pa gyfarpar fydd ar gael yn eich gorsaf bleidleisio. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhoi mathau eraill o gyfarpar i chi er mwyn helpu pleidleiswyr i gyfranogi. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar sut i weithredu unrhyw gyfarpar a ddarperir.

Dylid cadw'r cyfarpar i gefnogi pleidleiswyr anabl yng ngolwg pawb a sicrhau ei fod wedi'i farcio'n glir fel y gellir ei adnabod a chael gafael arno'n hawdd.

### Dyfais bleidleisio gyffyrddadwy

Gall etholwr dall neu rannol ddall ddefnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy i'w helpu i bleidleisio, ar yr amod ei bod yn cael ei gosod ar y papur pleidleisio yn gywir. Gall pleidleiswyr sy'n colli eu golwg ddefnyddio apiau ar eu ffonau symudol neu gario cyfarpar cymorth maint poced, fel chwyddwydr fideo i'w helpu i ddarllen dogfennau. Gallai'r rhain gael eu defnyddio ar y cyd â'r ddyfais. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu dyfais sain i bleidleiswyr ei defnyddio gyda'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy neu yn ei lle. Os darperir dyfais sain i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio.

Rhaid i bob aelod o staff gorsafoedd pleidleisio wybod sut i ddefnyddio'r ddyfais a gallu egluro sut i'w defnyddio i bleidleiswyr dall neu rannol ddall.

Gwnewch yn siŵr ei bod yn briodol ar gyfer y papur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio, ei bod wedi'i chysylltu'n sownd i'r papur pleidleisio a bod y pleidleisiwr yn hyderus i'w defnyddio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn egluro sut mae'r ddyfais yn gweithio ond, yn gyffredinol, dylai'r pleidleisiwr wneud y canlynol:

- codi'r ffenestr(i) (d)dethol
- marcio'r papur pleidleisio
- cau'r ffenestr(i)
- datgysylltu'r ddyfais oddi wrth y papur pleidleisio
- plygu a gosod y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio
- dychwelyd y ddyfais i'r Swyddog Llywyddu

### Fersiwn print bras o'r papur pleidleisio

Sicrhewch fod fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn cael ei harddangos mewn ardal â digon o olau lle y gall etholwyr ei gweld yn hawdd cyn cael eu papur pleidleisio.

### Copi llaw o'r papur pleidleisio

Dylid sicrhau bod y copi llaw mwy o faint o'r papur pleidleisio ar gael i bleidleiswyr. Gall y copi mwy o faint gael ei ddefnyddio gan bleidleisiwr yn y bwth pleidleisio i'w helpu i farcio ei bapur pleidleisio.

Yn ogystal â'r cyfarpar a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio, mae mabwysiadu arferion ac ymddygiadau drwy gydol y diwrnod pleidleisio sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r rhwystrau posibl i bleidleisio i bleidleiswyr yn aml yn helpu i wneud gwahaniaeth. Gallai'r rhain gynnwys:

- gwirio a oes lleoedd parcio yn agos at fynedfa'r orsaf bleidleisio ar gael i bobl anabl eu defnyddio os nad oes rhai wedi'u neilltuo i bobl anabl at y diben hwnnw
- gwirio'n rheolaidd nad yw arwyddion ar gyfer unrhyw fynedfa amgen i bobl anabl wedi'u cuddio
- sicrhau nad yw arwyddion wrth fynedfa'r orsaf yn rhwystro cadeiriau olwyn, y rhai sydd â phroblemau symudedd neu bleidleiswyr sydd ag amhariad ar eu golwg
- gwirio'n rheolaidd fod unrhyw ramp a ddarperir yn ei le o hyd ac yn gadarn
- cadw drysau dwbl ar agor er mwyn helpu i sicrhau mynediad da i bawb; fodd bynnag, gwnewch yn siŵr nad yw'r rhain yn ddrysau tân
- gwneud yn siŵr bod matiau drws yn lefel â'r llawr a'u bod yn cael eu symud os gallant fod yn beryglus

## Cymorth i etholwyr sy'n methu mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio

Yn ddelfrydol, bydd eich gorsaf bleidleisio mewn adeilad cwbl hygyrch. Yn anffodus, yn ymarferol, nid felly y mae yn aml ac mewn rhai ardaloedd ni fydd llawer o adeiladau hygyrch ar gael i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Os na all etholwr ag anabledd corfforol fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio, gall y Swyddog Llywyddu, ar ôl hysbysu unrhyw asiantiaid sy'n bresennol, fynd â'r papur pleidleisio i'r etholwr.

Ar ôl i'r etholwr farcio'r papur pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu osod y papur wedi'i blygu yn y blwch pleidleisio ar unwaith. Mae'n hanfodol cynnal cyfrinachedd y bleidlais bob amser. Ni ddylid gadael y blwch pleidleisio heb neb i ofalu amdano na'i symud o'r orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

## Pleidleiswyr anabl sy'n gofyn am gymorth

Os bydd etholwr yn gofyn am gymorth, dylai'r Swyddog Llywyddu sicrhau ei fod yn cael cymorth priodol i'w alluogi i fwrw ei bleidlais. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r Swyddog Llywyddu egluro'r broses bleidleisio i'r etholwr neu efallai y bydd yn gofyn am gymorth cydymaith.

Efallai y bydd rhai pleidleiswyr yn gofyn am gymorth y Swyddog Llywyddu i farcio'r papur pleidleisio ar eu rhan. Os yw'r pleidleisiwr yn gwybod dros bwy yr hoffai bleidleisio, gall gyfarwyddo'r Swyddog Llywyddu, ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio, i farcio'r papur pleidleisio ar ei ran yn briodol. Sicrhewch na all unrhyw bleidleisiwr arall glywed dewis y pleidleisiwr anabl rydych yn ei gynorthwyo. Os yw'n bosibl, dewiswch ran o'r orsaf bleidleisio lle na all neb arall glywed sgwrs rhwng dau berson sy'n siarad â'u lleisiau arferol.

Weithiau, efallai y bydd y pleidleisiwr yn ansicr ynghylch sut i bleidleisio. Os felly, dylai'r Swyddog Llywyddu ddarllen yn uchel y cyfarwyddiadau sydd ar frig y papurau pleidleisio ac enwau'r ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Ar ôl i'r etholwr benderfynu, rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio'r papur pleidleisio yn briodol. Os bydd ymgeiswyr, asiantiaid etholiad neu asiantiaid pleidleisio yn bresennol, dylid eu gwahodd i wrando ar y Swyddog Llywyddu ac arsylwi arno, fel y gallant gadarnhau bod y papur pleidleisio yn cael ei farcio yn unol â dymuniadau'r etholwr.

Os bydd yn rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio papur pleidleisio ar ran etholwr, rhaid nodi enw'r pleidleisiwr ar y ffurflen swyddogol 'Rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu'. Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd lenwi'r 'Datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu'.

### Cymdeithion pleidleiswyr anabl

Fel arall, gallai pleidleisiwr anabl gael cymorth gan gydymaith, gyda chaniatâd y Swyddog Llywyddu, y mae'n rhaid iddo fodloni ei hun y byddai anableddau'r pleidleisiwr yn ei atal rhag pleidleisio'n annibynnol.

Mae'n rhaid i gydymaith y pleidleisiwr anabl fod yn 18 oed neu drosodd a gall gynorthwyo hyd at ddau berson yn yr un etholiad. Dylai'r pleidleisiwr ofyn am ganiatâd y Swyddog Llywyddu i gael cymorth gan ei gydymaith.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cydymaith, nid y pleidleisiwr, gwblhau datganiad syml, 'Datganiad i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau'. Mae'n ddefnyddiol i'r Swyddog Llywyddu lenwi'r datganiad ar ran y cydymaith a gofyn iddo fwrw golwg dros y wybodaeth a llofnodi'r ddogfen.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu sicrhau ei fod yn egluro'r broses yn glir i'r etholwr a'i gydymaith.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gofnodi enw a rhif etholwr y pleidleisiwr, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y cydymaith, ar y ffurflen 'Rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion'.

## Cynorthwyo pleidleiswyr dall neu rannol ddall i farcio eu papur pleidleisio

Efallai y bydd pleidleiswyr dall neu rannol ddall yn gofyn am gymorth gan y Swyddog Llywyddu neu gymdeithion cymwys.

**Gwnewch y canlynol:**

- rhowch gyfarwyddiadau manwl er mwyn helpu pleidleiswyr o'r fath i ganfod eu ffordd
- tywyswch y pleidleisiwr yn unol â'i gyfarwyddyd (mae'n well gan y rhan fwyaf o

bobl ddall neu rannol ddall ddal braich y cynorthwyydd)

- os gofynnir i chi, darllenwch y cyfarwyddiadau sydd ar frig y papur pleidleisio ynghyd â'r ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- peidiwch â chymryd yn ganiataol bod angen help – gofynnwch yn gyntaf bob amser
- peidiwch â thynnu sylw cŵn tywys drwy eu mwytho a pheidiwch â chymryd y tennyn
- peidiwch â chyffwrdd â'r pleidleisiwr heb ofyn yn gyntaf a fyddai'n hoffi i chi ei dywys

## Cynorthwyo pleidleiswyr byddar yn yr orsaf bleidleisio

Gall colled clyw amrywio o golled ysgafn i golled ddwys. Bydd rhai pobl â cholled clyw yn defnyddio Saesneg llafar ac efallai y byddant yn dibynnu ar ddarllen gwefusau i gyfathrebu. Efallai mai Iaith Arwyddion Prydain fydd iaith gyntaf rhai eraill, ond mae'n bosibl y byddant hefyd yn darllen gwefusau.

Efallai y bydd person â cholled clyw yn gwisgo cymhorthion clyw, ond nid yw'r rhain yn adfer ei glyw yn llawn.

Os oes dolen sain wedi'i gosod mewn gorsaf bleidleisio, dylid ei defnyddio lle bynnag y bo modd er mwyn gwneud y broses etholiadol yn hygyrch i bleidleiswyr sydd â cholled clyw.

**Gwnewch y canlynol:**

- ceisiwch ennyn sylw'r person byddar cyn siarad
- rhowch dap ysgafn ar ei ysgwydd neu codwch eich llaw arno
- wynebwch y person rydych yn siarad ag ef
- siaradwch yn glir, heb fod yn rhy araf, heb fod yn rhy gyflym a defnyddiwch symudiadau gwefus arferol – defnyddiwch fynegiant wyneb ac ystumiau naturiol
- byddwch yn amyneddgar ac ailadroddwch bethau os oes angen
- defnyddiwch iaith glir
- os nad oes rhywun yn deall yr hyn rydych wedi'i ddweud, ceisiwch ei ddweud mewn ffordd arall
- siaradwch â pherthynas neu ffrind, os bydd y person yn gofyn i chi wneud hynny
- cadwch gyswllt llygad
- byddwch yn barod i ysgrifennu rhywbeth i lawr os nad yw'r person yn deall yr hyn rydych yn ei ddweud o hyd
- dewch o hyd i le addas i siarad, â digon o olau, heb sŵn nac ymyriadau

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- peidiwch â gweiddi – mae'n ystumio eich wyneb a'ch llais ac mae'n edrych yn fygythiol
- peidiwch â rhoi unrhyw beth yn eich ceg
- peidiwch â chuddio eich ceg
- peidiwch â siarad yn rhy gyflym
- peidiwch â siarad yn rhy araf na gorliwio patrymau gwefus
- peidiwch â throi i ffwrdd nac edrych i lawr
- peidiwch â siarad â golau llachar y tu ôl i chi – bydd hyn yn cysgodi eich wyneb
- peidiwch â dal unrhyw beth yn eich llaw os byddwch yn defnyddio ystumiau
- peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to os na fydd y person byddar yn deall ar unwaith

# Atodiad 2a – Delio â phroblemau ar y gofrestr etholwyr

## Oedran – hawl i bleidleisio

Mae'n drosedd i bobl dan 18 oed bleidleisio yn yr etholiad hwn, boed hynny ar eu pen eu hunain neu gyda rhywun arall. Yng Nghymru a'r Alban, gall etholwyr 16 ac 17 oed bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau i sefydliadau datganoledig, ond **ni allant** bleidleisio yn etholiad Senedd y DU.

Os yw'n amlwg bod rhywun dan 18 oed, dylid ei rybuddio y bydd yn euog o drosedd os bydd yn pleidleisio yn yr etholiad. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig a rhaid i'r person eu hateb heb gymorth (gweler Atodiad 5a am y cwestiynau rhagnodedig). Os bydd y person yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, ac wedi dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir, rhaid rhoi papur pleidleisio iddo. Ni ellir gofyn unrhyw gwestiynau eraill na gofyn am brawf oedran. Dylid nodi enw a chyfeiriad y pleidleisiwr ynghyd ag unrhyw fanylion eraill, gan gynnwys amser y digwyddiad a manylion unrhyw berson a oedd gyda'r pleidleisiwr. Yna, dylid hysbysu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

## Enwau wedi'u camsillafu a phleidleiswyr sydd wedi newid eu henw

Weithiau bydd enw etholwr wedi'i gamsillafu neu bydd yr enw wedi newid yn gyfreithiol ers iddo wneud cais i fod ar y gofrestr, e.e. drwy briodas.

Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig i'r etholwr (gweler Atodiad 5a). Os bydd y pleidleisiwr yn eu hateb yn foddhaol, ac wedi dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir, rhaid caniatáu iddo bleidleisio, a dylai'r Swyddog Llywyddu nodi'r gwall a'i drosglwyddo i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os bydd yr etholwr yn mynnu ei fod am i'r gwall gael ei ddiwygio cyn pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r swyddfa etholiadau am gyngor neu, fel arall, dylai gyfeirio'r pleidleisiwr at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

## Etholwyr eraill

Mae'r pennawd 'Etholwyr eraill' yn ymddangos ar ddiwedd rhai cofrestrau. Nid yw'r etholwyr yn yr adran hon, sy'n cynnwys etholwyr o'r lluoedd arfog ac etholwyr tramor, a'r rhai sydd wedi cofrestru drwy ddatganiad o gysylltiad lleol, yn bodloni'r amod cymhwyso preswyl mwyach ond gallant bleidleisio (yn dibynnu ar hawl). Mae'n annhebygol y bydd etholwyr o'r lluoedd arfog wedi cael cerdyn pleidleisio. Fodd bynnag, bydd cardiau pleidleisio wedi cael eu hanfon at yr holl etholwyr dienw y bydd angen iddynt, yn wahanol i bleidleiswyr cyffredin, gyflwyno eu cerdyn pleidleisio er mwyn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 4).

## Person nad yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr

Fel arfer, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys pawb sydd â hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio honno. Os na fydd enw person yn ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, efallai nad yw'r person wedi'i gofrestru. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod gwall wedi digwydd.

## Gwallau clercol ar y gofrestr

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darganfod y cyflwynwyd cais wedi'i gwblhau'n gywir ac mai dim ond drwy wall clercol y cafodd y person ei hepgor o'r gofrestr, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cywiro'r gwall hyd at 9pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn gwneud trefniadau i alluogi'r person i bleidleisio tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio am 10pm. Efallai y caiff y gwall ei ddarganfod gan y

Swyddog Cofrestru Etholiadol naill ai cyn neu ar y diwrnod pleidleisio neu gan bleidleisiwr neu ddirprwy yn yr orsaf bleidleisio.

### Gwallau clercol a nodir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn y diwrnod pleidleisio

Os caiff gwall ei nodi cyn y diwrnod pleidleisio ond ar ôl i'r gofrestr gael ei llunio ar gyfer yr orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi darparu 'hysbysiad' ar wahân, yn cynnwys unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau, i gyd-fynd â'r gofrestr arferol. Rhaid marcio'r hysbysiad hwn yn lle'r gofrestr ond, fel arall, mae'r holl weithdrefnau eraill yr un fath, gan gynnwys selio unrhyw hysbysiad o'r fath gyda'r gofrestr ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

### Gwallau clercol a nodir gan y Swyddog Llywyddu ar y diwrnod pleidleisio

Os bydd rhywun nad yw'n ymddangos ar y gofrestr (na'r hysbysiad) yn dod i'r orsaf bleidleisio ac yn mynnu ei fod wedi gwneud cais i gofrestru, dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r mater at y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar unwaith.

### Gwallau clercol a nodir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar y diwrnod pleidleisio

Os penderfynir bod cais a gwblhawyd yn gywir wedi cael ei gyflwyno ac mai dim ond drwy wall clercol y cafodd y person ei hepgor o'r gofrestr, rhaid cywiro'r gwall a bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn hysbysu'r Swyddog Llywyddu (naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, e.e. dros y ffôn).

### Gweithdrefn i ganiatáu i berson bleidleisio ar ôl cywiro gwall clercol ar y diwrnod pleidleisio

Rhoddir cyfarwyddiadau ar sut y caiff y wybodaeth ei throsglwyddo i'r Swyddog Llywyddu yn y sesiwn hyfforddi.

**Os caiff yr hysbysiad ei roi ar lafar**

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod ysgrifenedig o enw a rhif yr etholwr ar gofrestr yr orsaf bleidleisio a marcio'r cofnod hwn wrth roi papur pleidleisio yn y ffordd arferol.

Rhaid cofnodi enw'r etholwr ar restr ar wahân hefyd. Dylid selio'r rhestr hon ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio gyda rhestrau rhagnodedig eraill (gweler tudalen 27).

**Os caiff yr hysbysiad ei roi yn ysgrifenedig**

Dylai'r Swyddog Llywyddu nodi'r hysbysiad hwnnw yn yr un modd â phe bai'n rhan o'r gofrestr, a chyflwyno papurau pleidleisio yn y modd arferol.

Rhaid selio'r hysbysiad a farciwyd neu'r cofnod ysgrifenedig a farciwyd gyda'r gofrestr ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

Rhaid cofnodi enw'r etholwr ar restr ar wahân hefyd. Dylid selio'r rhestr hon ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio gyda'r rhestrau rhagnodedig eraill (gweler tudalen 27).

## Unrhyw berson arall nad yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr

Ni ddylid caniatáu i neb arall nad yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr (na'r hysbysiad) ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno, bleidleisio. Efallai fod y person wedi'i gofrestru i bleidleisio mewn dosbarth etholiadol arall. Os bydd angen mwy o help ar yr etholwr, cyfeiriwch ef at y swyddfa etholiadau.

# Atodiad 2b – Delio â phroblemau sy'n codi yn sgil gwirio ID ffotograffig

Mae'r atodiad hwn yn rhoi canllawiau i'r Swyddog Llywyddu ar beth i'w wneud mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol a all godi wrth wirio ID ffotograffig.

Dylid dilyn yr un gweithdrefnau ar gyfer pleidleiswyr a phleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy.

Nid yw'r angen i ddarparu math o ID ffotograffig a dderbynnir yn diystyru'r angen i'r Swyddog Llywyddu fod yn fodlon mai'r etholwr yw'r person a enwir ar y gofrestr etholwyr. Hyd yn oed os bydd gan etholwr fath o ID ffotograffig a dderbynnir, gall y Swyddog Llywyddu ddefnyddio'r cwestiynau rhagnodedig (gweler Atodiad 5a) o hyd os bydd ganddo unrhyw amheuon mewn perthynas â'r cofnod ar y gofrestr etholwyr, a dylai wneud hynny.

Os caiff penderfyniad i roi papur pleidleisio ei gyfeirio at y Swyddog Llywyddu, bydd penderfyniad y Swyddog Llywyddu yn derfynol.

## Mae gan etholwr fath o ID ffotograffig nad yw ar y rhestr o ID a dderbynnir

Dylech wneud y canlynol:

- esbonio i'r etholwr pa fathau o ID ffotograffig y gellir eu derbyn
- gofyn i'r etholwr ddychwelyd â math o ID ffotograffig a dderbynnir
- bwrw golwg ar daflen nodiadau'r VIDEF i gadarnhau a yw'r etholwr wedi cael ei wrthod eisoes am na wnaeth ddarparu math o ID ffotograffig a dderbynnir
  - os bydd yr unigolyn eisoes wedi'i farcio ar daflen nodiadau'r VIDEF, dylech ddiweddaru'r cofnod er mwyn dangos ei fod wedi dod yn ôl i'r orsaf bleidleisio
  - os nad yw'r unigolyn eisoes wedi'i farcio ar daflen nodiadau'r VIDEF, dylech gofnodi ei rif etholwr (neu, os mai dirprwy ydyw, enw a chyfeiriad y dirprwy) ar daflen nodiadau'r VIDEF

## Nid yw'r ID ffotograffig yn debyg i'r etholwr

Gall etholwyr gyflwyno math o ID ffotograffig a dderbynnir, sy'n peri amheuaeth resymol o ran ai'r person yw'r etholwr neu'r dirprwy y mae'n honni bod, er enghraifft, nid yw'r llun ar y ddogfen yn ddigon tebyg i'r pleidleisiwr.

Os bydd y Clerc Pleidleisio yn penderfynu bod yr ID ffotograffig yn peri amheuaeth resymol o ran ai'r person yw'r sawl y mae'n honni bod, rhaid iddo gyfeirio'r mater at sylw'r Swyddog Llywyddu. Dim ond y Swyddog Llywyddu all benderfynu gwrthod rhoi papur pleidleisio am y rhesymau hyn.

Yna dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r ID ffotograffig gan ddilyn y broses a nodir yng Ngham 2 o'r drefn bleidleisio ym Mhennod 5.

Os bydd y Swyddog Llywyddu yn penderfynu bod yr ID ffotograffig yn peri amheuaeth resymol o ran ai'r person yw'r sawl y mae'n honni bod, er enghraifft, am nad yw'r llun ar y ddogfen yn ddigon tebyg i'r etholwr, rhaid iddo:

- esbonio i'r etholwr ei fod o'r farn bod y ddogfen a ddarparwyd ganddo yn peri amheuaeth resymol o ran ai'r person yw'r sawl y mae'n honni bod
- gofyn i'r etholwr ddychwelyd gyda math o ID ffotograffig a dderbynnir sy'n debyg i'r etholwr ar hyn o bryd
- edrych ar y cofnodion ar y BPRL i weld a yw'r etholwr wedi cael ei wrthod o'r blaen
  - os felly, diweddaru'r cofnod presennol er mwyn cofnodi bod yr unigolyn wedi cael ei wrthod eto
  - os nad oes cofnod presennol ar ei gyfer, creu cofnod newydd yn cynnwys rhif

etholwr y pleidleisiwr (neu enw a chyfeiriad y dirprwy) a nodi'r rhif ‘1’ yn y golofn ar gyfer y rheswm dros wrthod

### Mae'r enw a gadarnhawyd gan y pleidleisiwr yn wahanol i'r enw sy'n ymddangos ar yr ID ffotograffig

Gall etholwyr gyflwyno math o ID ffotograffig a dderbynnir lle mae'r enw yn wahanol i enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr, er enghraifft, sillafiad gwahanol; neu lle mae rhywun yn defnyddio cyfenw â dwy ran, enw canol yn lle enw cyntaf neu fersiwn wedi'i chwtogi o'u henw llawn. Fel y nodir yn Atodiad 2a, gall hyn hefyd fod oherwydd bod yr etholwr wedi newid ei enw'n gyfreithlon ers cofrestru i bleidleisio.

Os nad yw'r amrywiad yn rhoi rheswm i'r Clerc Pleidleisio amau nad y person yw'r sawl y mae'n honni bod, dylai roi papur pleidleisio i'r pleidleisiwr.

Os yw'r enw ar y gofrestr yn wahanol i'r enw ar yr ID ffotograffig i'r fath raddau bod gan Glerc Pleidleisio amheuaeth resymol o ran ai'r pleidleisiwr yw'r etholwr y mae'n honni bod, rhaid iddo gyfeirio'r mater at sylw'r Swyddog Llywyddu er mwyn cael penderfyniad.

Dylai'r Clerc Pleidleisio roi'r ID ffotograffig i'r Swyddog Llywyddu a ddylai wirio'r ID gan ddilyn y broses a nodir yng Ngham 2 o'r drefn bleidleisio ym Mhennod 5.

Dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio'r sefyllfa i'r etholwr (er enghraifft, bod gwahaniaeth yn yr enw cyntaf/y cyfenw/y ddau enw a ddangosir ar y gofrestr).

Gall y Swyddog Llywyddu drafod y gwahaniaeth â'r etholwr a gall hefyd ofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn helpu i gysylltu'r ID ffotograffig â'r enw ar y gofrestr, er enghraifft tystysgrif priodas, papurau ysgariad, gwaith papur gweithred newid enw, tystysgrif geni, biliau ac ati.

Os bydd y Swyddog Llywyddu yn fodlon ar bwy yw'r etholwr, dylid rhoi'r papur pleidleisio fel y nodir yng Ngham 4 o Bennod 5.

Os nad yw'r Swyddog Llywyddu yn fodlon o ran pwy yw'r etholwr, ni ddylid rhoi papur pleidleisio. Dylai'r Swyddog Llywyddu:

- esbonio i'r etholwr pa fathau o ID ffotograffig a dderbynnir
- gofyn i'r etholwr ddychwelyd â math o ID ffotograffig a dderbynnir
- edrych ar y cofnodion ar y BPRL i weld a yw'r etholwr wedi cael ei wrthod o'r blaen.
  - os felly, diweddaru'r cofnod presennol er mwyn cofnodi bod yr unigolyn wedi cael ei wrthod eto
  - os nad oes cofnod presennol ar ei gyfer, creu cofnod newydd yn cynnwys rhif etholwr y pleidleisiwr (neu enw a chyfeiriad y dirprwy) a nodi'r rhif ‘1’ yn y golofn ar gyfer y rheswm dros wrthod

### Ymddengys fod yr ID ffotograffig yn un ffug

Os bydd Clerc Pleidleisio yn amau'n rhesymol nad yw darn o ID ffotograffig yn un dilys, rhaid iddo gyfeirio'r mater at sylw'r Swyddog Llywyddu er mwyn cael penderfyniad.

Dylai'r Clerc Pleidleisio roi'r ID ffotograffig i'r Swyddog Llywyddu a ddylai wirio'r ID gan ddilyn y broses a nodir yng Ngham 2 o'r drefn bleidleisio ym Mhennod 5.

Os bydd gan y Swyddog Llywyddu amheuaeth resymol o ran dilysrwydd y ddogfen, rhaid iddo:

- roi'r ID yn ôl i'r etholwr ac esbonio ei fod yn credu bod yr ID ffotograffig yn un ffug
- cynghori'r etholwr i ddychwelyd â math arall o ID ffotograffig a dderbynnir
- edrych ar y cofnodion blaenorol ar y BPRL i weld a yw'r etholwr wedi cael ei wrthod o'r blaen
  - os felly, diweddaru'r cofnod presennol er mwyn cofnodi bod yr unigolyn wedi cael ei wrthod eto
  - os nad oes cofnod presennol ar ei gyfer, creu cofnod newydd yn cynnwys rhif etholwr y pleidleisiwr (neu enw a chyfeiriad y dirprwy) a nodi'r rhif ‘2’ yn y golofn ar gyfer y rheswm dros wrthod

Dylech hefyd roi gwybod i'r tîm etholiadau fel bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ymwybodol o unrhyw achosion o ID ffotograffig yr amheuir ei fod yn un ffug ac y gall atgyfeirio'r rhain at yr heddlu.

### Mae etholwr yn cyrraedd yn gwisgo gorchudd wyneb, ac mae'n gwrthod ei dynnu er mwyn gwirio pwy ydyw

Dylai'r Clerc Pleidleisio esbonio ei bod yn orfodol darparu ID ffotograffig, ac na chaiff, yn ôl y gyfraith, roi papur pleidleisio heb gadarnhau'r ID drwy gymharu'r llun ag wyneb yr etholwr.

Dylai'r Clerc Pleidleisio hefyd esbonio bod ardal lle y gall aelod o staff yr orsaf bleidleisio wneud hyn yn breifat.

### Mae etholwr wedi gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio gan Glerc Pleidleisio benywaidd, sy'n amau'n rhesymol nad yw'r ID yn debyg i'r etholwr

Mae'n rhaid i'r Clerc Pleidleisio gyfeirio'r mater hwn at y Swyddog Llywyddu, ac mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu wirio ID ffotograffig yr etholwr ei hun cyn penderfynu a ddylid rhoi papur pleidleisio. Os nad oes Swyddog Llywyddu benywaidd yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn gorsaf bleidleisio arall yn yr adeilad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fod wedi darparu manylion cyswllt aelodau benywaidd o staff, e.e. Arolygwyr Gorsafoedd Pleidleisio, a fydd wedi'u hawdurdodi i wirio ID ffotograffig o dan y fath amgylchiadau. Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn y sefyllfa hon.

Dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio'r trefniadau i'r etholwr, a gofyn i'r unigolyn aros neu ddychwelyd yn ddiweddarach os byddai hynny'n well.

# Atodiad 3a – Y drefn ar gyfer pleidleiswyr post

## Pleidleiswyr post

Bydd y llythyren **'A'** yn ymddangos yn erbyn enwau etholwyr sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post, ar y gofrestr etholwyr a ddefnyddir yn yr orsaf bleidleisio. Bydd yr enwau a'r cyfeiriadau yr anfonwyd y papurau pleidleisio drwy'r post iddynt yn ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post. Ni chaniateir i'r etholwyr hyn bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio, hyd yn oed os byddant yn dweud nad ydynt wedi cael eu papur pleidleisio drwy'r post.

Fodd bynnag, gall y pleidleisiwr neu rywun ar ei ran fynd â phleidleisiau post wedi'u cwblhau i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr etholaeth. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi cyfarwyddiadau i chi ar ba bleidleisiau post y gellir eu dychwelyd i'ch gorsaf bleidleisio.

Pan fydd rhywun yn cyflwyno pleidlais bost yn yr orsaf bleidleisio, rhaid cwblhau ffurflen dychwelyd pleidlais bost fel y gall staff yr orsaf bleidleisio benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod y pleidleisiau post. Os na chaiff y ffurflen ei chwblhau'n llawn, rhaid i staff yr orsaf bleidleisio wrthod y bleidlais bost/pleidleisiau post

### Pwy all gyflwyno pleidleisiau post?

Gall unigolyn gyflwyno ei bleidlais bost ei hun yn ogystal â phleidleisiau post hyd at bum person arall.

Fodd bynnag, os bydd yr unigolyn yn cadarnhau ei fod yn ymgyrchydd gwleidyddol, dim ond ei bleidlais bost ei hun y gall ei chyflwyno a hyd at bum pleidlais bost arall sydd naill ai gan berthynas agos, neu rywun y mae'r unigolyn, neu'r sefydliad sy'n ei gyflogi neu'n ymgysylltu ag ef, yn darparu gofal rheolaidd iddo.

Perthnasau agos yw priod, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr/wyres unigolyn. Caiff dau berson sy'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn gwpl priod neu'n bartneriaid sifil eu trin felly.

Os bydd unigolyn yn cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer etholwyr y mae'n gweithredu fel dirprwy ar eu cyfer, caiff nifer y pleidleisiau post y gall eu cyflwyno ar ran pobl eraill ei leihau gan nifer y pleidleisiau dirprwy drwy'r post y mae'n eu cyflwyno.

### Pwy na all gyflwyno pleidleisiau post?

- Ni all ymgyrchwyr gwleidyddol drin pleidleisiau post ar gyfer etholwyr eraill nad ydynt yn berthnasau agos neu'n bobl y maent yn darparu gofal rheolaidd iddynt.
- Ni chaniateir i unigolion dan 18 oed gyflwyno pleidleisiau post.
- Unigolion sydd eisoes wedi cyflwyno uchafswm nifer y pleidleisiau post a ganiateir ar gyfer yr etholiad hwnnw.

### Beth yw'r drefn ar gyfer derbyn pleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r drefn arferol i'w dilyn mewn perthynas â phleidleisiau post a gyflwynir wedi'i nodi isod. Ceir gwybodaeth bellach am ymholiadau sy'n deillio o gyflwyno pleidleisiau post, a sefyllfaoedd pan fydd yn rhaid i chi wrthod pleidleisiau post a gyflwynir, yn yr adran nesaf.

**Cam 1 – Cadarnhau y gellir dychwelyd y bleidlais bost/pleidleisiau post i'ch gorsaf bleidleisio a rhoi gwybod i'r unigolyn y bydd angen iddo ddarparu rhai manylion er mwyn dychwelyd y pleidleisiau post**

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi cyfarwyddiadau i chi o ran y pleidleisiau post y gellir eu derbyn yn eich gorsaf bleidleisio.

Esboniwch fod yn rhaid cwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post yn gywir neu caiff y pleidleisiau post eu gwrthod.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi rhoi hyfforddiant i chi ar sut i helpu unigolion i gwblhau'r ffurflen hefyd.

**Cam 2 – Cwblhau adran 1 o'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post:**

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol yn adran 1:

- p'un a yw'r unigolyn yn cyflwyno ei bleidlais bost ei hun (gan ddewis y blwch priodol ar y ffurflen)
- p'un a yw'r unigolyn yn cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer unrhyw bobl eraill ac, os felly, faint
- gall unigolion gyflwyno pleidleisiau post ar gyfer hyd at 5 person arall
- p'un a yw'r unigolyn yn ymgyrchydd gwleidyddol
- gall ymgyrchwyr gwleidyddol gyflwyno pleidleisiau post ar gyfer hyd at 5 person arall ar yr amod eu bod yn berthnasau agos neu'n bobl y maent yn darparu gofal rheolaidd iddynt

Os yw'r unigolyn:

- yn cyflwyno dim mwy na'r nifer a ganiateir o bleidleisiau post
- wedi cadarnhau nad yw'n ymgyrchydd gwleidyddol neu
- wedi cadarnhau ei fod yn ymgyrchydd gwleidyddol ond yn cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer perthnasau agos neu bobl y maent yn darparu gofal rheolaidd iddynt

rhaid cwblhau'r blychau perthnasol ar y ffurflen a chofnodi cyfanswm y pleidleisiau post a gyflwynir ar y ffurflen.

**Cam 3 – Cwblhau adran 2 o'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post**

Gofynnwch i'r unigolyn gadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd yn adran 1 yn gywir a chwblhau'r meysydd canlynol yn adran 2:

- enw'r unigolyn
- cyfeiriad yr unigolyn
- (os yw'n gymwys) y rheswm dros gyflwyno pleidleisiau post ar ran pobl eraill

Rhaid i'r unigolyn ddarllen a chwblhau'r datganiad gan gadarnhau:

- nad yw wedi cyflwyno mwy na'r nifer a ganiateir o bleidleisiau post
- nad yw'n ymgyrchydd gwleidyddol, neu
- ei fod yn ymgyrchydd gwleidyddol a'i fod ond wedi cyflwyno ei bleidlais bost ei hun a/neu bleidlais bost perthynas agos, neu rywun y mae'n darparu gofal rheolaidd iddo

Rhaid i'r unigolyn lofnodi'r ffurflen a rhoi dyddiad arni.

**Cam 4 – Cwblhau adran 3 o'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post**

Mae'n rhaid i staff yr orsaf bleidleisio gwblhau adran 3. Cadarnhewch fod adrannau 1 a 2 wedi cael eu cwblhau'n gywir.

Os ydych yn fodlon:

- bod y ffurflen dychwelyd pleidleisiau post wedi cael ei chwblhau'n gywir â'r wybodaeth ofynnol
- nad yw'r unigolyn wedi cyflwyno mwy o bleidleisiau post na'r hyn y mae hawl ganddo i'w wneud
- nad yw'r unigolyn yn ymgyrchydd gwleidyddol, neu mae'n ymgyrchydd gwleidyddol sydd ond wedi cyflwyno ei bleidlais bost ei hun a/neu bleidleisiau post perthnasau agos neu bobl y mae'n darparu gofal rheolaidd iddynt,

cwblhewch adran 3A o'r ffurflen i gadarnhau hyn a derbyn y pleidleisiau post.

**Cam 5 – Diolch i'r unigolyn a chadarnhau bod y pleidleisiau post wedi cael eu derbyn ac y byddant yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)**

**Cam 6 – Staff yr orsaf bleidleisio i roi'r pleidleisiau post a dderbyniwyd mewn pecyn ar gyfer pleidleisiau post a dderbyniwyd**

Ar ôl eu derbyn, rhowch y bleidlais bost/pleidleisiau post heb ei/eu hagor, yn y pecyn a ddarparwyd.

Rhaid i'r pecyn gael ei gadw'n ddiogel bob amser. Rhaid ei drosglwyddo i unrhyw aelod o staff a benodir i gasglu pleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu rhaid ei ddosbarthu i'r ganolfan dilysu a chyfrif ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

**Cam 7 – Staff yr orsaf bleidleisio i roi'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post wedi'i chwblhau yn y pecyn priodol**

Dylai'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post wedi'i chwblhau gael ei chadw ar wahân i'r pecyn sy'n cynnwys y pleidleisiau post a dderbyniwyd a'i throsglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

**Ni ddylid rhoi pleidleisiau post yn y blwch pleidleisio.**

## Beth os na ellir cyflwyno'r bleidlais bost yn eich gorsaf bleidleisio?

Os na ellir dychwelyd y bleidlais bost i'ch gorsaf bleidleisio, dylech roi gwybod i'r unigolyn y gall ei chyflwyno yn swyddfeydd y cyngor. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi gwybod ble y gellir cyflwyno pleidleisiau post os oes gan y cyngor sawl swyddfa yn yr awdurdod.

Fel arall, gall yr unigolyn gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am ragor o wybodaeth ar ble y gall gyflwyno'r bleidlais bost.

## Beth i'w wneud os bydd angen i mi wrthod pleidlais bost/pleidleisiau post?

Mae pedair sefyllfa pan fo'n rhaid i chi wrthod pleidlais bost/pleidleisiau post a gyflwynir.

Mae'r rhesymau hyn fel a ganlyn:

- ni wnaeth yr unigolyn gwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post yn llawn (anghyflawn)
- cyflwynodd yr unigolyn bleidleisiau post ar ran mwy na'r nifer o etholwyr a ganiateir
- mae'r unigolyn yn ymgyrchydd ac ni chaniateir iddo drin y pleidleisiau post
- ni wnaeth yr unigolyn gwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post (wedi'i gadael)

Os yw unrhyw un o'r rhesymau uchod yn gymwys i'r pleidleisiau post a gyflwynwyd, rhaid i chi gwblhau adran 3B y ffurflen dychwelyd pleidleisiau post, gan dicio pa un o'r rhesymau uchod sy'n gymwys a nifer y pleidleisiau post i'w gwrthod.

Ar ôl gwrthod y bleidlais bost/pleidleisiau post, dylid atodi'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post wedi'i chwblhau i'r bleidlais bost/bwndel o bleidleisiau post a wrthodwyd a'u rhoi yn y pecyn ar gyfer pleidleisiau post a wrthodwyd.

Dylid selio'r pecyn hwn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio a'i drosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

## Beth os na fydd unigolyn am gwblhau'r ffurflen?

Esboniwch i'r unigolyn fod yn rhaid cwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post yn gywir yn ôl y gyfraith ac na ellir cyflwyno'r pleidleisiau post hebddi. Bydd unrhyw bleidleisiau post a gaiff eu gadael yn yr orsaf bleidleisio heb i'r ffurflen gael ei chwblhau yn cael eu gwrthod.

Os bydd yr unigolyn yn mynnu gadael y bleidlais bost/pleidleisiau post heb gwblhau ffurflen, dylech gwblhau adran 3B o'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post, gan dicio'r opsiwn sy'n dweud na wnaeth yr unigolyn gwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post yn llawn, ei hatodi i'r bleidlais bost/pleidleisiau post a rhoi'r bwndel yn y pecyn ar gyfer pleidleisiau post a wrthodwyd.

### Beth os bydd unigolyn am gyflwyno pleidleisiau post ar gyfer mwy na 5 person arall?

Dim ond eu pleidlais bost eu hunain a phleidleisiau post hyd at 5 person arall y gall unigolion eu cyflwyno.

Dylai'r unigolyn benderfynu pa bleidleisiau post y mae'n dymuno eu cyflwyno. Caiff adael yr orsaf bleidleisio er mwyn penderfynu.

Gall yr unigolyn gyflwyno'r nifer o bleidleisiau post a ganiateir a gadael yr orsaf bleidleisio gyda'r pleidleisiau post sy'n weddill.

Os bydd yr unigolyn yn mynnu cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer mwy na 5 person arall, rhaid gwrthod pob un o'r pleidleisiau post ar gyfer y bobl eraill. Dim ond pleidlais bost yr unigolyn ei hun y gallwch ei derbyn.

Yn y sefyllfa hon, rhaid cwblhau'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post gyda'r wybodaeth ganlynol:

- yn adrannau 1 a 2, manylion yr unigolyn a'r bleidlais bost i'w chyflwyno (os yw'n dychwelyd ei bleidlais bost ei hun)
- yn adran 3, y ffaith bod pleidlais bost yr unigolyn wedi cael ei derbyn (rhan 3A a rhan 3B), a nifer y pleidleisiau post eraill a'r rheswm dros eu gwrthod (rhan 3B)

Rhaid atodi'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post wedi'i chwblhau i'r pleidleisiau post a wrthodwyd a'u cadw yn y pecyn ar gyfer pleidleisiau post a wrthodwyd.

Gellir rhoi'r bleidlais bost a dderbyniwyd yn y pecyn ar gyfer pleidleisiau post a dderbyniwyd.

Ni ddylech helpu'r unigolyn i benderfynu pa bleidlais bost yw ei bleidlais bost ei hun.

### Beth os nad yw unigolyn yn siŵr a yw'n ymgyrchydd gwleidyddol?

Diffinnir ymgyrchydd gwleidyddol mewn deddfwriaeth ac mae'n cynnwys ymgeiswyr, asiantiaid a gweithwyr plaid. Ni ddylech roi cyngor o ran a yw rhywun yn bodloni'r diffiniad hwn.

Gallwch ddangos y diffiniad o ymgyrchydd gwleidyddol i'r unigolyn, sydd wedi'i nodi ar gefn y ffurflen dychwelyd pleidleisiau post, er mwyn ei helpu i benderfynu a all gyflwyno'r bleidlais bost/pleidleisiau post.

Os yw'n ansicr o hyd, ar ôl darllen y diffiniad ar y ffurflen, dylai geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

### Beth os bydd yr unigolyn yn rhoi gwybod ei fod yn ymgyrchydd gwleidyddol (ac yn cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer pobl nad ydynt yn berthnasau agos nac yn bobl y mae'n darparu gofal iddynt)?

Rhowch wybod i'r ymgyrchydd na chaniateir iddo gyflwyno pleidleisiau post heblaw am ei bleidlais bost ei hun, neu bleidleisiau post perthnasau agos neu bobl y mae'n darparu gofal iddynt.

Os bydd wedi nodi nad yw'r holl bleidleisiau post yn perthyn i berthnasau agos neu rywun y mae'n darparu gofal iddo, a'i fod yn mynnu ei fod am eu cyflwyno, dylech roi gwybod iddo:

- ei bod yn drosedd i ymgyrchwyr gwleidyddol drin pleidleisiau post heblaw am eu pleidleisiau post eu hunain, pleidleisiau post perthnasau agos neu bleidleisiau post pobl y maent yn darparu gofal iddynt
- bydd unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir sy'n perthyn i bobl eraill heblaw am y rhai a nodir uchod yn cael eu gwrthod
- bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn hysbysu'r heddlu os bydd yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni

Dylech ofyn i'r ymgyrchydd gwleidyddol roi'r pleidleisiau post i chi. Rhaid cofnodi manylion y pleidleisiau post a wrthodwyd yn adran 3B o'r ffurflen a'i hatodi i'r pleidleisiau post a wrthodwyd.

Os bydd yr ymgyrchydd gwleidyddol yn gwrthod rhoi'r pleidleisiau post i chi ac yn gadael yr orsaf bleidleisio, dylech gofnodi'r manylion yng nghofnodlyfr yr orsaf bleidleisio.

### Beth y dylwn i ei wneud os bydd unigolyn yn gadael pleidleisiau post yn yr orsaf bleidleisio heb gwblhau'r ffurflen?

Os byddwch yn dod o hyd i bleidleisiau post sydd wedi cael eu gadael yn yr orsaf bleidleisio, rhaid gwrthod y rhain a chofnodi manylion y pleidleisiau post yn adran 3B o'r ffurflen dychwelyd pleidleisiau post. Yn y sefyllfa hon, caiff y pleidleisiau post eu gwrthod am na wnaeth yr unigolyn gwblhau ffurflen dychwelyd pleidleisiau post (wedi'i gadael).

### Casglu pleidleisiau post o orsafoedd pleidleisio

Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drefnu bod pleidleisiau post a dderbyniwyd yn cael eu casglu o orsafoedd pleidleisio yn ystod y diwrnod pleidleisio. Os caiff pleidleisiau post eu casglu o'r orsaf bleidleisio, dylid eu rhoi mewn pecyn a ddylai gael ei selio. Gall asiantiaid pleidleisio, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad osod eu seliau eu hunain ar y pecyn hefyd, os byddant yn dymuno.

### Beth sy'n digwydd os bydd rhywun wedi'i restru'n bleidleisiwr post (neu'n ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) ond ei fod yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost?

Weithiau, bydd etholwr neu ddirprwy penodedig yn gofyn am bapur pleidleisio ond yn darganfod ei fod wedi'i farcio ar y gofrestr etholwyr fel pleidleisiwr post.

Dylai'r Swyddog Llywyddu edrych ar y cofnod ar y gofrestr etholwyr i gadarnhau bod yr etholwr neu'r dirprwy wedi'i farcio yn bleidleisiwr post. Dylai'r Swyddog Llywyddu egluro'r amgylchiadau i'r etholwr neu'r dirprwy ac os bydd yn mynnu nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost, dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol.

Os bydd yr etholwr neu'r dirprwy wedi cael ei bleidlais bost, dylid ei hysbysu i ddychwelyd y bleidlais hon yn y ffordd arferol, gan gofio y gellir mynd â phapurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi'u cwblhau i'r orsaf bleidleisio.

Ni ellir rhoi papur pleidleisio cyffredin yn yr orsaf bleidleisio i etholwyr na dirprwyon y cofnodwyd bod pleidlais bost wedi'i hanfon atynt. Fodd bynnag, gall etholwr neu ddirprwy sy'n honni nad yw erioed wedi gwneud cais am bleidlais bost ond sydd wedi'i restru fel pleidleisiwr post, gael papur pleidleisio a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Fel arall, hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd iddynt. Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr neu'r dirprwy at y swyddfa etholiadau am gyngor ar y drefn hon.

Os yw cyn 5pm ond na all yr etholwr na'r dirprwy wneud trefniadau i gael pleidlais bost newydd neu os nad yw'n dymuno gwneud hynny, dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y drefn ar gyfer rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd yn lle hynny (gweler Atodiad 5b).

Ar ôl 5pm, ni ellir rhoi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd i'r etholwr neu'r dirprwy, felly dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y gall y Swyddog Llywyddu ei roi.

Cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig priodol (gweler Atodiad 5a).

Os bydd yr etholwr neu'r dirprwy yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, ac yn darparu math o ID ffotograffig a dderbynnir, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio a gyflwynwyd – ni ddylid rhoi papur pleidleisio cyffredin i'r etholwr neu'r dirprwy.

Ym mhob achos, dylai'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod o fanylion yr etholwr yn unol â chyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Dylai hefyd hysbysu'r etholwr i gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn enwedig os hoffai ganslo'r trefniadau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau a refferenda yn y dyfodol.

## Beth sy'n digwydd os nad yw etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) wedi cael ei bapur pleidleisio drwy'r post, neu ei fod wedi'i golli neu ei ddifetha?

Ni ellir rhoi papur pleidleisio drwy'r post newydd yn yr orsaf bleidleisio. Os bydd etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) yn datgan ei fod wedi gwneud cais am bleidlais bost ond nad yw wedi cael ei bapur pleidleisio drwy'r post neu ei fod wedi'i golli neu ei ddifetha, dylid ei gynghori i wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am bapur newydd, ar yr amod ei fod yn gwneud hynny cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Gellir rhoi papurau newydd hyd at yr amser hwnnw a dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr at y swyddfa etholiadau am gyngor ar y drefn hon.

Os bydd etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) yn cyrraedd ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn datgan ei fod wedi colli neu ddifetha ei bapur pleidleisio drwy'r post neu nad yw wedi'i dderbyn, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo os bydd yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a) ac yn darparu math o ID ffotograffig a dderbynnir.

Ni ellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd i etholwr o'r fath (neu ddirprwy o'r fath sy'n pleidleisio drwy'r post) cyn 5pm.

# Atodiad 3b – Y drefn ar gyfer pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy

## Pleidleiswyr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy

Bydd rhai etholwyr wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Er hynny, gall etholwyr bleidleisio yn bersonol ar yr amod eu bod yn gwneud hynny cyn y dirprwy ac nad yw'r dirprwy wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post. Edrychwch ar y gofrestr etholwyr i weld a yw'r etholwr eisoes wedi pleidleisio cyn dechrau rhoi'r drefn ganlynol ar waith. Bydd y llythyren '**P**' yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr yn erbyn enw unrhyw etholwr sydd wedi gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy.

Os bydd y dirprwy yn pleidleisio ei hun hefyd, dylai wneud hynny cyn pleidleisio fel dirprwy.

Yn gyntaf, gofynnwch am enw a chyfeiriad yr etholwr ac edrychwch i weld a yw wedi'i gynnwys ar y rhestr dirprwyon a gwnewch yn siŵr ei fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad.

Gofynnwch i'r dirprwy am ei ID ffotograffig, cadarnhewch fod y math o ID ffotograffig a ddarperir yn un a dderbynnir a bod y llun yn debyg i'r dirprwy, a bod yr enw ar yr ID ffotograffig yn cyfateb i'r enw ar y rhestr dirprwyon. Ar ôl i chi wirio'r ID ffotograffig, dylech ei roi yn ôl i'r dirprwy.

Os bydd unrhyw amheuaeth o ran ID ffotograffig y dirprwy, dylech uwchgyfeirio'r mater at y Swyddog Llywyddu er mwyn cael penderfyniad. (Gweler Atodiad 2b).

Cadwch gyfrif ar daflen nodiadau'r VIDEF os bydd y dirprwy yn cyflwyno Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr fel ei fath o ID a dderbynnir.

Cadwch gyfrif ar daflen nodiadau'r VIDEF os bydd y dirprwy yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat.

Edrychwch ar y BPRL a thaflen nodiadau'r VIDEF a chofnodwch os yw'r dirprwy wedi dychwelyd ar ôl cael ei wrthod yn flaenorol.

Tynnwch linell ar y rhestr dirprwyon i ddangos bod y dirprwy wedi pleidleisio.

Yna rhaid marcio cofnod yr etholwr ar y gofrestr yn y ffordd arferol. Gall y Clerc Pleidleisio ddarllen rhif etholwr yr etholwr yn uchel er mwyn helpu i gwblhau'r rhestr rhifau cyfatebol.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio sy'n gyfrifol am roi papurau pleidleisio ysgrifennu rhif etholwr yr etholwr (nid y dirprwy) ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl y rhif papur pleidleisio priodol er mwyn cofnodi bod y papur pleidleisio wedi'i roi.

Cofiwch mai dim ond i etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad y gellir rhoi papur pleidleisio. Os oes llythyren yn ymddangos o flaen cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr sy'n golygu nad oes hawl ganddo bleidleisio yn yr etholiad, ni all y dirprwy fwrw pleidlais ar ei ran.

### Y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i ddirprwyon sy'n pleidleisio ar ran etholwyr â chofnodion dienw ar y gofrestr

Er mwyn eu diogelu rhag niwed, bydd rhai etholwyr wedi'u cofrestru heb eu henw na'u cyfeiriad – hynny yw, bydd ganddynt gofnod dienw ar y gofrestr (gweler Atodiad 4). Efallai y bydd etholwyr â chofnod dienw wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Os felly, gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio: rhaid i ddirprwyon sy'n dymuno pleidleisio ar ran etholwr dienw gyflwyno eu cerdyn pleidleisio dirprwy swyddogol ac ni allant bleidleisio fel dirprwy hebddo.

Yn lle gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr, dim ond ei rif etholwr y dylid gofyn amdano a'i ddarllen yn uchel.

Cofiwch mai dim ond i etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad y gellir rhoi papur pleidleisio. Os oes llythyren yn ymddangos o flaen cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr sy'n golygu nad oes hawl ganddo bleidleisio yn yr etholiad, ni all y dirprwy fwrw pleidlais ar ei ran.

## Cymhwysedd i bleidleisio fel dirprwy

Ni chaiff person bleidleisio fel dirprwy ar ran mwy na dau etholwr mewn unrhyw etholaeth yn yr un etholiad i Senedd y DU.

Yr unig sefyllfa y gall person weithredu fel dirprwy ar gyfer mwy na dau etholwr yw os ydynt wedi'u cofrestru fel pleidleiswyr tramor neu bleidleiswyr yn y lluoedd arfog. Yn y sefyllfa hon, gall person weithredu fel dirprwy ar gyfer hyd at bedwar etholwr na all mwy na dau ohonynt fod yn etholwyr domestig (pleidleiswyr nad ydynt yn bleidleiswyr tramor nac yn bleidleiswyr yn y lluoedd arfog yw etholwyr domestig).

Os bydd person sydd wedi'i benodi i weithredu fel dirprwy i fwy nag un etholwr yn gwneud cais i arfer hawl yr etholwyr i bleidleisio, dim ond papur pleidleisio un etholwr ar y tro y dylid ei roi i'r dirprwy.

Gellir herio dirprwyon yn yr un ffordd ag y gellir herio pleidleiswyr cyffredin os amheuir eu bod yn cambersonadu. Os bydd hyn yn digwydd, gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig perthnasol (gweler Atodiad 5a).

## Beth os bydd yr etholwr yn dod i bleidleisio yn lle'r dirprwy?

Mae gan etholwr sydd wedi penodi dirprwy yr hawl i gael ei bapur pleidleisio os bydd yn gwneud cais amdano yn bersonol, ond dim ond os bydd yn gwneud hynny cyn i'r papur pleidleisio gael ei roi ar ei ran i'r dirprwy. Ni ddylid marcio'r rhestr dirprwyon os bydd hyn yn digwydd, ond dylid marcio cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr. Os bydd y dirprwy yn dod yn ddiweddarach, ni ddylid gadael iddo bleidleisio fel dirprwy ar ran y pleidleisiwr, ond os bydd yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio eto a bod y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol (gweler Atodiad 5a), yna gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Mae angen i etholwr neu ddirprwy ddarparu math o ID ffotograffig a dderbynnir o hyd cyn y gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo.

Os bydd y dirprwy wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, ni ellir rhoi papur pleidleisio i'r etholwr. Bydd y llythyren **'A'** yn ymddangos yn erbyn enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr a bydd enw'r dirprwy a'r cyfeiriad yr anfonwyd y bleidlais bost iddo yn ymddangos ar y rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post.

## Beth sy'n digwydd os yw'n ymddangos bod rhywun arall wedi pleidleisio fel dirprwy?

Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd i ddirprwyon os yw cofnod dirprwy yn y rhestr dirprwyon a chofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr eisoes wedi'u marcio (gweler Atodiad 5b).

Dim ond ar ôl gofyn y cwestiynau rhagnodedig i ddirprwyon y dylai'r Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio a gyflwynwyd (gweler Atodiad 5b).

## Dirprwy mewn argyfwng

Gall etholwyr benodi dirprwy hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio yn achos:

- argyfwng meddygol
- os byddant wedi cael eu galw i ffwrdd yn annisgwyl oherwydd eu gwaith neu eu gwasanaeth.
- os bydd ID ffotograffig etholwr neu ddirprwy ar goll, wedi cael ei ddwyn, ei ddinistrio neu ei ddifrodi i'r fath raddau ni ellir ei ddefnyddio mwyach, neu os bydd wedi anfon ei ID i rywle ac nad yw wedi cael ei ddychwelyd neu wedi gwneud cais am ID

nad yw wedi cyrraedd mewn pryd ar gyfer y diwrnod pleidleisio

- os na fydd etholwr dienw wedi cael y Ddogfen Etholwr angenrheidiol

Os bydd rhywun yn gwneud cais ar y diwrnod pleidleisio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn sicrhau bod holl staff yr orsaf bleidleisio yn cael gwybod am y drefn briodol i'w dilyn.

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn caniatáu cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng ar y diwrnod pleidleisio, caiff y Swyddog Llywyddu perthnasol ei hysbysu am y penderfyniad yn ysgrifenedig neu dros y ffôn.

Yna dylai'r Swyddog Llywyddu nodi enw, cyfeiriad a rhif yr etholwr ac atodi'r wybodaeth hon i'r rhestr dirprwyon. Efallai fod ffurflen wag ar ddiwedd y rhestr dirprwyon at y diben hwnnw.

Unwaith y bydd penderfyniad y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ganiatáu cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yn hysbys, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi'r papur pleidleisio yn y ffordd arferol. Dylai cofnod ysgrifenedig y Swyddog Cofrestru Etholiadol (os yw ar gael) neu nodyn y Swyddog Llywyddu gael ei farcio i ddangos bod y dirprwy wedi pleidleisio ar ran yr etholwr.

# Atodiad 4 – Etholwyr â chofnod dienw ar y gofrestr

Er mwyn eu diogelu rhag niwed, bydd rhai etholwyr wedi'u cofrestru heb eu henw na'u cyfeiriad. Bydd ganddynt gofnod dienw ar y gofrestr, fel y'i gelwir, a fydd yn cynnwys eu rhif etholwr a'r llythyren **'N'**. Efallai y bydd gan rai o'r etholwyr hyn lythrennau eraill sy'n gosod amodau ar eu cymhwysedd i bleidleisio mewn etholiadau penodol (gweler Pennod 5 am fanylion).

Os bydd cofrestr yn cynnwys cofnodion dienw, byddant yn ymddangos ar ddiwedd y gofrestr o dan yr adran 'etholwyr eraill'. Mae'n bwysig cofio mewn gorsaf bleidleisio sydd wedi'i rhannu'n ddwy y gallai eu cofnod ymddangos ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio arall.

Mae'r drefn ar gyfer rhoi papur pleidleisio i etholwr dienw yn wahanol i'r drefn ar gyfer etholwyr cyffredin.

## Gweithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwyr â chofnod dienw

Yn wahanol i etholwyr cyffredin, **rhaid** i etholwyr dienw gael cerdyn pleidleisio a Dogfen Etholwr ac ni allant bleidleisio heb y ddwy ddogfen hyn.

- gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio – ni fydd yn cynnwys eu henw na'u cyfeiriad ond bydd yn cynnwys eu rhif etholwr
- edrychwch ar y gofrestr – dylai fod **'N'** i'w weld yn y cofnod ar gyfer y rhif etholwr hwnnw, yn hytrach nag enw a chyfeiriad
- gofynnwch i'r etholwr ddarparu ei Ddogfen Etholwr – cadarnhewch eich bod yn fodlon bod y llun yn debyg i'r etholwr, a chadwch gyfrif ar daflen nodiadau'r VIDEF er mwyn cofnodi bod etholwr wedi cyflwyno Dogfen Etholwr
- edrychwch ar y BPRL a thaflen nodiadau'r VIDEF a chofnodwch os yw'r etholwr wedi dychwelyd ar ôl cael ei wrthod yn flaenorol
- tynnwch linell syth yn erbyn cofnod yr etholwr ar y gofrestr
- peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr – galwch allan ei rif etholwr yn unig
- ysgrifennwch rif yr etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol
- rhowch y papur pleidleisio ac yna dychwelwch y cerdyn pleidleisio i'r etholwr

Gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig i bleidleisiwr â chofnod dienw ar y gofrestr hefyd, ond caiff ei enw a'i gyfeiriad eu hepgor (gweler Atodiad 5a).

## Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb gerdyn pleidleisio?

Os bydd wedi anghofio ei gerdyn pleidleisio, gofynnwch iddo ddychwelyd i'r orsaf bleidleisio yn nes ymlaen gyda'i gerdyn pleidleisio. Os bydd yn honni nad yw wedi cael un neu ei fod wedi'i golli, gofynnwch iddo gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith. Os caiff cerdyn pleidleisio newydd ei roi a bod yr etholwr yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio yn ddiweddarach gyda'r cerdyn hwn, rhaid rhoi papur pleidleisio yn y ffordd a ddisgrifir uchod.

## Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb Ddogfen Etholwr?

Os bydd wedi anghofio ei Ddogfen Etholwr, gofynnwch iddo ddychwelyd i'r orsaf bleidleisio yn nes ymlaen gyda'r ddogfen hon. Ni ellir derbyn unrhyw fath arall o ID ffotograffig ar gyfer etholwyr dienw.

Os bydd yn honni nad yw wedi cael un neu ei fod wedi'i golli, gofynnwch iddo gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith.

## Beth os bydd etholwr â chofnod dienw yn gofyn am i'w ID gael ei wirio'n breifat?

Os bydd etholwr dienw yn gofyn am i'w ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat, dylech drefnu iddo fynd i'r ardal breifat a osodwyd at y diben hwn. Dylid cynnal y gwiriad yn yr un ffordd ag etholwyr eraill (fel y nodir ym Mhennod 5).

# Atodiad 5a – Y cwestiynau rhagnodedig

Gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig i unrhyw etholwr neu ddirprwy.

Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig mewn ffordd gywir a digynnwrf o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo etholwr (sydd heb benodi dirprwy) yn gwneud cais am bapur pleidleisio ond bod y gofrestr etholwyr yn dangos ei fod wedi pleidleisio eisoes. O dan yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed os bydd yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae hawl gan yr etholwr eu cael.
- Pan fo cofnod dirprwy ar y rhestr dirprwyon wedi'i farcio eisoes a bod cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr wedi'i farcio hefyd. Ar ôl ateb y cwestiynau'n foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae hawl gan yr etholwr neu'r dirprwy eu cael.
- Pan fo dirprwy yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio ar ôl i'w gais i fwrw pleidlais fel dirprwy gael ei wrthod am fod y gofrestr etholwyr yn dangos bod yr etholwr wedi pleidleisio yn bersonol (yn yr achos hwn, ni fyddai'r rhestr dirprwyon wedi'i marcio), a'i fod yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio. Os bydd yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, bydd ganddo hawl i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd.
- Pan fo enw etholwr (neu ddirprwy) yn ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post (neu'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post) ond ei fod yn datgan na wnaeth gais i bleidleisio drwy'r post. Os bydd yr etholwr (neu'r dirprwy) yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo.
- Pan fo etholwr (neu ddirprwy) y mae ei enw yn ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post (neu'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post) yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni ei fod wedi colli neu ddifetha ei bapur pleidleisio drwy'r post neu nad yw wedi ei gael o gwbl. Os bydd yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y bydd hawl gan yr etholwr (neu ddirprwy) ei gael.
- Pan fo ymgeisydd, asiant etholiad neu asiantiaid pleidleisio yn gofyn i'r cwestiynau gael eu gofyn. Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, bydd hawl gan yr unigolyn i gael papur pleidleisio cyffredin.

Dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd ofyn y cwestiynau rhagnodedig perthnasol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo etholwr yn dweud bod ei enw'n wahanol i'r un a gofnodir ar y gofrestr etholwyr. Wrth ateb y cwestiynau rhagnodedig, os gall yr etholwr gadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio ato, bydd hawl ganddo i gael papur pleidleisio cyffredin.
- Pan fo staff gorsaf bleidleisio yn amau etholwr neu ddirprwy o gambersonadu. Wrth ateb y cwestiynau rhagnodedig, os gall yr etholwr gadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio ato, bydd hawl ganddo i gael papur pleidleisio cyffredin.
- Pan fo'r etholwr wedi'i gofrestru fel rhywun sy'n gymwys i bleidleisio er ei fod yn amlwg o dan oedran. Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, bydd hawl gan yr unigolyn i gael papur pleidleisio cyffredin.

Ni ellir ymholi ynghylch hawl unrhyw berson i bleidleisio, heblaw am y cwestiynau statudol a ddangosir drosodd.

Dim ond i unrhyw un sydd wedi ateb y cwestiynau yn gywir **ac** sydd wedi dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir y gall y Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Ni ellir defnyddio'r cwestiynau rhagnodedig i ddiystyru amheuaeth resymol o ran tebygrwydd

etholwr i'r llun ar ei ID ffotograffig neu pan fo'n ymddangos mai dogfen ffug yw'r ID ffotograffig.

Os bydd person yn gwrthod ateb y cwestiynau, yna ni ellir rhoi papur pleidleisio cyffredin na phapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol. Os bydd y person hwnnw'n dychwelyd yn ddiweddarach, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig iddo unwaith eto.

## Y wybodaeth ofynnol y mae angen ei rhoi i berson cyn gofyn y cwestiynau rhagnodedig ym mhob senario

Os penderfynir gofyn y cwestiynau rhagnodedig i bleidleisiwr, mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol cyn gofyn y cwestiynau.

Cyn gofyn y cwestiynau rhagnodedig i berson, mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu ei hysbysu'n gyntaf:

- y caiff papur pleidleisio ei wrthod os na fydd y person yn ateb pob cwestiwn yn foddhaol,
- y gall rhoi gwybodaeth ffug fod yn drosedd

Pryd bynnag y bydd y Swyddog Llywyddu yn gwrthod rhoi papur pleidleisio am nad yw'r etholwr wedi ateb un o'r cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, mae'n rhaid i staff yr orsaf bleidleisio edrych ar y Rhestr o Bapurau Pleidleisio a Wrthodwyd (BPRL) i weld a yw'r etholwr eisoes wedi cael ei gofnodi:

- Os yw'r unigolyn eisoes wedi'i gofnodi, dylid diweddaru'r cofnod presennol er mwyn cofnodi ei fod wedi cael ei wrthod eto, gan roi'r rhif ‘3’ yn y golofn ar gyfer y rheswm dros wrthod.
- Os nad yw'r unigolyn wedi cael ei gofnodi eisoes, crëwch gofnod newydd yn cynnwys rhif etholwr y pleidleisiwr (neu enw a chyfeiriad y dirprwy) a rhowch y rhif ‘3’ yn y golofn ar gyfer y rheswm dros wrthod.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel etholwr

**‘Beth yw eich enw?’**

Os na all yr etholwr roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd yr etholwr yn rhoi ei enw, gofynnwch:

**‘Beth yw eich cyfeiriad?’**

Os na all yr etholwr roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd yr etholwr yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, gofynnwch:

**‘Ai chi yw'r person sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr seneddol ar gyfer yr etholiad hwn fel a ganlyn (rhaid i chi ddarllen yn uchel y cofnod cyfan o'r gofrestr)’?’**

Os mai ‘na’ yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai ‘ie’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall, ac eithrio fel dirprwy ar ran rhywun arall?’**

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os yw'r person wedi ateb ‘ie’ i'r cwestiwn cyntaf a ‘nac ydw’ i'r ail gwestiwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd fel y bo'n briodol.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy (ond nid ar ran etholwr â chofnod dienw)

Mae'r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon wedi'u geirio'n wahanol:

**‘Beth yw eich enw?’**

Os na all y dirprwy roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi ei enw, gofynnwch:

**‘Beth yw eich cyfeiriad?’**

Os na all y dirprwy roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, gofynnwch:

**‘Ai chi yw'r person y mae ei enw yn ymddangos fel a ganlyn (darllenwch yn uchel yr enw sy'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon) yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel rhywun sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran (darllenwch yn uchel enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr)?’**

Os mai ‘na’ yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘ie’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall, fel dirprwy ar ran (enw'r etholwr ar y gofrestr)?’**

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran pedwar etholwr neu fwy?’**

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio.

Fodd bynnag, os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran dau etholwr neu fwy?’**

Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

**‘A oedd dau neu fwy o'r etholwyr y gwnaethoch bleidleisio ar eu rhan yn yr etholiad hwn wedi'u cofrestru mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’**

Os mai ‘nac oedd’ yw'r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘oedd’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A yw'r etholwr (neu'r etholwyr) rydych yn pleidleisio ar ei ran (neu ar eu rhan) heddiw wedi'i gofrestru (neu wedi'u cofrestru) mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’**

Os mai ‘ydy/ydynt’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘nac ydy/nac ydynt’ yw'r ateb (a bod y cwestiynau uchod wedi'u hateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd fel y bo'n briodol

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr â chofnod dienw

**‘Beth yw eich enw?’**

Os na all y dirprwy roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi ei enw, gofynnwch:

**‘Beth yw eich cyfeiriad?’**

Os na all y dirprwy roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, gofynnwch:

**‘Ai chi yw'r person y mae hawl ganddo i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif (darllenwch yn uchel y rhif o'r gofrestr) ar y gofrestr etholwyr?’**

Os mai ‘na’ yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘ie’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif (darllenwch yn uchel rif yr etholwr o'r gofrestr) ar y gofrestr etholwyr?’**

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio. Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, rhaid i chi hefyd ofyn:

**‘A ydych eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran pedwar etholwr neu fwy?’**

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid rhoi papur pleidleisio.

Fodd bynnag, os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, gofynnwch:

**‘A ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran dau etholwr neu fwy?’**

Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

**‘A oedd dau neu fwy o'r etholwyr y gwnaethoch bleidleisio ar eu rhan yn yr etholiad hwn wedi'u cofrestru mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’**

Os mai ‘nac oedd’ yw'r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘oedd’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

**‘A yw'r etholwr (neu'r etholwyr) rydych yn pleidleisio ar ei ran (neu ar eu rhan) heddiw wedi'i gofrestru (neu wedi'u cofrestru) mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’**

Os mai ‘ydy/ydynt’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘nac ydy/nac ydynt’ yw'r ateb (a bod y cwestiynau uchod wedi'u hateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd fel y bo'n briodol.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio yn bersonol pan fo'n ymddangos ar y gofrestr fel pleidleisiwr post

Mae'r cwestiynau rhagnodedig canlynol ar gyfer etholwyr sy'n ymddangos ar y gofrestr fel pleidleiswyr post, ond:

- sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu
- sy'n mynd i'r orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli eu papur pleidleisio drwy'r post neu nad ydynt wedi ei gael o gwbl.

**‘Beth yw eich enw?’**

Os na all yr etholwr roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd yr etholwr yn rhoi ei enw, gofynnwch:

**‘Beth yw eich cyfeiriad?’**

Os na all yr etholwr roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd yr etholwr yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, gofynnwch:

**'A wnaethoch gais am bleidlais bost?'**

Os mai 'naddo' yw'r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Os mai 'oedd' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

**'Pam nad ydych wedi pleidleisio drwy'r post?'**

Os atebir y cwestiwn yn foddhaol, dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Fodd bynnag, os bydd yr etholwr yn dweud nad yw wedi pleidleisio drwy'r post am ei fod wedi colli ei becyn pleidleisio drwy'r post neu heb ei gael (y pecyn cyfan neu ran ohono), dim ond ar ôl 5pm y gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy pan fo cofnod yn dangos ei fod wedi cael papur pleidleisio drwy'r post ar gyfer dirprwy

Mae'r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon sydd wedi'u henwi ar y rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu sy'n mynd i'r orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli eu papur pleidleisio drwy'r post neu nad ydynt wedi'i gael o gwbl, fel a ganlyn:

**'Beth yw eich enw?'**

Os na all y dirprwy roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi ei enw, gofynnwch:

**'Beth yw eich cyfeiriad?'**

Os na all y dirprwy roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, gofynnwch:

**'A wnaethoch gais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy?'**

Os mai 'naddo' yw'r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Os mai 'do' yw'r ateb, gofynnwch:

**'Pam nad ydych wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?'**

Os atebir y cwestiwn yn foddhaol, dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Fodd bynnag, os bydd y dirprwy yn dweud nad yw wedi pleidleisio drwy'r post am ei fod wedi colli ei becyn pleidleisio drwy'r post neu heb ei gael (y pecyn cyfan neu ran ohono), dim ond ar ôl 5pm y gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

# Atodiad 5b – Papurau pleidleisio a gyflwynwyd

## Amgylchiadau pan ddylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd

**Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn rhoi unrhyw bapur pleidleisio a gyflwynwyd.**

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu sicrhau mai dim ond o dan yr amgylchiadau rhagnodedig y rhoddir papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd:

- os bydd y gofrestr etholwyr (neu hysbysiad) yn dangos bod etholwr wedi pleidleisio'n barod
- os bydd cofnod dirprwy ar y rhestr dirprwyon wedi'i farcio'n barod a/neu fod cofnod yr etholwr a'i penododd yn ddirprwy wedi'i farcio
- os bydd etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost. Caiff ofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am becyn pleidleisio drwy'r post newydd hyd at 5pm, ond gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo ar unrhyw adeg os yw'n dymuno
- os bydd ar ôl 5pm a bod etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni ei fod wedi colli neu ddifetha ei bleidlais bost neu ei fod heb gael ei bleidlais bost o gwbl

Os caiff papurau pleidleisio a gyflwynwyd eu rhoi drwy gamgymeriad, rhaid i'r Swyddog Llywyddu gofnodi rhifau cyfresol y papurau pleidleisio a gyflwynwyd a gafodd eu rhoi drwy gamgymeriad a hysbysu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn gynted â phosibl.

Cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd, dylai'r Swyddog Llywyddu egluro'r amgylchiadau i'r etholwr (neu'r dirprwy) ac wedyn rhaid iddo ofyn y cwestiynau rhagnodedig sy'n berthnasol i'w sefyllfa (gweler Atodiad 5a).

Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn i'r etholwr neu'r dirprwy ddarparu ei ID ffotograffig.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gadarnhau bod y ddogfen yn fath o ID ffotograffig a dderbynnir a'i fod yn fodlon ei bod yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr ac nad yw'r ddogfen yn un ffug.

Os bydd yn fodlon, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Yna, dylai'r Swyddog Llywyddu egluro'r drefn ar gyfer pleidlais a gyflwynwyd i'r etholwr (neu'r dirprwy).

## Y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd

Ar ôl i'r cwestiynau rhagnodedig gael eu hateb yn foddhaol, a gwirio ID ffotograffig yr etholwr, rhaid ysgrifennu rhif etholwr yr etholwr (gan gynnwys cyfeirnod y dosbarth etholiadol) yn erbyn rhif y papur pleidleisio a gyflwynwyd sy'n cael ei roi ar y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd.

Sicrhewch fod y papur pleidleisio a gyflwynwyd yn cynnwys y marc swyddogol, plygwch y papur ac yna rhowch ef i'r pleidleisiwr neu'r dirprwy **heb ei blygu** fel y gall weld yr holl ymgeiswyr sydd ar y papur pleidleisio. Yna rhaid iddo bleidleisio yn gyfrinachol, plygu'r papur pleidleisio a gyflwynwyd a'i ddychwelyd i'r Swyddog Llywyddu.

Ni ddylid rhoi'r papur pleidleisio a gyflwynwyd yn y blwch pleidleisio. Er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd, dylai'r Swyddog Llywyddu

sefyll wrth ymyl y blwch pleidleisio a gorchuddio'r twll.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gymryd y papur pleidleisio a gyflwynwyd sydd wedi'i blygu a'i arnodi ag enw'r pleidleisiwr ynghyd â'i rif etholwr (gan gynnwys cyfeirnod y dosbarth etholiadol) a'i osod yn yr amlen swyddogol a ddarperir. Yna, rhaid iddo gofnodi rhif etholwr ac enw'r pleidleisiwr ar y ‘Rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd’.

Os bydd dirprwy yn pleidleisio ar ran etholwr, peidiwch ag arnodi'r papur pleidleisio a gyflwynwyd ag enw'r dirprwy, ond yn hytrach â rhif etholwr yr etholwr. Cofnodwch rif yr etholwr, ynghyd ag enw'r dirprwy, ar y ‘Rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd’.

## Rhesymau dros gwblhau papur pleidleisio a gyflwynwyd

Weithiau, mae'n bosibl y bydd pleidleiswyr yn gofyn pam eu bod yn cael cynnig papur pleidleisio a gyflwynwyd. Er na chaiff papurau pleidleisio a gyflwynwyd eu cynnwys yn y cyfrif, mae papur pleidleisio a gyflwynwyd yn dangos bod gan bleidleisiwr bryder am drefn cynnal yr etholiad ar y cam pleidleisio, yn hytrach nag ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi. Felly, papurau pleidleisio a gyflwynwyd yw'r cam cyntaf yn y broses o wneud cwyn am y broses etholiadol. Os na fydd pleidleisiwr yn cymryd y cam hwn, gallai olygu nad oes cofnod ffurfiol ar gael i ddangos ei fod wedi ceisio, ond methu, bwrw ei bleidlais.

Yn ogystal, bob tro y rhoddir papur pleidleisio a gyflwynwyd, cofnodir enw'r pleidleisiwr a'i rif etholwr ar y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd. Mae'r rhestr hon yn galluogi'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i weld a oes unrhyw batrymau cambersonadu posibl yn ei ardal.

# Atodiad 6 – Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio

Y Swyddog Llywyddu sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr orsaf bleidleisio. Mae pleidleiswyr yn disgwyl i orsafoedd pleidleisio gael eu rhedeg mewn ffordd drefnus a digynnwrf.

## Cadw trefn

Rhaid i Swyddogion Llywyddu gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio. Mae ganddynt y pŵer i orchymyn bod person yn cael ei hebrwng o'r orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, rhaid gadael i bleidleiswyr cymwys bleidleisio cyn iddynt gael eu hebrwng allan. Dylai Swyddog Llywyddu sy'n gorchymyn i berson gael ei hebrwng allan, gofnodi manylion y digwyddiad a'i drosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Ni all person sydd wedi cael ei hebrwng o'r orsaf bleidleisio ac sydd heb bleidleisio fynd yn ôl i mewn i'r orsaf heb ganiatâd y Swyddog Llywyddu. Os bydd y person yn dychwelyd ac yn ymddwyn yn weddus, rhaid rhoi cyfle iddo bleidleisio.

Ni cheir diffiniad cyfreithiol o gwmpas yr orsaf bleidleisio ond mae'n golygu'r ystafell bleidleisio o leiaf.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi eich hysbysu os bydd hanes o anhrefn cyhoeddus sy'n effeithio ar eich gorsaf bleidleisio benodol a'r dalgylch. Yn yr amgylchiadau hynny'n arbennig, dylech gynnal archwiliadau rheolaidd o'r ardal o amgylch eich gorsaf bleidleisio. Gwneir hyn er mwyn sicrhau na chaiff pleidleiswyr eu rhwystro rhag mynd i mewn i'w gorsaf bleidleisio. Er ei bod yn bwysig cynnal yr archwiliadau hyn, os bydd yr orsaf bleidleisio yn brysur, arhoswch nes iddi dawelu cyn cynnal yr archwiliad nesaf.

### Ymdrin â honiadau o droseddau

Mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu fod yn wyliadwrus o unrhyw droseddau posibl a allai ddigwydd yn yr orsaf bleidleisio, er enghraifft, unigolyn yn ceisio ymyrryd â phleidlais unigolyn arall neu'n ceisio cael gwybodaeth am y bleidlais.

Os byddwch yn gweld trosedd o'r fath yn digwydd, neu'n cael gwybod am un, rhaid i chi geisio ei hatal ac ymyrryd gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i chi i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.

Hefyd, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw droseddau yr amheuir eu bod wedi'u cyflawni yn yr orsaf bleidleisio.

## Aflonyddwch neu ddigwyddiadau difrifol a gohirio'r bleidlais

Bydd yr heddlu wedi cael gwybod am leoliad gorsafoedd pleidleisio. Efallai y caiff swyddogion yr heddlu (a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru a Lloegr) ddyletswyddau'n ymwneud â gorsafoedd pleidleisio ac efallai y byddant yn ymweld â hwy yn ystod y dydd. Os bydd anhrefn yn yr orsaf bleidleisio yn ystod y dydd, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i'w hysbysu o'r sefyllfa. Os bydd angen, cysylltwch â'r heddlu i ddelio â'r broblem.

Os bydd aflonyddwch neu ddigwyddiad difrifol e.e. pryder ynghylch bom, tân, llifogydd ac ati, mae'n bosibl y gofynnir i'r Swyddog Llywyddu wacáu'r lleoliad neu efallai y bydd yn penderfynu gwneud hynny. Os bydd y gwasanaethau brys yn gofyn am i'r adeilad gael ei wacáu, rhaid gwneud hyn. Hysbyswch y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith a gofynnwch am arweiniad ar unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd.

Peidiwch byth â pheryglu diogelwch personol y pleidleiswyr nac aelodau eraill o dîm yr orsaf bleidleisio, na pheri perygl o anaf i berson. Os yw'n bosibl gwneud hynny heb beryglu diogelwch personol, gellir symud holl

ddeunyddiau sensitif yr etholiad (y blwch pleidleisio, papurau pleidleisio, cofrestr etholwyr ac ati) o'r adeilad a'u cadw dan ofal staff yr orsaf bleidleisio. Dylech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unrhyw asiantiaid neu arsylwyr sy'n bresennol am yr hyn rydych yn ei wneud.

Os bydd yn rhaid gadael y safle, sefydlwch orsaf bleidleisio dros dro mewn man sydd bellter diogel o'r aflonyddwch neu'r digwyddiad difrifol. Efallai y bydd digon o le wrth fynedfa'r adeilad, neu hyd yn oed y tu allan i'r adeilad. Mewn rhai achosion, mae Swyddogion Llywyddu wedi defnyddio cefn car. Beth bynnag fo'r sefyllfa, rhaid i bleidleiswyr allu pleidleisio'n ddiogel ac yn gyfrinachol o 7am ymlaen.

P'un a fu toriad yn y pleidleisio ai peidio, rhaid i'r orsaf bleidleisio gau am 10pm o hyd. Fodd bynnag, dylid nodi'r amser pan na fu modd i'r orsaf bleidleisio weithredu.

Yn yr achos mwyaf eithafol, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn caniatáu i'r Swyddog Llywyddu ohirio'r bleidlais tan y diwrnod canlynol. Os caiff y bleidlais ei gohirio, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn trefnu bod deunyddiau'r etholiad yn cael eu casglu.

**Rhaid i Swyddogion Llywyddu beidio â gohirio'r bleidlais heb ganiatâd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).**

## Delio â sefyllfaoedd anodd

Mae'n bosibl y daw staff gorsafoedd pleidleisio ar draws sefyllfaoedd anodd neu ymddygiad bygythiol yn ystod y diwrnod pleidleisio.

Gallai'r camau canlynol helpu staff gorsafoedd pleidleisio i ddelio â sefyllfaoedd a allai fod yn anodd neu'n heriol:

- **Gwrandewch ar y pleidleisiwr** – mae'n arfer dda edrych ar y person pan fo'n siarad, gan ddangos diddordeb.
- **Dangoswch ddealltwriaeth** – gadewch i'r person wybod eich bod yn gwneud eich gorau i ddeall y broblem o'i safbwynt ef. Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith bod penderfyniad gwybodus yn cael ei ystyried.
- **Holwch** – gofynnwch i'r person a oes unrhyw wybodaeth berthnasol arall y gall ei rhoi a allai helpu i hwyluso'r broses.
- **Crynhowch** – rhowch yr ymateb a'r rheswm drosto. Peidiwch â dechrau dadlau.

# Atodiad 7 – Y drefn ar gyfer delio â chambersonadu

## Beth sy'n digwydd os bydd staff gorsaf bleidleisio yn amau bod rhywun yn cambersonadu etholwr neu ddirprwy?

Ar adegau prin, mae'n bosibl y bydd aelod o dîm yr orsaf bleidleisio, etholwr arall, asiant etholiad, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn amau bod person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio yn esgus bod yn rhywun arall. Gelwir hyn yn gambersonadu ac mae'n drosedd ddifrifol.

Cofiwch nad yw person, heblaw am ddirprwy, yn euog o gambersonadu os bydd yn gwneud cais am bapur pleidleisio dan enw gwahanol i'w enw ei hun, ar yr amod mai o dan yr enw hwn y cafodd ei gofrestru.

Rhaid i Swyddogion Llywyddu beidio â chroesholi person os ydynt yn amau ei fod yn cambersonadu. Dim ond y cwestiynau rhagnodedig y gellir eu gofyn. Rhaid gofyn y cwestiynau hyn i'r person cyn rhoi papur pleidleisio iddo, nid ar ôl hynny (gweler Atodiad 5a).

Mae'r cwestiynau rhagnodedig yn pennu p'un ai'r etholwr yw'r person sy'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr (neu'r rhestr dirprwyon os yw'n pleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall), a ph'un a yw'r etholwr wedi pleidleisio o'r blaen yn yr etholiad (neu ar ran yr etholwr hwnnw, os mai dirprwy ydyw).

Os bydd y person yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, ac yn darparu math o ID ffotograffig a dderbynnir a bod y Swyddog Llywyddu yn fodlon ei fod yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr ac nad yw'n ddogfen ffug, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin. Fodd bynnag, dylai'r Swyddog Llywyddu roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am ei amheuon cyn gynted â phosibl.

Os ceir gwrthdaro, neu os yw'n rhesymol disgwyl y bydd gwrthdaro, dylai'r Swyddog Llywyddu ystyried ei ddiogelwch ei hun a diogelwch pawb arall sy'n bresennol fel blaenoriaeth. Gellir ystyried ffyrdd eraill o helpu ymchwiliadau yn y dyfodol, er enghraifft, cofnodi rhifau cofrestru cerbydau a chadw eitemau a gafodd eu cyffwrdd gan berson sy'n rhan o ddigwyddiad, os yw'n ddiogel gwneud hynny, nes i swyddog yr heddlu gyrraedd.

Os caiff person ei arestio ar amheuaeth o gambersonadu neu ar amheuaeth ei fod ar fin cambersonadu, ni ddylid atal y person rhag pleidleisio cyn belled â'i fod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol ac yn darparu math o ID ffotograffig a dderbynnir a bod y Swyddog Llywyddu yn fodlon ei fod yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr ac nad yw'n ddogfen ffug.

## Beth sy'n digwydd os bydd asiant etholiad, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr?

Os bydd asiant etholiad, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr (drwy'r Swyddog Llywyddu), ni ddylid atal y pleidleisiwr rhag pleidleisio cyn belled â'i fod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn gywir ac yn darparu math o ID ffotograffig a dderbynnir a bod y Swyddog Llywyddu yn fodlon ei fod yn cynnwys llun sy'n debyg i'r etholwr ac nad yw'n ddogfen ffug.

## Beth sy'n digwydd os bydd yn ymddangos bod rhywun arall (heblaw am ddirprwy) wedi pleidleisio ar ran y pleidleisiwr?

Ar adegau prin, bydd person yn gofyn am bapur pleidleisio ac yn darganfod bod ei enw ar y gofrestr etholwyr wedi'i farcio i ddangos ei fod

wedi pleidleisio eisoes. Os bydd yn ymddangos bod rhywun arall heblaw am ei ddirprwy penodedig wedi pleidleisio ar ran etholwr, dylid dilyn y broses ar gyfer pleidleisiau a gyflwynwyd a nodir yn Atodiad 5b.

# Atodiad 8 – Canllawiau ar rifwyr, y cyfryngau ac arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio

## Rhifwyr

Mae rhifwyr yn gwirfoddoli i bleidiau ac ymgeiswyr. Maent yn sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio neu fannau pleidleisio ac yn cofnodi rhifau etholwyr sydd wedi pleidleisio. Drwy nodi etholwyr nad ydynt wedi pleidleisio a rhoi'r wybodaeth hon i'r blaid, yr ymgeisydd neu eu cefnogwyr, mae rhifwyr yn chwarae rhan hanfodol a phwysig mewn etholiadau. Gall y blaid, yr ymgeisydd neu eu cefnogwyr gysylltu â'r pleidleiswyr nad ydynt wedi bod i bleidleisio eto yn ystod y diwrnod pleidleisio a'u hannog i wneud hynny.

Ni ddylai fod mwy nag un rhifwr mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg ar gyfer pob ymgeisydd. Pan fydd man pleidleisio yn cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio â gwahanol fynedfeydd, gall fod yn briodol cael rhifwyr wrth bob un, ond dim mwy nag un ar gyfer pob ymgeisydd.

Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu ei staff roi rhagor o arweiniad ar weithgareddau rhifwyr.

**Rhaid i rifwyr wneud y canlynol:**

- aros y tu allan i'r orsaf bleidleisio bob amser
- dim ond mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i fwrw eu pleidlais eu hunain, pleidleisio fel dirprwy neu fod yn gydymaith i bleidleisiwr anabl
- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog Llywyddu bob amser

**Ni chaiff rhifwyr wneud y canlynol:**

- gweld na chlywed yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i'r orsaf bleidleisio
- rhwystro neu fygylu pleidleiswyr wrth iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu adael
- mynnu cael gwybodaeth am rif etholwr, enw neu gyfeiriad pleidleisiwr
- gofyn am gael gweld neu wirio ID ffotograffig pleidleisiwr
- gofyn i bleidleiswyr ddychwelyd i'r orsaf bleidleisio i gael eu rhif etholwr
- cynnal trafodaethau â phleidleiswyr a allai arwain at honiadau o ddylanwad gormodol (e.e. bwriadau pleidleisio, ymlyniadau gwleidyddol neu ymgyrchoedd plaid)
- arddangos unrhyw ddeunydd ymgyrchu sydd o blaid neu yn erbyn unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol ar wahân i roséd neu fathodyn

**Gall rhifwyr wneud y canlynol:**

- gofyn i bleidleiswyr am wybodaeth wrth iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu adael
- arddangos roséd neu fathodyn lliw sy'n dangos enw'r ymgeisydd neu'r blaid a/neu emblem neu ddisgrifiad; ni ddylai'r rhoséd/bathodyn gynnwys slogan ac ni ddylai fod yn rhy fawr
- atgoffa etholwyr wrth iddynt ddod tuag at yr orsaf bleidleisio fod angen iddynt ddarparu ID ffotograffig

Dylai'r Swyddog Llywyddu gadw llygad ar weithgareddau rhifwyr o bryd i'w gilydd a sicrhau nad ydynt yn rhwystro'r fynedfa nac yn rhwystro pleidleiswyr rhag mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

## Y cyfryngau

Nid oes hawl gan gynrychiolwyr y cyfryngau i fynd i mewn i orsaf bleidleisio ac eithrio fel pleidleiswyr neu arsylwyr achrededig. Rhaid peidio â gadael iddynt ffilmio pleidleiswyr na chyfweld â phleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os bydd criw ffilmio yn ffilmio neu'n cynnal cyfweliadau y tu allan i'r orsaf bleidleisio, sicrhewch na chaiff pleidleiswyr eu rhwystro na'u poeni ar eu ffordd i bleidleisio, nad yw'r camerâu wedi'u lleoli mewn mannau a allai beryglu cyfrinachedd y bleidlais ac na chaiff y fynedfa i'r orsaf bleidleisio ei rhwystro.

## Arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio

Gall cwmnïau polau piniwn cyhoeddus gael eu comisiynu i drefnu arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio ar gyfer yr etholiad. Mae'n bosibl y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi cysylltu â Swyddogion Llywyddu os bydd cwmni arolygon yn bwriadu cynnal arolwg barn wrth i bobl adael yr orsaf bleidleisio Os felly, gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfwelwyr yn dod i mewn i'r orsaf bleidleisio nac yn rhwystro'r fynedfa.

# Atodiad 9 – Iechyd a diogelwch

## Iechyd a diogelwch staff yr orsaf bleidleisio ac etholwyr

Rhaid i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio fod yn ymwybodol o unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Fel rhan o hyn, dylid archwilio'r safle cyfan ynghyd â'r ardal gyfagos y tu allan. Os nodir unrhyw beryglon, mae angen ystyried sut i'w lliniaru. Cysylltwch â deiliad yr allwedd yn gyntaf, os yw hynny'n briodol ac yn bosibl.

Os bydd damwain yn digwydd i unrhyw un yn yr orsaf bleidleisio, rhaid cadw cofnod o'r digwyddiad a chofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- enw llawn a chyfeiriad y person dan sylw
- amser y ddamwain
- lleoliad y ddamwain
- manylion cryno ynghylch y ddamwain
- tystiolaeth o anaf neu ddifrod
- enw a chyfeiriad unrhyw dystion
- yr amodau ar y pryd
- y camau a gymerwyd gan staff yr orsaf bleidleisio
- enw'r meddyg neu'r parafeddyg a gafodd ei alw
- manylion unrhyw ymweliad â'r ysbyty

Dylid hysbysu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unwaith.

## Codi gwrthrychau trwm

Isod, ceir rhestr o bwyntiau a allai, os cânt eu dilyn, leihau'r risg o anaf i'r rhai sy'n codi a chario gwrthrychau:

- cyn ceisio codi neu symud unrhyw wrthrych, profwch y pwysau drwy ogwyddo'r gwrthrych er mwyn pennu pa mor drwm yw'r llwyth a ble mae'r craidd disgyrchiant
- cyn dechrau codi neu symud gwrthrychau, sicrhewch fod eich ardal waith yn glir ac yn ddirwystr
- sicrhewch fod eitemau yn cael eu cludo mor agos â phosibl at ble y byddant yn cael eu defnyddio a rhannwch y llwyth yn unedau llai a haws eu trin
- sicrhewch fod gennych afael gadarn a chyfforddus cyn codi
- sicrhewch eich bod yn gadarn ar eich traed cyn codi
- wrth godi, cadwch eich pen i fyny, eich cefn yn syth, eich traed fymryn ar wahân ac, os yw hynny'n bosibl, codwch o'ch coesau gan ddefnyddio cyhyrau eich coesau
- cadwch y gwrthrych rydych yn ei godi mor agos at eich corff â phosibl
- peidiwch â phentyrru gwrthrychau mor uchel nes peri i chi neu'ch llwyth syrthio i un ochr
- peidiwch â phentyrru gwrthrychau mor uchel fel na allwch weld i ble rydych yn mynd
- os na allwch godi neu symud y llwyth ar eich pen eich hun, gofynnwch am gymorth
- helpwch eraill i godi neu symud llwyth os bydd rhywun yn gofyn i chi wneud hynny
- peidiwch â cheisio codi na symud gwrthrych os oes gennych gyflwr meddygol sy'n golygu y gallech gael anaf (e.e. clunwst)

# Atodiad 10 – Cwestiynau cyffredin a ofynnir i staff gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio

**C. Pam mae angen i mi ddangos ID ffotograffig?**

A. Cyflwynodd Deddf Etholiadau 2022 ofyniad i bleidleiswyr ddangos ID ffotograffig cyn cael papur pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio mewn etholiadau penodol, gan gynnwys etholiadau cynghorau lleol yn Lloegr.

Nod ID pleidleiswyr yw atal cambersonadu, sef lle mae unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall.

**C. Roeddwn i'n meddwl bod gennyf ID ffotograffig ond mae ar goll/wedi'i ddifrodi/wedi cael ei ddwyn/wedi'i ddinistrio/wedi cael ei anfon i rywle neu nid yw wedi cyrraedd mewn pryd. Beth y gallaf ei wneud?**

A. **Cyn 5pm** Mae'n bosibl y gallwch benodi dirprwy i bleidleisio ar eich rhan. Y terfyn amser ar gyfer gwneud hyn yw 5pm heddiw. Gall staff yn y swyddfa etholiadau roi mwy o fanylion i chi am y drefn hon. Bydd angen i'r person rydych yn ei benodi fel eich dirprwy fod â math o ID ffotograffig a dderbynnir er mwyn gallu pleidleisio ar eich rhan.

**Ar ôl 5pm** Yn anffodus, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni roi papur pleidleisio i chi oni bai eich bod yn dangos un o'r mathau hyn o ID ffotograffig a dderbynnir.

**C. Pam na allaf ddefnyddio fy ngherdyn myfyriwr/pam nad yw mathau eraill o ID wedi'u cynnwys ar y rhestr o fathau o ID ffotograffig a dderbynnir er mwyn pleidleisio?**

A. Mae Deddf Etholiadau 2022 yn nodi'r rhestr o ddogfennau adnabod ffotograffig y gellir eu derbyn.

Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni roi papur pleidleisio i chi oni bai eich bod yn dangos un o'r mathau hyn o ID ffotograffig a dderbynnir.

**C. Beth wnaethoch ei gofnodi pan wnaethoch wirio fy ID/gwrthod rhoi papur pleidleisio i mi?**

Mae Deddf Etholiadau 2022 yn nodi'r data a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eu cofnodi yn yr orsaf bleidleisio.

**C. I bwy y gallaf gwyno os nad wyf yn fodlon bod fy ID wedi cael ei wrthod?**

A. Os ydych yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, gallwch fynegi eich pryderon i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Fodd bynnag, nid oes modd apelio yn erbyn penderfyniad y Swyddog Llywyddu i wrthod rhoi papur pleidleisio i chi am resymau sy'n ymwneud â'ch ID pleidleisiwr.

**C. Pam y mae angen i chi ysgrifennu fy rhif etholwr wrth ymyl rhif fy mhapur pleidleisio? A yw hyn yn golygu nad yw fy mhleidlais yn gyfrinachol?**

A. Mae'r gofyniad i gofnodi'r rhif etholwr ar y rhestr hon yn erbyn rhif y papur pleidleisio a roddir i chi wedi'i gynnwys yn rheolau'r etholiad. Yn ei hanfod, fersiwn fwy diweddar yw'r system hon o system sy'n dyddio o Ddeddf Pleidlais 1872, a gyflwynwyd er mwyn osgoi'r posibilrwydd y defnyddir papurau pleidleisio ffug ac er mwyn helpu i ganfod twyll honedig.

Yn amlwg, os yw'r papurau pleidleisio wedi'u rhifo, mae'n llawer anoddach i berson diegwyddor roi copïau o bapurau pleidleisio swyddogol yn y blwch pleidleisio. Os bydd gweithred dwyllodrus wedi digwydd, byddai'n

bosibl canfod y drosedd drwy gyfeirio at y rhestr rhifau cyfatebol.

Mae mesur diogelwch ar waith i atal rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol rhag cael eu cysylltu â'r papurau pleidleisio a farciwyd. Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, caiff y rhestr rhifau cyfatebol ei gosod mewn amlen wedi'i selio gan y Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio. Yna rhoddir yr amlen wedi'i selio i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Ar ôl cynnal y cyfrif, caiff y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd eu selio hefyd. Dim ond ar orchymyn barnwr o ganlyniad i ddeiseb etholiadol neu er mwyn helpu i ymchwilio i drosedd etholiadol honedig y gellir agor y pecynnau wedi'u selio. Hyd yn oed bryd hynny, anaml iawn y caiff y dogfennau eu harchwilio ac eithrio lle yr ymchwilir i achos o dwyll neu gambersonadu (h.y. rhywun yn pleidleisio'n anghyfreithlon ar ran rhywun arall).

Oherwydd y mesurau diogelu uchod, mae bron yn amhosibl i unrhyw berson fod mewn sefyllfa i gysylltu'r pleidleisiwr â phapur pleidleisio penodol.

Am y rheswm hwnnw, gall pleidleiswyr fod yn hyderus y bydd y bleidlais yn aros yn gyfrinachol. Nid oes gan bleidleiswyr unrhyw sail i ofni bod modd canfod dros bwy y gwnaethant bleidleisio, ac eithrio o dan yr amgylchiadau arbennig iawn a nodwyd uchod.

**C. Rwyf wedi anghofio anfon fy mhleidlais bost. A allaf bleidleisio yma yn yr orsaf bleidleisio yn lle hynny?**

A. Ni allwn roi papur pleidleisio cyffredin i chi yma yn yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, nid oes angen i chi bostio eich pleidlais bost er mwyn pleidleisio: gallwch fynd â'ch pleidlais bost i'ch gorsaf bleidleisio chi neu unrhyw orsaf bleidleisio arall yn yr etholaeth neu gall rhywun wneud hynny ar eich rhan. Mae gorsafoedd pleidleisio yn cau am 10pm. Fel arall, gallwch fynd â'ch pleidlais bost i'r swyddfa etholiadau yn y cyngor lleol.

**C. Nid yw fy mhleidlais bost wedi cyrraedd eto – beth y gallaf ei wneud?**

A. **Cyn 5pm:** Gallwch gael pleidlais newydd os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadau cyn 5pm heddiw. Bydd angen i chi ddod â rhyw fath o ddogfen adnabod gyda chi. Gall staff y swyddfa etholiadau roi rhagor o wybodaeth am y drefn hon a dweud wrthych pa fath o ddogfennau adnabod sy'n dderbyniol.

**Ar ôl 5pm:** Mae hawl gennych i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd. Os ydych wedi eich cynnwys ar gofrestr yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, ac yn dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir, gallwn roi un i chi.

**C. Mae fy mhleidlais bost wedi cyrraedd, ond rwyf wedi colli fy mhapur pleidleisio. Beth y gallaf ei wneud?**

A. **Cyn 5pm:** Gallwch gael pleidlais newydd os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadau cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Bydd angen i chi ddod ag unrhyw ddarnau o'ch pecyn pleidleisio drwy'r post sydd gennych o hyd a rhyw fath o brawf adnabod. Gall staff y swyddfa etholiadau roi rhagor o wybodaeth am y drefn hon a dweud wrthych pa fath o ddogfennau adnabod sy'n dderbyniol.

**Ar ôl 5pm:** Mae hawl gennych i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd. Os ydych wedi eich cynnwys ar gofrestr yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, ac yn dangos math o ID ffotograffig a dderbynnir, gallwn roi un i chi.

**C. Rwyf wedi cael fy mhleidlais bost ond rwyf wedi newid fy meddwl ac rwyf am bleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio. A allaf ganslo fy mhleidlais bost?**

A. Na allwch – unwaith y cewch bleidlais bost, rhaid i chi ei defnyddio er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn; ni ellir rhoi papur pleidleisio i chi yn yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, gallwch fynd â'ch pleidlais bost wedi'i chwblhau, ac wedi'i selio yn yr amlenni a ddarparwyd, i'ch gorsaf bleidleisio neu unrhyw orsaf bleidleisio yn yr etholaeth ar y diwrnod pleidleisio. Os hoffech ganslo eich pleidlais bost ar gyfer etholiadau a refferenda yn y

dyfodol, cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

**C. Pa ots os nad ydw i wedi cofrestru – roeddwn i'n meddwl bod hawl gan bawb i bleidleisio?**

A. Rhaid i chi fod ar y gofrestr etholiadol i allu pleidleisio. Er mwyn cael eich cynnwys ar y gofrestr a phleidleisio mewn etholiadau a refferenda yn y dyfodol, bydd angen i chi wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os ydych yn sicr eich bod wedi gwneud cais i gofrestru, cysylltwch â'r swyddfa cofrestru etholiadol.

**C. Mae fy ngŵr wedi cael damwain yn y gwaith ac wedi cael ei ruthro i'r ysbyty. Mae'n awyddus iawn i bleidleisio – a oes unrhyw beth y gellir ei wneud?**

A. Mae'n bosibl y gallai benodi dirprwy i bleidleisio ar ei ran. Y terfyn amser ar gyfer gwneud hyn yw 5pm heddiw. Gall staff yn y swyddfa etholiadau roi mwy o fanylion i chi am y drefn hon.

**C. A oes rhaid i mi ddefnyddio pensil i farcio fy mhapur pleidleisio?**
A. Gallwch bleidleisio gan ddefnyddio pin ysgrifennu neu bensil. Pensiliau a ddarperir mewn gorsafoedd pleidleisio fel arfer, ond gallwch ddewis defnyddio pin ysgrifennu. Does dim gofyniad cyfreithiol i bapurau pleidleisio gael eu marcio â phensil.

Gallwch ddod â'ch pensil neu eich pin ysgrifennu eich hun i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

Defnyddir pensiliau am resymau ymarferol: gyda phinnau ysgrifennu inc mae risg bob tro y gallent sychu neu ollwng; gall peth o inc y marc y mae'r pleidleisiwr wedi ei wneud ar y papur pleidleisio drosglwyddo i ran arall pan gaiff ei blygu, gan arwain, o bosibl, at wrthod eich pleidlais am ei fod yn edrych fel pe bai'r pleidleisiwr wedi pleidleisio dros fwy o ymgeiswyr na'r hyn a ganiateir.

Mae deddfwriaeth wedi cynnwys mesurau diogelu penodol yn y broses er mwyn atal a chanfod achosion o ymyrryd â phapurau pleidleisio: rhaid rhoi seliau ar flychau pleidleisio a chaiff ymgeiswyr ac asiantiaid fod yn bresennol ar ddiwedd y pleidleisio a defnyddio eu seliau eu hunain os mynnant; yn y ganolfan gyfrif gall ymgeiswyr ac asiantiaid archwilio eu seliau eu hunain cyn i'r blychau pleidleisio gael eu hagor.

# Atodiad 11 – Rhestr wirio ar gyfer gosod yr orsaf bleidleisio

Dylid defnyddio'r rhestr wirio hon cyn i'r bleidlais agor er mwyn sicrhau bod yr orsaf bleidleisio yn cael ei gosod yn gywir

## Y tu allan i'r orsaf bleidleisio

**Gwiriwyd**

### Mynedfa, allanfa a llwybrau

A yw'r arwyddion at yr orsaf yn glir ac a all etholwyr weld ble mae'r orsaf bleidleisio yn hawdd a ble i giwio os bydd angen? ☐

A oes lleoedd parcio wedi'u cadw i bobl anabl? ☐

A ydych wedi sicrhau nad oes peryglon rhwng y lleoedd parcio a'r fynedfa i'r orsaf bleidleisio? ☐

### Arwyddion

A ydych wedi sicrhau bod arwyddion da ar gyfer unrhyw fynedfa amgen i bobl anabl, ac a all rhywun mewn cadair olwyn eu darllen? ☐

A yw'r hysbysiad 'Sut i bleidleisio yn yr etholiad hwn' (gan gynnwys unrhyw fersiynau a ddarparwyd mewn ieithoedd a fformatau eraill) i'w weld y tu allan i'r orsaf bleidleisio ac a yw mewn man lle gall pawb sy'n pleidleisio ei ddarllen? ☐

### Mynediad gwastad

A oes ramp addas ar gael sy'n rhydd rhag rhwystrau? ☐

A yw'r ramp yn sefydlog? Os nad yw'n sefydlog, cysylltwch â'r swyddfa etholiadau ar unwaith. ☐

A yw'r matiau drws yn lefel â'r llawr? Os nad ydynt, symudwch nhw. ☐

### Mynedfeydd

A ydych wedi archwilio unrhyw ddrysau dwbl i sicrhau bod mynediad da i bawb? ☐

A oes arwyddion priodol ar gael i ddangos drws unrhyw fynedfa amgen i bobl anabl? ☐

A ydych wedi sicrhau na fydd unrhyw arwyddion a/neu hysbysiadau yn rhwystro cadeiriau olwyn, y rhai sydd ag anawsterau symudedd, neu bleidleiswyr sydd ag amhariad ar eu golwg? ☐

Os bydd teclyn tynnu sylw/cloch dros dro wedi cael ei (d)darparu, a yw'n gweithio ac yn hygyrch i bleidleiswyr? ☐

## Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio

**Gwiriwyd**

A yw'r orsaf bleidleisio wedi'i gosod er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael? ☐

Dilynwch y llwybr y bydd disgwyl i'r pleidleisiwr ei ddilyn, a gwnewch yn siŵr y bydd cynllun yr ystafell yn gweithio i bleidleiswyr, gan ystyried sut y byddant yn symud drwy'r broses bleidleisio o'r adeg pan fyddant yn dod i mewn i'r orsaf bleidleisio hyd nes y byddant yn ei gadael ☐

A fyddai cynllun yr ystafell yn gweithio pe bai grŵp o etholwyr yn aros i fwrw eu pleidlais ac a yw'n atal pleidleiswyr rhag gadael yr orsaf bleidleisio heb roi eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio? ☐

A wneir y defnydd gorau o'r goleuadau a'r golau naturiol sydd ar gael? ☐

A yw'r orsaf bleidleisio yn cael ei hawyru cymaint â phosibl? ☐

A oes seddi ar gael rhag ofn y bydd angen i etholwr eistedd i lawr? ☐

Os oes dolen sain ar gael, a yw wedi'i throi ymlaen? ☐

### Gwirio ID yn breifat

A oes ardal wedi'i gosod lle gellir gwirio ID etholwyr yn breifat? ☐

### Hysbysiadau swyddogol

A yw'r hysbysiad 'Sut i bleidleisio yn yr etholiad hwn' (gan gynnwys unrhyw fersiynau a ddarparwyd mewn ieithoedd a fformatau eraill) i'w weld y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac a yw mewn man lle gall pawb sy'n pleidleisio ei ddarllen? ☐

A yw'r hysbysiad sy'n darparu gwybodaeth am sut i farcio'r papur pleidleisio (gan gynnwys unrhyw fersiynau a ddarparwyd mewn ieithoedd a fformatau eraill) i'w weld y tu mewn i'r holl fythau bleidleisio ac a yw mewn man lle y gall pawb sy'n pleidleisio ei ddarllen? ☐

A yw'r hysbysiad sy'n cynnwys manylion y mathau o ID ffotograffig a dderbynnir y bydd angen i bleidleisiwr ei ddarparu wrth ofyn am bapur pleidleisio wedi'i osod y tu mewn i'r orsaf bleidleisio fel y gall pawb sy'n pleidleisio ei ddarllen? ☐

Wrth i chi ddilyn y llwybr y bydd disgwyl i'r pleidleisiwr ei ddilyn, a yw'r posteri a'r hysbysiadau i'w gweld yn glir, gan gynnwys i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rhai ag amhariad ar eu golwg? ☐

A ydych wedi sicrhau na chaiff yr hysbysiadau/posteri eu harddangos yng nghanol posteri eraill a fyddai'n ei gwneud yn anodd i'r etholwyr eu gweld? ☐

| **Bythau pleidleisio/blychau pleidleisio** | **Gwiriwyd** |
|---|---|
| A yw'r blwch pleidleisio wedi'i osod yn union wrth ymyl y Swyddog Llywyddu? | ☐ |
| A yw'r blwch pleidleisio wedi'i selio'n gywir? | ☐ |
| A all defnyddiwr cadair olwyn gyrraedd y blwch pleidleisio yn hawdd? | ☐ |
| A all defnyddiwr cadair olwyn fynd i mewn i'r bwth pleidleisio yn hawdd? | ☐ |
| A yw'r bythau pleidleisio wedi'u gosod yn gywir ac wedi'u lleoli'n bwrpasol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r goleuadau a'r golau naturiol? | ☐ |
| A ydych wedi sicrhau bod bythau pleidleisio wedi'u lleoli fel na all pobl y tu allan weld sut mae pleidleiswyr yn marcio eu papurau pleidleisio? | ☐ |
| A yw'r bythau pleidleisio wedi'u gosod mewn ffordd sy'n sicrhau y gall etholwyr fwrw eu pleidlais yn breifat a heb ddylanwad gan bobl y tu mewn i'r orsaf bleidleisio? | ☐ |
| A all y Swyddog Llywyddu a'r Clerc Pleidleisio eu gweld yn glir? | ☐ |
| A oes pinnau ysgrifennu/pensiliau ar gael ym mhob bwth ac a yw unrhyw bensiliau wedi'u miniogi? | ☐ |
| A yw'r llinyn sydd ynghlwm wrth y pinnau ysgrifennu/pensiliau yn ddigon hir i faint y papurau pleidleisio<br>ac i bleidleiswyr llaw dde a llaw chwith? | ☐ |
| **Sampl o bapur pleidleisio print bras â ddelir â llaw** | |
| A yw'r papur pleidleisio print bras wedi'i arddangos fel ei fod yn weladwy i bob pleidleisiwr? | ☐ |
| A yw'r sampl llaw print bras o bapur pleidleisio ar gael ac yn weladwy i bleidleiswyr? | ☐ |
| **Cyfarpar i helpu pleidleiswyr anabl** | |
| A yw'r templed cyffyrddadwy ar gael ac yn weladwy i bawb? | ☐ |
| A yw'r chwyddwydr(au) ar gael ac yn weladwy i bawb? | ☐ |
| A yw'r darn(au) gafael ar gyfer pensil ar gael ac yn weladwy i bawb? | ☐ |
| A yw pob aelod o'r staff yn gwybod sut i'w (d)defnyddio? | ☐ |
| **Papurau pleidleisio** | |
| Ai'r papurau pleidleisio hyn yw'r rhai cywir ar gyfer yr orsaf bleidleisio ac a ydynt wedi'u rhifo'n gywir a'u pentyrru yn eu trefn? | ☐ |

## Y rhestr rhifau cyfatebol

A yw rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol wedi'u hargraffu mewn trefn rifol? ☐

A yw rhifau'r papurau pleidleisio sydd wedi'u hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol yn cyd-fynd â'r rhifau ar y papurau pleidleisio? ☐

## Cofrestr Etholiadol

A oes gennych y gofrestr gywir ar gyfer eich gorsaf bleidleisio ac a yw'n cynnwys y nifer disgwyliedig o etholwyr? ☐

## Gwaith papur mewn perthynas ag ID pleidleiswyr

A yw taflen nodiadau'r VIDEF ar gyfer eich gorsaf bleidleisio yn barod gennych i'w chwblhau pryd bynnag y bydd angen yn ystod y diwrnod pleidleisio? ☐

A yw'r BPRL ar gyfer eich gorsaf bleidleisio yn barod gennych i'w chwblhau pryd bynnag y bydd angen yn ystod y diwrnod pleidleisio? ☐

## Bathodynnau i adnabod staff yr orsaf bleidleisio

A yw pob aelod o staff yr orsaf bleidleisio yn gwisgo'r bathodynnau a ddarparwyd i'w hadnabod a thynnu sylw at y ffaith y gall pleidleiswyr fynd atynt i ofyn am gymorth? ☐

# Atodiad 12 – Enghreifftiau cyffredin o ID ffotograffig a dderbynnir

Mae'r canlynol yn dangos delweddau enghreifftiol, a ddarparwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, o rai o'r mathau mwyaf cyffredin o ID ffotograffig a dderbynnir sydd gan etholwyr. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac mae mathau eraill o ID ffotograffig nad ydynt wedi'u cynnwys yma.

### Teithio rhyngwladol

Pasbortau a gyflwynwyd gan y DU, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, Tiriogaeth Dramor Brydeinig, gwladwriaeth AEE, neu un o wledydd y Gymanwlad (gan gynnwys cerdyn pasbort Iwerddon).

















### Gyrru a Pharcio

Trwydded yrru a gyflwynwyd gan y DU, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu wladwriaeth AEE (mae hyn yn cynnwys trwydded yrru dros dro).

<table>
<tr><td>Trwydded yrru'r DU (a thrwydded dros dro)</td><td>Trwydded yrru Gogledd Iwerddon (a thrwydded dros dro)</td></tr>
<tr><td>
</td><td>
</td></tr>
<tr><td>
</td><td>
</td></tr>
<tr><td>Bathodyn Glas</td><td></td></tr>
<tr><td>
</td><td>
</td></tr>
</table>


## Teithio lleol

<table>
<tr><td>Pàs Bws Person Hŷn</td><td>Pàs Bws Person Anabl</td><td>Cerdyn Oyster 60+</td></tr>
<tr><td>
</td><td>
</td><td>
</td></tr>
<tr><td>Pàs Freedom</td><td>Cerdyn Hawliad Cenedlaethol yr Alban at ddiben teithio rhatach</td><td>Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl 60 oed a hŷn</td></tr>
<tr><td>
</td><td>
</td><td>
</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl anabl | SmartPass i Bobl Hŷn a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon | SmartPass i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu SmartPass i bobl ddall a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon |
|   |   |   |
| SmartPass Anabledd Rhyfel a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon | SmartPass 60+ a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon | SmartPass Hanner Pris Tocyn a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon |
|   |   |   |

### Prawf oedran

Cerdyn adnabod sydd â hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (cerdyn PASS).




## Dogfennau eraill a roddwyd gan y Llywodraeth

<table>
<tr><td>Dogfen mewnfudo fiometrig</td><td>Ffurflen 90 y Weinyddiaeth Amddiffyn (Cerdyn Adnabod Amddiffyn) (y fersiwn flaenorol)</td></tr>
<tr><td>


</td><td>






</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cerdyn Adnabod Etholiadol a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon</td></tr>
<tr><td>


</td><td>


</td></tr>
</table>

**Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**




**Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr Dros Dro**




**Dogfen Etholwr Dienw**



# Atodiad 13 – Gwledydd yr AEE, gwledydd y Gymanwlad a Thiriogaethau Tramor Prydeinig

Gall rhai mathau o ID ffotograffig a dderbynnir, megis pasbortau, trwyddedau gyrru a chardiau ID cenedlaethol, gael eu rhoi gan wledydd penodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn dibynnu ar eu haelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), y Gymanwlad neu p'un a yw'n Diriogaeth Tramor Brydeinig.

Bydd y tablau canlynol yn eich helpu i ganfod pa fathau o ID y gellir eu derbyn o ba wledydd.

Er mwyn eich helpu i bennu dilysrwydd a tharddiad yr ID ffotograffig, rydym wedi cynnwys fersiynau o enwau gwledydd yr AEE yn eu hieithoedd brodorol (e.e. 'Republik Österreich' ar gyfer Awstria) gan mai dyma sut y gallent ymddangos.

Hefyd, lle y bo'n berthnasol, mae'r cod trwydded yrru wedi'i gynnwys (e.e. 'A' ar gyfer Awstria), a'r cod ISO 3166 â 3 llythyren (e.e. 'AUT' ar gyfer Awstria) a ddefnyddir mewn pasbortau ac ar gardiau ID cenedlaethol yn aml.

Pasbortau'r DU fydd pasbortau o Diriogaethau Tramor Prydeinig yn aml, gydag enw'r diriogaeth wedi'i ychwanegu at y clawr yn aml. Byddant yn defnyddio'r un cod ISO 3166 â'r Deyrnas Unedig, sef 'GBR'.

## Tiriogaethau Tramor Prydeinig (pasbortau)

| | | |
|---|---|---|
| Anguilla | Bermuda | Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig |
| Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India | Ynysoedd Prydeinig y Wyryf | Ynysoedd Cayman |
| Ynysoedd Falkland | Gibraltar | Montserrat |
| Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno | St Helena, Ascension a Tristan da Cunha | De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De |
| Ardaloedd canolfannau milwrol sofran Akrotiri a Dhekelia ar Cyprus | Ynysoedd Turks a Caicos | |

## Gwledydd y Gymanwlad (pasbortau)*

| | | |
|---|---|---|
| Antigua a Barbuda- ATG | Awstralia- AUS | Y Bahamas- BHS |
| Bangladesh- BGD | Barbados- BRB | Belize- BLZ |
| Botswana- BWA | Brunei Darussalam- BRN | Cameroon- CMR |
| Canada- CAN | Cyprus- CYP | Dominica- DMA |
| Ffiji- FJI | Gabon- GAB | Y Gambia- GMB |
| Ghana- GHA | Grenada- GRD | Guyana- GUY |
| India- IND | Jamaica- JAM | Kenya- KEN |
| Teyrnas Eswatini- SWZ | Kiribati- KIR | Lesotho- LSO |
| Malawi- MWI | Malaysia- MYS | Maldives- MDV |
| Malta- MLT | Mauritius- MUS | Mozambique- MOZ |
| Namibia- NAM | Nauru- NRU | Seland Newydd- NZL |
| Nigeria- NGA | Pacistan- PAK | Papua Guinea Newydd- PNG |
| Rwanda- RWA | St Kitts a Nevis- KNA | St Lucia- LCA |
| St Vincent a'r Grenadines- VCT | Samoa- WSM | Seychelles- SYC |
| Sierra Leone- SLE | Singapore- SGP | Ynysoedd Solomon- SLB |
| De Affrica- ZAF | Sri Lanka- LKA | Togo- TGO |
| Tonga- TON | Trinidad a Tobago- TTO | Tuvalu- TUV |
| Uganda- UGA | Y Deyrnas Unedig- GB/UK GBR | Gweriniaeth Unedig Tanzania- TZA |
| Vanuatu- VUT | Zambia- ZMB | |

*Noder, er bod rhai cyn-wledydd y Gymanwlad wedi cadw eu hawliau pleidleisio yn y DU, dim ond math o ID a dderbynnir a roddwyd gan un o wledydd y Gymanwlad y gallant ei ddefnyddio. Er enghraifft, mae hawl gan ddinasyddion Zimbabwe bleidleisio, ond ni chânt ddefnyddio pasbort Zimbabwe fel ID.

## Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (trwyddedau gyrru, pasbortau ac ID cenedlaethol)

| | | |
|---|---|---|
| Awstria- A AUT<br>Republik Österreich | Gwlad Belg- B BEL<br>Koninkrijk België/ Royaume de Belgique/ Königreich Belgien | Bwlgaria- BG BGR<br>Република България/ Republika Bŭlgarija |
| Croatia- HR HRV<br>Republika Hrvatska | Gweriniaeth Cyprus- CY CYP<br>Κυπριακή Δημοκρατία/ Kıbrıs Cumhuriyeti | Y Weriniaeth Tsiec- CZ CZE<br>Česká Republika/ Česko |
| Denmarc- DK DNK<br>Danmark | Estonia- EST<br>Eesti | Y Ffindir- FIN<br>Suomi |
| Ffrainc- F FRA<br>République Française | Yr Almaen- D DEU<br>Bundesrepublik Deutschland | Gwlad Groeg- GR GRC<br>Ελληνική Δημοκρατία |
| Hwngari- H HUN<br>Magyarország | Gwlad yr Iâ- ÍS ISL<br>Ísland | Iwerddon- IRL<br>Éire |
| Yr Eidal- I ITA<br>Repubblica Italiana | Latfia- LV LVA<br>Latvijas Republika | Liechtenstein- FL LIE<br>Fürstentum Liechtenstein |
| Lithwania- LT LTU<br>Lietuvos Respublika | Lwcsembwrg- L LUX<br>Grand-Duché de Luxembourg | Malta- M MLT<br>Malta |
| Yr Iseldiroedd- NL NLD<br>Koninkrijk der Nederlanden | Norwy- N NOR<br>Norge/ Noreg | Gwlad Pwyl- PL POL<br>Rzeczpospolita Polska |
| Portiwgal- P PRT<br>República Portuguesa | Rwmania- RO ROM<br>România | Slovacia- SK SVK<br>Slovenska Republika |
| Slofenia- SLO SVN<br>Republika Slovenija | Sbaen- E ESP<br>Reino de España | Sweden- S SWE<br>Sverige |

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau

### Arolwg staff gorsafoedd pleidleisio

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn casglu adborth gan staff gorsafoedd pleidleisio a hoffai glywed eich barn a'ch profiadau o weinyddu'r etholiad. Byddwn yn defnyddio'r adborth (yn ddienw) i lywio ein hadroddiadau ar ôl yr etholiad a drefnwyd ac i wneud argymhellion i wella'r ffordd y caiff etholiadau eu cynnal yn y DU.

Defnyddiwch y cod QR ar y dde y gellir ei sganio gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o ffonau clyfar, ac a fydd yn eich galluogi i gwblhau'r arolwg 10 munud ar eich dyfais. **NODER: bydd yr arolwg ar agor o 2pm ar 4 Gorffennaf, a bydd yn cau yn fuan ar ôl hynny, unwaith y byddwn wedi cael digon o ymatebion.**

Ar y rhan fwyaf o ffonau, gellir sganio'r cod gan ddefnyddio ap sganio codau QR sydd wedi'i osod yn barod neu drwy ddefnyddio camera'r ffôn. Mae'n bosibl y bydd angen gosod ap sganio ar rai dyfeisiau. Er mwyn sganio'r cod, agorwch y camera neu'r ap perthnasol a daliwch y ffôn fel bod y cod yn ymddangos yng nghanol y sgrin. Yna dylech gael yr opsiwn i ddilyn y ddolen a dylai'r arolwg agor ym mhorwr eich ffôn.

Os na allwch gael y cod QR i weithio, gallwch ddefnyddio'r URL canlynol i agor yr arolwg https://eu.research.net/r/UKPGE24PollingStationStaff.

Y
Comisiwn
Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol
Llawr 3, James William House,
9 Museum Place,
Cathays,
Caerdydd CF10 3BD

Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.electoralcommission.org.uk/cy

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau llwyddiannus. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle mae etholiadau a refferenda yn seiliedig ar ein hegwyddorion, sef ymddiriedaeth, cyfranogiad, a rhyddid rhag dylanwad gormodol.

**Pleidleiswyr yw ein blaenoriaeth**